# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2012
Tuesday, 6 March 2012

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

31 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

35 Datganiad: Mynd i'r Afael â Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
Statement: Tackling Human Trafficking in Wales

53 Datganiad: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
Statement: International Women's Day

73 Datganiad: Glastir—Gweithredu'r Cynllun
Statement: Glastir—Taking the Scheme Forward

91 Y Gyllideb Atodol
The Supplementary Budget

105 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynullliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Bandio Ysgolion Cynradd

### Primary School Banding

***1. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyflwyno system fandio ar gyfer ysgolion cynradd. OAQ(4)0397(FM)*

***1. Nick Ramsay:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to introduce banding for primary schools. OAQ(4)0397(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** The Minister for Education and Skills announced on 20 February 2012 that banding for primary schools will be introduced in 2014.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Ar 20 Chwefror 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydd bandio ar gyfer ysgolion cynradd yn cael ei gyflwyno yn 2014.

**Nick Ramsay:** What reassurance can you give to concerned parents and pupils across Wales, who are still waiting for your Government to drive up standards, that your Government's recent u-turn on the timescale of this banding scheme is not the prelude to the ditching of this Labour manifesto pledge altogether?

**Nick Ramsay:** Pa sicrwydd y gallwch ei roi i rieni a disgyblion ledled Cymru sy'n poeni ac yn dal i aros i'ch Llywodraeth godi safonau, na fydd tro-pedol diweddar eich Llywodraeth ynghylch amserlen y cynllun bandio hwn yn eich arwain i gefnu'n llwyr ar yr addewid hwn ym maniffesto Llafur?

**The First Minister:** Not at all. We will get it right in 2014, as we promised, and secondly, we will not cut education funding by 20%, as his party would.

**Y Prif Weinidog:** Ddim o gwbl. Byddwn yn sicrhau bod pob dim iawn yn 2014, fel yr addawyd, ac yn ail, ni fyddwn yn torri 20% oddi ar gyllid addysg, fel y byddai ei blaid ef yn ei wneud.

**Simon Thomas:** First Minister, I can give an alternative view. Why not ditch the primary school banding altogether, and instead of waiting until 2014 to improve standards in our schools, why not agree with the whole profession, and to be fair, the Minister for education, that you will concentrate on improving the core skills of reading and writing among our primary school children, introduce the national reading test, get the support into our primary schools and forget about banding? Banding will not help you in this Assembly.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, gallaf gynnig barn arall. Beth am gael gwared ar fandio ysgolion cynradd yn gyfan gwbl, ac yn lle aros tan 2014 i wella safonau yn ein hysgolion, beth am gytuno â'r proffesiwn i gyd, ac i fod yn deg, y Gweinidog addysg, y byddwch yn canolbwyntio ar wella sgiliau craidd darllen ac ysgrifennu ymysg plant ein hysgolion cynradd, cyflwyno'r prawf darllen cenedlaethol, cael cymorth yn ein hysgolion cynradd ac anghofio am fandio? Ni fydd bandio yn eich helpu yn y Cynulliad hwn.

**The First Minister:** We are doing both, of course. We are introducing the test to which

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwneud y ddau, wrth gwrs. Rydym yn cyflwyno'r prawf

you refer, but it is important that we are able to assess primary schools in order to provide parents with the information they need.

rydych yn cyfeirio ato, ond mae'n bwysig ein bod yn gallu asesu ysgolion cynradd er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni.

**Rhwydwaith Ysbytai Cymru**

**Wales's Hospital Network**

***2. Elin Jones:*** *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhwydwaith o ysbytai yng Nghymru. OAQ(4)0394(FM)*

***2. Elin Jones:*** *How is the Welsh Government supporting the network of hospitals in Wales. OAQ(4)0394(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu fframwaith, ac o fewn y fframwaith hwnnw, caiff byrddau iechyd wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau dyfodol hirdymor y gwasanaethau.

**The First Minister:** The Welsh Government has established a framework within which health boards can take decisions to ensure the long-term future for safe hospital services in Wales, within the resources available to them.

**Elin Jones:** First Minister, last week in this Chamber, you accused me of scaremongering and misleading my constituents over the Bronglais issue. Today, in a press release, two Labour Assembly Members also accuse me of scaremongering. Let me tell you: 850 people do not travel three hours from Aberystwyth, Tywyn, and Llanidloes down to the steps of this Assembly because Elin Jones is scaremongering. The Hywel Dda LHB document, currently in pre-consultation phase, has no option for colorectal surgery or acute surgery in Bronglais, no commitment to 24-hour presence of obstetric consultants in Bronglais, and only one of the three options includes a full accident and emergency service retained in Bronglais. Do you agree with me, First Minister, that this is not Elin Jones scaremongering, but Hywel Dda LHB proposing to downgrade hospitals?

**Elin Jones:** Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf yn y Siambr hon, gwnaethoch fy nghyhuddo o godi bwganod a chamarwain fy etholwyr ynghylch mater Bronglais. Heddiw, mewn datganiad i'r wasg, gwnaeth dau Aelod Cynulliad Llafur hefyd fy nghyhuddo o godi bwganod. Gadewch imi ddweud wrthych: nid yw 850 o bobl yn teithio tair awr o Aberystwyth, Tywyn, a Llanidloes i risiau'r Cynulliad hwn oherwydd bod Elin Jones yn codi bwganod. Nid yw dogfen BILl Hywel Dda, sy'n cael ei thrafod ar hyn bryd yn y cyfnod cyn-ymgynghori, yn cynnwys opsiwn ar gyfer llawdriniaethau'r colon a'r rhefr na llawdriniaethau acíwt ym Mronglais, nid oes ymrwymiad i gael ymgynghorwyr obstetrig 24 awr ym Mronglais, a dim ond un o'r tri opsiwn sy'n cynnwys cadw'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys ym Mronglais. A ydych yn cytuno â mi, Brif Weinidog, nad Elin Jones yn codi bwganod yw hyn, ond BILl Hywel Dda yn ceisio israddio ysbytai?

**The First Minister:** The tune has now changed, because the press release issued by the Member last week was that these were Labour's plans, politicising the whole issue in an unnecessary way. At least we now get a kernel of the truth when she says that these are local health board plans and are to be consulted upon. However, as I have said many times, as has the Minister for health, we will not accept any plans that do not provide safe and sustainable services for all the communities in Wales. There is no question of the accident and emergency department closing; there is no question of maternity closing—

**Y Prif Weinidog:** Mae'r dôn wedi newid erbyn hyn, oherwydd yn ôl y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan yr Aelod wythnos diwethaf, cynlluniau Llafur yw'r rhain, gan wleidyddoli'r mater, a hynny'n ddiangen. O leiaf nawr rydym yn cael cnewyllyn o'r gwirionedd wrth i'r Aelod ddweud mai cynlluniau'r byrddau iechyd lleol ydynt ac y bydd ymgynghori arnynt. Fodd bynnag, fel yr wyf i a'r Gweinidog iechyd wedi dweud droeon, ni fyddwn yn derbyn unrhyw gynlluniau nad ydynt yn darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i bob cymuned yng Nghymru. Ni fydd yr adran damweiniau ac achosion brys yn cau ar

unrhyw gyfrif; nid fydd yr uned famolaeth yn cau ar unrhyw gyfrif—

**Elin Jones:** I did not say—

**Elin Jones:** Ni ddywedais—

**The First Minister:** There are people who are saying that the accident and emergency department and the maternity unit are closing. There were banners outside here stating that Bronglais hospital was going to close. Who on earth has told them that? We want to ensure that Bronglais continues to serve the wider area in a safe and sustainable way. We have no other ambition.

**Y Prif Weinidog:** Mae rhai pobl yn dweud bod yr adran damweiniau ac achosion brys a'r uned famolaeth yn cau. Roedd baneri y tu allan yn datgan bod ysbyty Bronglais yn mynd i gau. Pwy ar wyneb y ddaear ddywedodd hynny wrthynt? Rydym am sicrhau bod Bronglais yn parhau i wasanaethu'r ardal ehangach mewn modd diogel a chynaliadwy. Nid oes gennym unrhyw uchelgais arall.

**Joyce Watson:** Will you join with me in reassuring people, yet again, that this Government has no plans to downgrade any services or to close Bronglais hospital, and that the £38 million we have invested is a real commitment to that hospital? I am sure you will agree that it is a little disappointing to hear people say that that investment does not equal a commitment.

**Joyce Watson:** A wnewch chi ymuno â mi i sicrhau pobl, unwaith eto, nad oes gan y Llywodraeth hon unrhyw gynlluniau i israddio unrhyw wasanaethau na chau ysbyty Bronglais, a bod y £38 miliwn rydym wedi'i fuddsoddi yn ymrwymiad gwirioneddol i'r ysbyty hwnnw? Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod ychydig yn siomedig clywed pobl yn dweud nad yw'r buddsoddiad hwnnw yn golygu ymrwymiad.

**The First Minister:** I do find it surprising that the £38 million of capital spending that is going into Bronglais is treated by some as if it was not happening. The reality is that it is a significant commitment by this Government to the future of Bronglais hospital. It is an important district general hospital that serves a very wide area including southern Gwynedd and western Montgomeryshire, and one that will continue to serve that area for many years to come.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn synnu bod y £38 miliwn o wariant cyfalaf sy'n mynd i Fronglais yn cael ei drin gan rai fel pe na bai'n digwydd. Y gwir yw ei fod yn ymrwymiad arwyddocaol gan y Llywodraeth hon i ddyfodol ysbyty Bronglais. Mae'n ysbyty cyffredinol dosbarth pwysig sy'n gwasanaethu ardal eang iawn gan gynnwys de Gwynedd a gorllewin sir Drefaldwyn, ac yn un a fydd yn parhau i wasanaethu'r ardal honno am flynyddoedd lawer eto.

**Darren Millar:** First Minister, one thing that is worrying my constituents and people across north Wales is the fact that, according to the charity Bliss, the neonatal units at both Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospital are not even approaching compliance with the all-Wales neonatal standards on medical staffing. We have been told by Bliss that this is because of a shortage of specialist members of staff. The Royal College of Nursing has indicated that staff are not getting adequate time to train professionally in order to be able to provide care. In the light of your record-breaking £0.5 billion-worth of cuts to the Welsh NHS, how do you expect those hospitals to have

**Darren Millar:** Brif Weinidog, un peth sydd yn peri pryder i'm hetholwyr a phobl ledled y gogledd yw'r ffaith, yn ôl yr elusen Bliss, nad yw'r unedau newyddenedigol yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam hyd yn oed yn agos at gydymffurfio â safonau newyddenedigol Cymru gyfan o ran nifer eu staff meddygol. Yn ôl Bliss mae hyn oherwydd prinder aelodau o staff arbenigol. Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi nodi nad yw staff yn cael digon o amser i hyfforddi'n broffesiynol er mwyn gallu darparu gofal. Yn sgîl eich toriadau o £0.5 biliwn i GIG Cymru, sef y mwyaf a wnaed erioed, sut ydych yn disgwyl i'r ysbytai hynny gael cyfleusterau newyddenedigol

adequate neonatal facilities in the future?

digonol yn y dyfodol?

**The First Minister:** As the Member knows, there are difficulties with recruitment and they are not due to money. There are vacancies in the NHS in Wales that are funded, but the problem is in attracting people here. We anticipate that there will be more and more practitioners who will want to come into Wales when they look at the chaos that is occurring in England.

**Y Prif Weinidog:** Fel y gŵyr yr Aelod, mae anawsterau gyda recriwtio ac nid arian sy'n gyfrifol am hynny. Mae swyddi gwag yn y GIG yng Nghymru sy'n cael eu hariannu, ond y broblem yw denu pobl yma. Rydym yn rhagweld y bydd mwy a mwy o ymarferwyr am ddod i Gymru pan fyddant yn gweld yr anhrefn sy'n digwydd yn Lloegr.

**William Powell:** First Minister, you acknowledged the vitally important part that Bronglais hospital plays not only in Ceredigion, but in southern Gwynedd and western Powys. Do you accept that, in cases such as that of Bronglais, hospital catchment areas rather than the LHB authority boundary should be the basis of the statistics upon which future service provision is based?

**William Powell:** Brif Weinidog, gwnaethoch gydnabod y rhan hanfodol bwysig y mae ysbyty Bronglais yn ei chwarae nid yn unig yng Ngheredigion, ond yn ne Gwynedd a gorllewin Powys. A ydych yn derbyn, mewn achosion megis Bronglais, y dylid defnyddio dalgylchoedd ysbytai yn hytrach na ffiniau awdurdod BILl ar gyfer yr ystadegau y mae gwasanaethau yn y dyfodol yn seiliedig arnynt?

**The First Minister:** Yes, we have to acknowledge that, while bearing in mind that many people in southern Ceredigion tend to go to Glangwili hospital because it is physically closer—people who live in Lampeter and Cardigan, for example. Nevertheless, Bronglais does have a wide catchment area that we fully acknowledge. We cannot plan services simply on the basis of containing them purely within an LHB boundary.

**Y Prif Weinidog:** Ydw, mae'n rhaid inni gydnabod hynny, gan gofio bod llawer o bobl yn ne Ceredigion yn tueddu i fynd i ysbyty Glangwili am ei fod yn agosach—pobl sy'n byw yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi, er enghraifft. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod gan ysbyty Bronglais ddalgylch eang. Ni allwn gynllunio gwasanaethau ar sail eu cynnwys o fewn ffin y BILl yn unig.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Welsh Conservatives (Andrew R.T. Davies):** First Minister, last week was Wales Tourism Week. What did you do to promote it?

**Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, roedd hi'n Wythnos Twristiaeth Cymru yr wythnos diwethaf. Beth wnaethoch i'w hyrwyddo?

**The First Minister:** I will be promoting tourism in Wales in America this week and I will be meeting tourism operators to remind the people of the United States that Wales is a wonderful destination, building of course on the success of the Ryder Cup.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru yn America yr wythnos hon, a byddaf yn cyfarfod gweithredwyr twristiaeth i atgoffa pobl yr Unol Daleithiau bod Cymru yn gyrchfan hyfryd, gan adeiladu, wrth gwrs, ar lwyddiant Cwpan Ryder.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that, First Minister. I appreciate that you are going to America tomorrow, I believe. Obviously,

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Rwy'n cydnabod eich bod yn mynd i America yfory, am wn i. Yn amlwg,

we understand that you are leaving from Heathrow rather than our own airport here, in Cardiff, despite the fact that you could go from Cardiff to Schiphol and then get a connecting flight over. If you look at the facts on the tourism offering, there are fewer UK visitors to Wales than there were 10 years ago. If you look at overseas visitors, 113,000 fewer visitors are coming to Wales than there were in 2004. If you look at tourist expenditure in Wales, it is less than it was 10 years ago. Those figures indicate that the policies that your Government has been exercising in order to promote Wales as an attractive tourist destination are failing. Why is that?

rydym yn deall eich bod yn gadael o Heathrow yn hytrach nag o’n maes awyr ni yma, yng Nghaerdydd, er gwaetha’r ffaith y gallech fynd o Gaerdydd i Schiphol a chael awyren arall o’r fan honno. Os edrychwch ar y ffeithiau ar yr arlwy ar gyfer twristiaeth, mae llai o ymwelwyr o’r DU yn dod i Gymru nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Os edrychwch ar ymwelwyr tramor, mae 113,000 yn llai yn dod i Gymru nag yr oedd yn 2004. Os edrychwch ar wariant ar dwristiaeth yng Nghymru, mae’n llai nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Mae’r ffigurau yn dangos bod y polisïau y mae eich Llywodraeth wedi bod yn eu gweithredu er mwyn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan twristiaeth ddeniadol yn methu. Pam hynny?

**The First Minister:** Has the Member not noticed that there has been an economic downturn since 2008? To suggest that, somehow, things will be as they were in 2007 is a comment from cloud-cuckoo-land. The reality is that we are working hard to attract tourists into Wales. The Ryder Cup was a fantastic success last year—even though the world economy was not doing well—and we will continue to attract tourists to Wales by selling Wales as a wonderful place to come. The fact that we had the Ryder Cup was indicative of that.

**Y Prif Weinidog:** Onid yw’r Aelod wedi sylwi bod dirywiad economaidd wedi bod ers 2008? Mae awgrymu, rywsut, y bydd pethau’r un fath ag yr oeddent yn 2007 yn sylw gan rywun â’i ben yn y cymylau. Y gwir amdani yw ein bod yn gweithio’n galed i ddenu twristiaid i Gymru. Roedd Cwpan Ryder yn llwyddiant ysgubol y llynedd—er nad oedd economi’r byd yn llewyrchus iawn—a byddwn yn parhau i ddenu twristiaid i Gymru drwy werthu Cymru fel lle hyfryd i ymweld ag ef. Mae’r ffaith ein bod wedi cael Cwpan Ryder yn dangos hynny.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, in answer to my first question you could not give me one example of any action that you undertook last week during tourism week. You highlight that there has been a downturn in expenditure, but your Government’s figures do not capture the most recent data, only the data up until 2010, and I was offering a 10-year snapshot. Scotland has a very aggressive marketing campaign for the offering that it has available. Today, the Westminster Government is launching a staycation promotional campaign to encourage visitors to stay within the United Kingdom and to spend their money here.

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, wrth ateb fy nghwestiwn cyntaf nid oeddech yn gallu rhoi un enghraifft i mi o unrhyw beth y gwnaethoch yr wythnos diwethaf yn ystod wythnos twristiaeth. Gwnaethoch gyfeirio at y ffaith bod dirywiad wedi bod mewn gwariant, ond nid yw ffigurau eich Llywodraeth yn cynnwys y data diweddaraf, dim ond y data hyd at 2010, ac roeddwn yn cynnig ciplun o 10 mlynedd. Mae gan yr Alban ymgyrch farchnata egnïol iawn ar gyfer yr arlwy sydd ar gael. Heddiw, mae Llywodraeth San Steffan yn lansio ymgyrch hyrwyddo gwyliau gartref, neu *staycation*, i annog ymwelwyr i aros yn y Deyrnas Unedig ac i wario eu harian yma.

From your previous two answers, you clearly indicate that you have no strategy and no understanding of how to support the very positive offering that we have in Wales and that our tourism operators want to get behind. I ask you again: what will you be doing

O glywed eich dau ateb blaenorol, mae’n amlwg nad oes gennych unrhyw strategaeth nac unrhyw ddealltwriaeth o sut i gefnogi’r arlwy cadarnhaol iawn sydd gennym yng Nghymru ac y mae ein gweithredwyr twristiaeth am ei gefnogi. Gofynnaf i chi eto:

proactively over the next 12 to 18 months to turn these disappointing figures around and to engage positively with tourism operators to promote Wales in a positive light?

beth fyddwch yn ei wneud yn rhagweithiol dros y 12 i 18 mis nesaf i wrthdroi'r ffigurau siomedig hyn ac ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithredwyr twristiaeth i hyrwyddo Cymru mewn modd cadarnhaol?

**The First Minister:** The problem with the leader of the opposition is that he is unable to deviate from his script even when he gets unexpected answers. I will remind him once again of what I said: I will be in the United States, and I will be meeting with tourism operators there to promote Wales in the US. I will continue to do so because, unlike him, I take the view that it is important for someone in my job to continue to sell and promote Wales abroad, even if he wants to stay at home.

**Y Prif Weinidog:** Y broblem gydag arweinydd yr wrthblaid yw nad yw'n gallu gwyro oddi wrth ei sgript hyd yn oed pan gaiff atebion annisgwyl. Rwyf am ei atgoffa unwaith eto o'r hyn a ddywedais: byddaf yn yr Unol Daleithiau, a byddaf yn cyfarfod â gweithredwyr twristiaeth yno i hyrwyddo Cymru yn UDA. Byddaf yn parhau i wneud hynny oherwydd, yn wahanol iddo ef, credaf ei bod yn bwysig i rywun yn fy swydd i barhau i werthu a hyrwyddo Cymru dramor, hyd yn oed os yw ef yn dymuno aros gartref.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, one in 200 pregnancies ends in the tragedy of a stillbirth, which is a figure that has not improved for more than 20 years. Figures released last week show that the rate of stillbirths in Wales is rising. In 2010, there were 190 known and recorded stillbirths, compared with 155 in 1999. From being one of the best countries, Wales, and indeed the UK, are now among the worst. What proposals does your Government have to address this issue?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, canlyniad trychinebus un o bob 200 beichiogrwydd yw marwenedigaeth, sy'n ffigur nad yw wedi gwella ers dros 20 mlynedd. Mae ffigurau a ryddhawyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod cyfradd ymarwenedigaethau yng Nghymru yn codi. Yn 2010, roedd 190 o farwenedigaethau hysbys wedi'u cofnodi, o'i gymharu â 155 yn 1999. O fod yn un o'r gwledydd gorau, mae Cymru, ac yn wir y DU, bellach ymhlith y gwaethaf. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn?

**The First Minister:** As the leader of the Welsh Liberal Democrats will know, we are looking at the best way to configure services in Wales in order to ensure the safest and most sustainable service.

**Y Prif Weinidog:** Fel gŵyr arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym yn edrych ar y ffordd orau o gyflunio gwasanaethau yng Nghymru er mwyn sicrhau'r gwasanaeth mwyaf diogel a chynaliadwy.

**Kirsty Williams:** One of the ways in which early signs of potential fetal distress can be identified is by a baby being underweight through poor growth. In Wales, as in the rest of the UK, the way in which we measure the size of an unborn baby is rudimentary—we simply measure the size of the mother's bump. In other countries, such as Germany, pregnant women are offered many more scans, which offers a much more accurate way of predicting a baby's birth weight. Will you consider undertaking such an approach in Wales so that expectant mothers have more regular scans and become aware if a baby is

**Kirsty Williams:** Un o'r ffyrdd o adnabod arwyddion cynnar trallod posibl y ffetws yw bod pwysau baban yn rhy ysgafn o ganlyniad i broblemau tyfu. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae'r ffordd rydym yn mesur maint baban heb ei eni yn elfennol—yr unig beth a wnawn yw mesur maint bol y fam. Mewn gwledydd eraill, megis yr Almaen, mae menywod beichiog yn cael cynnig llawer mwy o sganiau, sy'n cynnig ffordd llawer mwy cywir o ragweld pwysau geni baban. A wnewch chi ystyried ymgymryd â dull o'r fath yng Nghymru fel bod mamau beichiog yn cael sganiau mwy

struggling to thrive?

rheolaidd ac yn cael gwybod os yw baban yn cael trafferth datblygu?

**The First Minister:** If there are ways of improving the outcome of a birth, then we will examine any such way. If the Member is aware of other countries where she feels there are better ways of monitoring a child in vivo, we would clearly look to examine what is being done there to see whether it can be done in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Os oes ffyrdd o wella canlyniad genedigaeth, byddwn yn ymchwilio i'r ffyrdd hynny. Os yw'r Aelod yn ymwybodol o wledydd eraill lle mae hi'n teimlo bod ffyrdd gwell o fonitro plentyn *in vivo*, byddem yn amlwg yn edrych ar yr hyn a wneir yno i weld a ellir ei wneud yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** I can give you a further example. Another sign of fetal distress is reduced fetal movement towards the end of pregnancy. Timely access to fetal heart monitoring and scanning can make a real difference to the outcomes of pregnancies where this occurs. Will you ensure, as you undertake reviews of your services in Wales, that women will be guaranteed timely access to fetal heart monitoring and subsequent scans if their doctor feels it is necessary?

**Kirsty Williams:** Gallaf roi enghraifft arall i chi. Arwydd arall o drallod y ffetws yw llai o symud yn y ffetws tua diwedd cyfnod y beichiogrwydd. Gall monitro calon y ffetws a sganio mewn da bryd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau beichiogrwydd yn yr achosion hyn. A wnewch chi sicrhau, wrth i chi gynnal adolygiadau o'ch gwasanaethau yng Nghymru, y bydd merched yn cael gwasanaeth monitro calon y ffetws a sganiau dilynol os yw eu meddyg yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol?

**The First Minister:** Yes, that is absolutely crucial. We need to ensure that as much reassurance as possible is given to expectant mothers, and that means ensuring that the right level of specialised services are available to them in good time.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, mae hynny'n gwbl hanfodol. Mae angen inni sicrhau bod cymaint o sicrwydd ag y bo modd yn cael ei roi i famau beichiog, ac mae hynny'n golygu sicrhau bod y gwasanaethau arbenigol priodol ar gael iddynt mewn da bryd.

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** First Minister, speaking of the Hywel Dda Local Health Board, the Labour Member of Parliament, Nia Griffith, said:

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Brif Weinidog, wrth siarad am Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, dywedodd yr Aelod Seneddol Llafur, Nia Griffith:

'The Health Board is taking little notice of either patients or staff'.

'Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cymryd llawer o sylw o gleifion na staff'.

Keith Davies, who is the Labour constituency Member for Llanelli, claimed that ambulances are bypassing Prince Phillip Hospital and taking emergency patients to Carmarthen and Swansea. Both have pledged to defend the existing accident and emergency services at Prince Phillip Hospital. Are they both scaremongering?

Honnodd Keith Davies, sef yr Aelod Llafur dros etholaeth Llanelli, bod ambiwlansys yn mynd heibio i Ysbyty'r Tywysog Phillip ac yn mynd â chleifion brys i Gaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ddau wedi addo amddiffyn y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Phillip. A ydynt yn codi bwganod?

**The First Minister:** The planned changes to the accident and emergency services at Llanelli are minimal, and the public will see very little difference. It has always been the case that ambulances have gone to other hospitals, especially in the case of people

**Y Prif Weinidog:** Mae'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Llanelli yn fach iawn, ac ni fydd y cyhoedd yn gweld fawr o wahaniaeth. Maeambiwlansys wedi mynd i ysbytai eraill erioed, yn enwedig yn achos pobl sydd â

with cardiac problems because Morriston Hospital is a specialist cardiac centre, and that is exactly where people should be taken if they are in that position.

phroblemau ar y galon oherwydd mae Ysbyty Treforys yn ganolfan gardiaidd arbenigol, a dyna'n union lle y dylai pobl fynd os ydynt yn y sefyllfa honno.

**Ieuan Wyn Jones:** I see, therefore, that it is only people from other parties who are scaremongering, not members of your party. The Labour peer, Lord Elystan-Morgan said last week that Bronglais hospital had been 'run down' before the creation of the Hywel Dda Local Health Board. He also said:

**Ieuan Wyn Jones:** Gwelaf, felly, mai dim ond pobl o bleidiau eraill sy'n codi bwganod, nid aelodau o'ch plaid chi. Dywedodd un o arglwyddi Llafur, yr Arglwydd Elystan-Morgan yr wythnos diwethaf fod ysbyty Bronglais wedi 'dirywio' cyn creu Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Dywedodd hefyd:

'But when Hywel Dda came to be that process was accelerated and accelerated with gusto'.

'Ond pan grëwyd Hywel Dda cafodd y broses ei chyflymu a'i chyflymu ag afiaith'.

A big majority of medical staff at Bronglais have no confidence in the Hywel Dda Local Health Board. Are they scaremongering?

Nid oes gan mwyafrif helaeth staff meddygol Bronglais unrhyw hyder ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. A ydynt yn codi bwganod?

**The First Minister:** You were in Government for four years when the local health board was in existence. So, unless you are saying that you were all part of this, you must also take some of the responsibility. The reality is that it has been difficult to attract consultants to Bronglais for some 20 or 30 years, and I have said this many times in the Chamber. The way in which the medical profession has organised itself over the past 20 years means that it is increasingly difficult to attract full-time consultants further west than Morriston. I have said this many times, which is why we have ensured that we have launched a recruitment campaign in order to attract more senior staff west of Swansea.

**Y Prif Weinidog:** Roeddech mewn Llywodraeth am bedair blynedd pan oedd y bwrdd iechyd lleol yn bodoli. Felly, oni bai eich bod yn dweud eich bod yn rhan o hyn, mae'n rhaid i chi hefyd gymryd peth o'r cyfrifoldeb. Y gwir amdani yw ei bod wedi bod yn anodd denu meddygon ymgynghorol i Fronglais ers 20 i 30 mlynedd, ac rwyf wedi dweud hyn droeon yn y Siambr. Mae'r ffordd y mae'r proffesiwn meddygol wedi trefnu ei hun dros yr 20 mlynedd diwethaf yn golygu ei bod yn gynyddol anodd denu meddygon ymgynghorol llawn amser ymhellach i'r gorllewin na Threforys. Rwyf wedi dweud hyn droeon, a dyna pam rydym wedi sicrhau ein bod wedi lansio ymgyrch recriwtio er mwyn denu mwy o aelodau uwch o staff i'r ardal i'r gorllewin o Abertawe.

1.45 p.m.

**Ieuan Wyn Jones:** It is not just Plaid Cymru that is worried about the future of health services. I have quoted to you three Labour members. Will you give this Assembly an assurance today that, at the end of this Assembly term, both Prince Philip and Bronglais hospitals will have full accident and emergency departments and will not be downgraded to urgent care centres?

**Ieuan Wyn Jones:** Nid dim ond Plaid Cymru sy'n poeni am ddyfodol gwasanaethau iechyd. Rwyf wedi dyfynnu'r hyn a ddywedodd tri aelod Llafur. A wnewch chi roi sicrwydd i'r Cynulliad heddiw y bydd gan ysbytai'r Tywysog Philip a Bronglais, ar ddiwedd tymor y Cynulliad hwn, adrannau damweiniau ac achosion brys llawn, ac na fyddant yn cael eu hisraddio'n ganolfannau gofal brys?

**The First Minister:** There will be no downgrading of either Prince Philip or

**Y Prif Weinidog:** Ni fydd unrhyw israddio yn digwydd yn ysbyty'r Tywysog Philip nac

Bronglais.

yn ysbyty Bronglais.

**The Presiding Officer:** I remind Members that this is an opportunity to question the First Minister and not to give long speeches.

**Y Llywydd:** Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai cyfle yw hwn i holi'r Prif Weinidog ac nid i roi areithiau hir.

**Dyfodol y DU**

**The Future of the UK**

***3. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa drafodaethau a gafodd y Prif Weinidog gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'i gynnig i sefydlu confensiwn i ystyried dyfodol y DU. OAQ(4)0402(FM)*

***3. Lord Elis-Thomas:*** *What discussions did the First Minister have with the UK Government regarding his proposal to establish a convention to consider the future of the UK. OAQ(4)0402(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan mai fy syniad i oedd hynny yn y lle cyntaf. Rwyf wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog i ddweud y byddai hwn yn syniad da er mwyn sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig.

**The First Minister:** I have had no discussions with the United Kingdom Government, as it was my idea in the first place. I have written to the Prime Minister to say that this would be a good idea in order to safeguard the future of the United Kingdom.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwy'n gwbl gefnogol i arweiniad y Prif Weinidog yn y mater hwn ac rwy'n meddwl ei bod yn allweddol bod llais Cymru yn cael ei glywed yn glir, nid yn unig am ein bod ni'n rhan o'r deyrnas cyn yr Alban, ond am fod dyfodol y deyrnas yn fater y dylai pob cenedl yn y deyrnas gael llais ynddo. A fyddai'r Prif Weinidog yma yn fodlon esbonio i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig na fu'r Deyrnas Unedig erioed yn gyfundrefn unoliaethol ganoledig, ond y bu amrywiaeth erioed a bod amrywiaeth yn bosibl eto?

**Lord Elis-Thomas:** I am entirely supportive of the leadership that the First Minister has shown in this matter, and I think that it is crucial that Wales's voice should be clearly heard, not only because we were a part of the kingdom before Scotland, but because the future of the kingdom is a matter in which every nation in the kingdom should have a say. Would the First Minister be willing to explain to the Prime Minister of the United Kingdom that the United Kingdom has never been a centralised unionist system, but that there have always been variations, and that variety is possible again?

**Y Prif Weinidog:** Rhaid ystyried cyfansoddiad y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod y cyfansoddiad hwnnw o leiaf yn cydnabod bod gan Gymru Gynulliad, bod gan yr Alban Senedd a bod gan Ogledd Iwerddon Gynulliad hefyd. Nid yw'n iawn, yn fy marn i, bod gan Senedd y Deyrnas Unedig y grym i allu cael gwared ar y Cynulliad hwn yr wythnos nesaf heb unrhyw bleidlais gan bobl Cymru. Rhaid inni gael cyfansoddiad sy'n cydnabod na ddylai hynny allu digwydd, hyd yn oed os mai mewn theori yn unig mae hynny.

**The First Minister:** The constitution of the UK has to be considered in order to ensure that that constitution at least recognises that Wales has an Assembly, that Scotland has a Parliament and that Northern Ireland also has an Assembly. It is not right, in my view, that the United Kingdom Parliament has the power to be able to dissolve this Assembly next week, without any vote from the people of Wales. We must have a constitution that recognises that that should not be able to happen, even if only in theory.

**Julie Morgan:** Does the First Minister agree that, instead of a narrow vote on Scottish independence, the referendum that we should all be seeking is one that is held throughout

**Julie Morgan:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai'r refferendwm y dylem i gyd fod yn anelu i'w gynnal, yn hytrach na phleidlais gul ar annibyniaeth yr Alban, yw

the UK on a modern written constitution, suitable for the twenty-first century?

refferendwm a gynhelir ledled y DU ar gyfansoddiad ysgrifenedig modern, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?

**The First Minister:** I think that that is right. We cannot carry on with a constitution that is designed for the nineteenth century. We have to recognise that the constitution must be improved in order, in my mind, to secure the future of the United Kingdom as a whole.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n meddwl bod hynny'n iawn. Ni allwn barhau gyda chyfansoddiad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n rhaid inni gydnabod bod yn rhaid i'r cyfansoddiad gael ei wella, er mwyn sicrhau, yn fy marn i, ddyfodol y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

**Paul Davies:** O ran dyfodol y Deyrnas Unedig, rwyf am weld cydraddoldeb yn ein sefydliadau democrataidd ledled Prydain er mwyn amddiffyn buddiannau a dyfodol y Deyrnas Unedig. Un ffordd o wneud hynny yw gweld system ffederal go iawn yn datblygu yn y dyfodol agos. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â hynny? Os felly, sut y bydd ei Lywodraeth yn datblygu'r agenda hon?

**Paul Davies:** On the future of the United Kingdom, I want to see equality in our democratic institutions across Britain in order to protect the interests and future of the United Kingdom. One way of doing that is to see a real federal system developing in the near future. Does the First Minister agree? If so, how will his Government develop that agenda?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n opsiwn, ond fy marn i yw y dylai'r mater hwn gael ei ystyried gan gonfensiwn cyfansoddiadol er mwyn ystyried pob mater sydd o bwys cyfansoddiadol. Mae'r cwestiwn West Lothian yn un rhan o hynny, ond mae sawl rhan y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig.

**The First Minister:** That is an option, but my opinion is that it should be considered by a constitutional convention so that all issues of constitutional importance could be considered. The West Lothian question is one part of that, but there are other aspects that should be considered in order to secure the future of the United Kingdom.

### Cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

### Hywel Dda Local Health Board's Plans

***4. Simon Thomas:*** *Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynglyn â chynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda. OAQ(4)0399(FM)*

***4. Simon Thomas:*** *What representations has the First Minister received regarding Hywel Dda Health Board's plans. OAQ(4)0399(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth wedi cael nifer o sylwadau.

**The First Minister:** The Government has received a number of representations.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Prif Weinidog am hynny. Bydd y Llywodraeth yn cael 8,500 yn rhagor o sylwadau yfory pan fydd deiseb gan drigolion Llanelli yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Deisebau, yn gofyn am gadw gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Ar hyn o bryd mae'r arwydd y tu allan i'r ysbyty yn dweud a*ccident and emergency*. Mae'r cynllun *scenario planning* gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn dweud yn glir mai *urgent care centre* fydd yn Ysbyty'r

**Simon Thomas:** I thank the First Minister for that. The Government will receive a further 8,500 representations tomorrow, when a petition from the people of Llanelli is presented to the Petitions Committee here asking that services be retained at Prince Philip Hospital. At the moment, the sign outside the hospital says 'accident and emergency'. The scenario planning undertaken by Hywel Dda Local Health Board says clearly that there will be an urgent

Tywysog Philip o hyn ymlaen. A wnewch esbonio i bobl Llanelli y gwahaniaeth rhwng *major emergency department* ac *urgent care centre*? Pa un sydd fwyaf diogel i bobl Llanelli?

care centre at Prince Philip Hospital from now on. Will you explain to the people of Llanelli the difference between a major emergency department and an urgent care centre? Which is the safest option for the people of Llanelli?

**Y Prif Weinidog:** Yn ôl cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, nid oes braidd dim gwahaniaeth i'r gwasanaeth a fydd ar gael i'r cyhoedd. Felly, gall pobl Llanelli gael cysur yn hynny o beth.

**The First Minister:** According to the plans of the Hywel Dda Local Health Board, there is hardly any difference as regards the services that will be available to the public. Therefore, the people of Llanelli can take comfort in that.

**Russell George:** First Minister, as you will appreciate, Powys is unique in that it does not have a district general hospital of its own, and relies heavily on services provided by Hywel Dda Local Health Board, Shrewsbury and Telford Hospital NHS Trust and Robert Jones and Agnes Hunt Orthopaedic Hospital NHS Foundation Trust. Therefore, is it not time that we had a specific, comprehensive and sustainable plan for rural mid Wales, so that, wherever you live in the region, you have access to the best and most appropriate health service?

**Russell George:** Brif Weinidog, fel y byddwch yn cydnabod, mae Powys yn unigryw yn yr ystyr nad oes ganddi ysbyty cyffredinol dosbarth ei hun, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar wasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt. Felly, onid yw'n bryd inni gael cynllun penodol, cynhwysfawr a chynaliadwy ar gyfer cefn gwlad canolbarth Cymru, er mwyn sicrhau, ble bynnag yr ydych yn byw yn y rhanbarth, fod gennych fynediad at y gwasanaeth iechyd gorau a mwyaf priodol?

**The First Minister:** It is quite right to say that in your constituency of Montgomeryshire, people in the east look to hospitals across the border. That is not planned to change. Those living in the west will tend to look at Bronglais, and Bronglais is not changing from being a district general hospital.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n iawn dweud bod pobl yn nwyrain eich etholaeth, sef Sir Drefaldwyn, yn edrych tuag at ysbytai yr ochr arall i'r ffin. Nid oes cynlluniau i newid hynny. Mae'r rhai sy'n byw yn y gorllewin yn tueddu i edrych tuag at ysbyty Bronglais, ac ni fydd Bronglais yn newid o fod yn ysbyty cyffredinol dosbarth.

### Seilwaith Trafnidiaeth

### Transport Infrastructure

***5. Paul Davies:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r seilwaith trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0395(FM)*

***5. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to improve transport infrastructure in west Wales. OAQ(4)0395(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r blaenoriaethau ar gael yng nghynllun trafnidiaeth cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr y llynedd.

**The First Minister:** The priorities are available in the Welsh national transport plan, which was published last December.

**Paul Davies:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog. Rwy'n nodi o'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol bod eich Llywodraeth wedi blaenoriaethu buddsoddi mewn prosiectau trafnidiaeth er mwyn

**Paul Davies:** Thank you for that reply, First Minister. I note from the national transport plan that your Government has prioritised investment in transport projects in order to bring economic and social benefits to that

sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. Rwy'n sylwi nad oes prosiectau yn y gorllewin ar y rhestr hon. A fydd y Llywodraeth yn buddsoddi mewn unrhyw brosiectau yn y gorllewin yn y dyfodol agos, er mwyn sicrhau bod eich cynllun trafnidiaeth wir yn genedlaethol?

area. I note that there are no projects in west Wales on this list. Will the Government invest in any projects in west Wales in the near future, in order to ensure that your transport plan is truly national?

**Y Prif Weinidog:** Mae gwasanaethau newydd wedi dechrau i Abergwaun yn etholaeth yr Aelod. Rydym yn edrych ar ailddyblu'r rheilffordd rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar yr A477 rhwng Sanclêr a Rhos-goch. Felly, dyna dri chynllun sydd wedi dechrau er lles pobl y gorllewin. Dylem hefyd gofio cwblhau'r ffordd newydd sy'n mynd heibio i Robeston Wathen. Mae sawl cynllun wedi digwydd a sawl cynllun ar y gweill.

**The First Minister:** New services have commenced to Fishguard, in the Member's constituency. We are looking at redoubling the line between Gowerton and Loughor. Work has also commenced on the A477 between St Clears and Red Roses. Therefore, there are three projects there that have commenced for the benefit of the people of west Wales. We should also bear in mind the completion of the new road past Robeston Wathen. There have been a number of schemes, and there are a number in the pipeline.

**Keith Davies:** Mae rhai cwmnïau bysiau yn y gorllewin yn cael eu gorfodi i ostwng nifer eu teithiau oherwydd costau. Mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn er mwyn mynd i'w gwaith, siopa am fwyd ac yn y blaen, ac maent yn awr yn wynebu teithiau llawer anoddach. Mae'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd yn broblem i rai pobl sy'n defnyddio ceir fel dull trafnidiaeth. Mae Gweinidog yr wrthblaid dros Gymru yn San Steffan ar George Osborne i ostwng prisiau tanwydd wrth y pwmp. A ydych yn cytuno y byddai gostyngiad o'r fath yn help mawr i'r cyhoedd, yn enwedig yn sgîl yr holl doriadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig?

**Keith Davies:** Some bus companies in west Wales are being forced to reduce the number of journeys because of costs. Many people are dependent on these services for their work, shopping for food and so on, and they now face much more difficult journeys. The increase in fuel charges is a problem for some people who use cars as a mode of transport. The shadow Minister for Wales in Westminster is calling on George Osborne to reduce fuel prices at the pump. Do you agree that this would be of great assistance to the public, especially given all the cuts made by the United Kingdom Government?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cofio pobl yn protestio yn erbyn y trethi ar danwydd a George Osborne yn dweud bod pris tanwydd yn rhy uchel. Yn awr, y cwbl mae'n ei wneud yw sicrhau bod pris tanwydd yn codi unwaith eto. Cawn weld os bydd y Canghellor yn gwrthod cynyddu'r treth ar danwydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n amlwg nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd i dorri pris tanwydd ac nid yw hynny o les i bobl Cymru wledig.

**The First Minister:** I remember people protesting about fuel duties and George Osborne saying that they were too high. Now, of course, they are ensuring that the price of fuel goes up again. We will see if the Chancellor rejects the fuel duty increase at the end of the year. It is clear that the UK Government is not going to cut fuel prices, which will not benefit people in rural Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, a gaf i eich cyfeirio at ddau gynllun sydd wedi eu hystyried ers peth amser yn y de-orllewin, sef y ffordd liniaru i fynd heibio i Rydaman a'r

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, may I refer you to two schemes that have been under consideration for some time in south-west Wales, namely the relief road for

ffordd osgoi i fynd heibio i Landeilo? Mae llawer o waith wedi ei wneud ynglŷn â'r ffaith bod problemau o ran traffig ar y ffyrdd hyn. Maent hefyd yn ffyrdd sydd yn cael eu defnyddio gan gwmnïau cludiant i raddau helaeth. Byddai eu gwella yn sicrhau cysylltiadau llawer gwell o'r gogledd i'r de i lawer o'm hetholwyr a phobl sydd yn teithio drwy fy etholaeth. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog dros drafnidiaeth am ganiatáu i'w swyddogion ddod i siarad gyda mi ynglŷn â'r cynlluniau hyn. A allwch roi ymrwymiad ar ran Llywodraeth Cymru y bydd y ddau gynllun yn cael ystyriaeth ddifrifol gennych ac yn cael blaenoriaeth, gan dderbyn bod cyfyngiadau o ganlyniad i'r toriadau enbyd mewn arian cyfalaf sy'n dod oddi wrth y glymblaid yn San Steffan?

Ammanford and the bypass for Llandeilo? A great deal of work has been done on traffic problems on those roads. They are also roads that are heavily used by haulage companies. Improving the roads would secure much better links between north and south for many of my constituents and those who travel through my constituency. I am grateful to the Minister for transport for allowing his officials to come to talk to me about these schemes. Can you give a commitment on behalf of the Welsh Government that these two schemes will be given serious consideration and priority, accepting that there are restrictions as a result of the huge cuts in capital funding from the coalition in Westminster?

**Y Prif Weinidog:** Bydd y gwaith yn dechrau ar ffordd osgoi Llandeilo yn 2014. Dyna'r nod ar hyn o bryd. O achos y toriadau rydym wedi eu dioddef, nid oes dyddiad eto ar gyfer dechrau'r gwaith ar ffordd liniaru Rhydaman

**The First Minister:** The work will commence on the Llandeilo bypass in 2014. That is the aim at present. As a result of the cuts that we have suffered, we do not yet have a commencement date for the Ammanford relief road.

### Dyletswyddau Cydraddoldeb i Bobl Anabl

### Disability Equality Duty

***6. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. OAQ(4)0398(FM)*

***6. Mark Isherwood:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's implementation of the Disability Equality Duty. OAQ(4)0398(FM)*

**The First Minister:** The duty is now part of wider public sector equality duties. The Disability Discrimination Act 1995 was repealed by the Equality Act 2010. The Welsh-specific equality duties came into force on 6 April 2011.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r ddyletswydd yn awr yn rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb ehangach y sector cyhoeddus. Cafodd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ei diddymu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Daeth y dyletswyddau cydraddoldeb i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011.

**Mark Isherwood:** In previous Assemblies, we have discussed Guide Dogs for the Blind Association research showing problems with shared-surface streets becoming no-go areas for people who are blind and partially sighted. Last month, I joined Guide Dogs Cymru for a walk in blindfolds in Caernarfon, to support its 'Walk a Mile in My Shoes' campaign to highlight these barriers. Fortunately, Gwynedd has taken some action to remedy some of the worst original errors. What action is the Welsh Government now taking to ensure greater design consistency, with input from local

**Mark Isherwood:** Mewn Cynulliadau blaenorol, rydym wedi trafod ymchwil a wnaed gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion sydd wedi dangos bod strydoedd lle y rhennir arwynebau'n creu problemau gan na all pobl ddall a rhannol ddall eu defnyddio. Fis diwethaf, ymunais â chymdeithas Cŵn Tywys Cymru i fynd am dro yng Nghaernarfon a mwgwd dros fy llygaid, er mwyn cefnogi ei hymgyrch 'Cerddwch Filltir yn fy Esgidiau i' i dynnu sylw at y rhwystrau hyn. Yn ffodus, mae Gwynedd wedi cymryd rhai camau i gywiro rhai o'r camgymeriadau gwaethaf a wnaed

disability access groups, so that local authorities, in planning for town-centre developments, ensure that barriers are removed at the design stage, rather than having to be removed afterwards?

yn wreiddiol. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn awr i sicrhau bod mwy o gysondeb yn y dylunio a bod grwpiau mynediad i bobl anabl lleol yn cyfrannu, fel bod awdurdodau lleol, wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer canol trefi, yn sicrhau bod rhwystrau'n cael eu dileu yn ystod y cam dylunio, yn hytrach na bod angen eu dileu wedyn?

**The First Minister:** Ministers are now required to publish a report on compliance with equality duties in respect of all protected characteristics by relevant public authorities every four years. As a progress update, an interim report will be published at two-year intervals. The first Welsh Ministers' report will be published no later than 31 December 2016, with an interim report two years previous to that.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ofynnol bellach i Weinidogion gyhoeddi adroddiad bob pedair blynedd yn nodi a yw awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb mewn perthynas â'r holl nodweddion a ddiogelir. Fel modd o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd. Bydd adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2016 fan bellaf, a bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi ddwy flynedd cyn hynny.

**Lindsay Whittle:** First Minister, in light of our recent debate on the serious problem of disability hate crime, what efforts will the Welsh Government take to ensure that schools and colleges proactively seek to foster a more positive attitude among pupils and college students towards people with disabilities?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, yng ngoleuni ein dadl ddiweddar ar y broblem ddifrifol o droseddau casineb tuag at bobl anabl, ym mha ffyrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod ysgolion a cholegau yn rhagweithiol wrth geisio meithrin agwedd fwy cadarnhaol ymysg disgyblion a myfyrwyr coleg tuag at bobl sydd ag anableddau?

**The First Minister:** We expect schools to actively promote equality, so that children are able to understand the effects of their actions on those who are disabled, and to understand how appalled people are by crimes against disabled people. In the Chamber, we have heard examples of hate crimes in years gone. I would expect schools to ensure that children are fully aware of the need to be aware of, and to report, disability hate crime.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn disgwyl i ysgolion fynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, fel bod plant yn gallu deall yr effeithiau y mae eu gweithredoedd yn eu cael ar bobl sy'n anabl, ac yn deall cymaint y mae pobl yn ffieiddio wrth droseddau yn erbyn pobl anabl. Yn y Siambr, rydym wedi clywed enghreifftiau o droseddau casineb yn y gorffennol. Byddwn yn disgwyl i ysgolion sicrhau bod plant yn llwyr ymwybodol o'r angen i fod yn ymwybodol o droseddau casineb tuag at bobl anabl ac i roi gwybod amdanynt.

### Cefnogaeth i'r Trydydd Sector

### Support for the Third Sector

***7. Keith Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r Trydydd Sector OAQ(4)0403(FM)*

***7. Keith Davies:** Will the First Minister make a statement regarding support for the Third Sector. OAQ(4)0403(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym am gydweithio

**The First Minister:** We want to work in

mewn partneriaeth â'r trydydd sector. Mae gan y sector hwn rôl bwysig o ran sicrhau bod cymunedau'n cael eu datblygu yn y dyfodol, yn enwedig o ran yr economi leol.

partnership with the third sector. The sector has an important role to play in ensuring that communities are developed for the future, particularly with regard to the local economy.

**Keith Davies:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Yng Nghymru, mae gennym draddodiad o gydweithio—traddodiad sy'n mynd yn ddyfnach na pholisïau Llywodraeth San Steffan ar y mater hwn. Mewn sawl achos, mae adeiladau wedi dod yn wag. A fyddech yn cytuno y dylai awdurdodau lleol, mewn achosion priodol, gael cyfrifoldeb pellach i ystyried eu defnydd, at ddibenion cefnogi cymunedau ac asiantaethau lleol? Hynny yw, oni ddylid cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i asiantaethau yn y trydydd sector ddefnyddio'r adeiladau hyn, er enghraifft, os nad ydynt wedi cael eu defnyddio am chwech neu 12 mis?

**Keith Davies:** Thank you for that reply, First Minister. Here in Wales, we have a tradition of collaboration—a tradition that goes deeper than the policies of the Westminster Government on the matter. In a number of cases, buildings have become vacant. Would you agree that local authorities should be given further responsibilities, in appropriate cases, to consider the use of such buildings to support communities and local agencies? That is, should we not increase opportunities for third sector organisations to use these buildings, for example, if they have not been used for six or 12 months?

**Y Prif Weinidog:** Credaf ei bod yn synhwyrol i awdurdodau lleol ystyried ym mha ffordd y gellid defnyddio adeiladau ysgolion sydd bellach wedi cau. Credaf y byddai defnyddio'r adeiladau hyn at ddibenion cymunedau yn un ffordd synhwyrol o'u defnyddio yn y dyfodol.

**The First Minister:** I think that it is sensible for local authorities to consider how to use school buildings where the schools have closed. I think that making community use of those buildings would be one sensible way of utilising them for the future.

**Suzy Davies:** First Minister, in supporting the third sector, the UK Government is expanding the national citizen service to offer 30,000 places to young people in 2012, 60,000 in 2013, and 90,000 in 2014. The Scottish Government is also showing enthusiasm for the idea. What is your Government's objection to establishing a national citizen service here in Wales, engaging our third sector, especially as you have received various consequential moneys from the Office for Civil Society to fund it?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, er mwyn cefnogi'r trydydd sector, mae Llywodraeth y DU yn ehangu'r gwasanaeth dinasyddiaeth cenedlaethol i gynnig lleoedd i 30,000 o bobl ifanc yn 2012, i 60,000 yn 2013, ac i 90,000 yn 2014. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn frwdfrydig dros y syniad. Beth yw gwrthwynebiad eich Llywodraeth i sefydlu gwasanaeth dinasyddiaeth cenedlaethol yma yng Nghymru, gan ymgysylltu â'n trydydd sector, yn enwedig gan eich bod wedi cael symiau canlyniadol amrywiol gan y Swyddfa Cymdeithas Sifil i'w ariannu?

**The First Minister:** We received no consequentials to fund anything from the Government at Westminster. Nevertheless, we already have in place various volunteer schemes that are already delivering volunteering opportunities. Volunteering Wales is one example, and GwirVol is another. They make volunteering accessible and increase the number of volunteers and the quality of volunteering opportunities. Therefore, we do not believe that the national citizen service would add anything to the schemes that are already in place.

**Y Prif Weinidog:** Ni chawsom unrhyw symiau canlyniadol gan y Llywodraeth yn San Steffan i ariannu unrhyw beth. Serch hynny, mae gennym eisoes amryw gynlluniau gwirfoddol ar waith sydd eisoes yn darparu cyfleoedd i wirfoddoli. Mae Gwirfoddoli Cymru yn un enghraifft, ac mae GwirVol yn un arall. Maent yn gwneud gwirfoddoli yn hygyrch, yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr ac yn gwella ansawdd y cyfleoedd gwirfoddoli. Felly, nid ydym yn credu y byddai'r gwasanaeth dinasyddiaeth cenedlaethol yn ychwanegu dim at y cynlluniau sydd eisoes ar waith.

2.00 p.m.

**Bethan Jenkins:** First Minister, I noted last week that Gary Speed's family decided to give the proceeds of the memorial match played in his honour to a charity called the CALMzone, which specifically helps men who are thinking of committing suicide. It does a lot of good work in Liverpool and London. While I recognise that there are organisations in Wales that do very good work, this organisation targets men specifically. Would you be interested in a pilot scheme in Wales, so that we could bring that work into Wales, and recognise the support that Gary Speed's family has given to the charity?

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, nodais yr wythnos diwethaf fod teulu Gary Speed wedi penderfynu rhoi enillion y gêm a chwaraewyd er cof amdano i elusen o'r enw CALMzone, sy'n benodol yn helpu dynion sy'n ystyried cyflawni hunanladdiad. Mae'n gwneud llawer o waith da yn Lerpwl a Llundain. Er fy mod yn cydnabod bod sefydliadau yng Nghymru sy'n gwneud gwaith da iawn, mae'r sefydliad hwn yn targedu dynion yn benodol. A fyddai gennych ddiddordeb mewn cynllun peilot yng Nghymru, fel y gallwn ddod â'r gwaith hwnnw i Gymru, a chydnabod y cymorth mae teulu Gary Speed wedi ei roi i'r elusen?

**The First Minister:** I would certainly be interested in understanding more of the work of CALM, and I would be more than pleased to receive more information about the organisation and the work that it promotes.

**Y Prif Weinidog:** Byddai diddordeb gen i, yn sicr, i ddod i ddeall rhagor am waith CALM, a byddwn yn fwy na bodlon cael rhagor o wybodaeth am y sefydliad a'r gwaith y mae'n ei hyrwyddo.

**Julie Morgan:** Following the publication of the *UK Civil Society Almanac 2012*, which shows how the voluntary sector has been hit by the recession, does the First Minister have any plans for any further support for organisations such as those in the hospice movement? We depend on them so much in Wales, but some 70% of their funding depends on voluntary donations.

**Julie Morgan:** Yn dilyn cyhoeddi *Almanac Cymdeithas Sifil y DU 2012*, sy'n dangos sut y mae'r dirwasgiad wedi effeithio ar y sector gwirfoddol, a oes unrhyw gynlluniau gan y Prif Weinidog i gynnig cymorth pellach i sefydliadau fel y rhai yn y mudiad hosbis? Rydym mor ddibynnol arnynt yng Nghymru, ond mae tua 70% o'u cyllid yn dibynnu ar roddion gwirfoddol.

**The First Minister:** We already provide funding, of course, for various hospices, and we recognise the important work that they do in society. We hope that bequests to hospices will continue at the same level as previously. There is no suggestion yet that that is not

**Y Prif Weinidog:** Rydym eisoes yn darparu cyllid, wrth gwrs, ar gyfer gwahanol hosbisau, ac rydym yn cydnabod y gwaith pwysig y maent yn ei wneud yn y gymdeithas. Rydym yn gobeithio y bydd rhoddion i hosbisau yn parhau ar yr un lefel

happening, but we will monitor the situation in order to ensure that we have an appropriate hospice service.

ag o'r blaen. Nid oes unrhyw awgrym eto nad yw hynny'n digwydd, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth hosbis priodol.

**Cynllun Adfywio Pontypridd**

**Pontypridd Regeneration Scheme**

***8. Mick Antoniw:*** *A oes gan y Prif Weinidog unrhyw gynlluniau i ymweld â Phontypridd er mwyn gweld canlyniadau cynllun adfywio'r dref. OAQ(4)0400(FM)*

***8. Mick Antoniw:*** *Does the First Minister have any plans to visit Pontypridd in order to view the results of the town's regeneration scheme. OAQ(4)0400(FM)*

**The First Minister:** I am aware of the regeneration programme, and I would be pleased to consider any invitation that may come my way to visit.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n ymwybodol o'r rhaglen adfywio, a byddwn yn falch o ystyried unrhyw wahoddiad a gaf i ymweld â'r lle.

**Mick Antoniw:** First Minister, you may be aware that there is a £10.5 million town regeneration programme, but there is also a £4.2 million train station redevelopment, a new precinct worth £6 million, plus a £50 million investment in the former Brown Lenox site. Does the First Minister agree that this form of multi-partner approach to improve town centres taken by Rhondda Cynon Taf County Borough Council provides a tremendous example to other local authorities? Will the First Minister commit to visiting Pontypridd in the near future to see the regeneration?

**Mick Antoniw:** Brif Weinidog, efallai eich bod yn ymwybodol o'r rhaglen gwerth £10.5 miliwn i adfywio'r dref, ond mae hefyd cynllun gwerth £4.2 miliwn i ailddatblygu'r orsaf drên, canolfan newydd gwerth £6 miliwn, yn ogystal o buddsoddiad o £50 miliwn yn hen safle Brown Lenox. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y math hwn o ymagwedd aml-bartner, a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, i wella canol trefi, yn enghraifft wych i awdurdodau lleol eraill? A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i ymweld â Phontypridd yn y dyfodol agos i weld y gwaith adfywio?

**The First Minister:** I would very much enjoy going to Pontypridd to see the regeneration. I remember as a young boy that we used to go to Pontypridd to shop, because its early closing day was different from that everywhere else. It also had John Menzies and Marks and Spencer, which, if you lived in Bridgend, were incredibly exotic. [*Laughter.*] So, I would be more than happy to revisit Pontypridd to examine the good work being done by Rhondda Cynon Taf council in partnership with other organisations.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn mwynhau mynd i Bontypridd i weld y gwaith adfywio yn fawr iawn. Rwy'n cofio mynd i Bontypridd i siopa pan oeddwn yn fachgen ifanc, oherwydd roedd ei ddiwrnod cau'n gynnar yn wahanol i bobman arall. Roedd John Menzies a Marks and Spencer i'w cael yno hefyd, a oedd yn anhygoel o egsotig os oeddech yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr. [*Chwerthin.*] Felly, byddwn yn fwy na pharod i ymweld â Phontypridd eto i weld y gwaith da mae cyngor Rhondda Cynon Taf yn ei wneud mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

**Andrew R.T. Davies:** I, too, remember going to Pontypridd and Angharad's nightclub—but we do not want to reminisce too much. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**Andrew RT Davies:** Rydw i, hefyd, yn cofio mynd i Bontypridd ac i glwb nos Angharad's—ond nid ydym am hel gormod o atgofion. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

First Minister, one of the key factors in regeneration is transport and the ability to provide people with sustainable transport

Brif Weinidog, un o brif ffactorau adfywio yw trafnidiaeth, a'r gallu i ddarparu opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy i bobl. Mae eich

options. Your Government has previously funded schemes in Cardiff under the sustainable towns initiative. Has there been any analysis of the work undertaken here in Cardiff that could be rolled out to other towns and villages in Wales, so that those sustainable transport options are available to help to regenerate town centres?

Llywodraeth wedi ariannu cynlluniau yng Nghaerdydd o dan y fenter trefi cynaliadwy. A fu unrhyw ddadansoddiad o'r gwaith a wnaed yma yng Nghaerdydd y gellid ei gyflwyno mewn trefi a phentrefi eraill yng Nghymru, fel bod yr opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy hynny ar gael i helpu i adfywio canol trefi?

**The First Minister:** First, I must declare that I do not recall seeing the leader of the opposition in Angharad's in years gone by—we were slimmer of waist and thicker of hair, I suppose. Nevertheless, if he does not tell, neither will I. [*Laughter.*]

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi ddatgan nad wyf yn cofio gweld arweinydd yr wrthblaid yn Angharad's yn y blynyddoedd a fu—roeddem yn deneuach bryd hynny ac roedd gennym fwy o wallt, mae'n debyg. Er hynny, os na ddywedith ef, wna i ddim chwaith. [*Chwerthin.*]

In terms of sustainable travel, Cardiff is in a slightly different position. As a big city, its travel needs are different from those of smaller towns. Nevertheless, we would expect to see good practice rolled out across Wales and good examples followed, where appropriate, in other towns.

O ran teithio cynaliadwy, mae Caerdydd mewn sefyllfa ychydig yn wahanol. Fel dinas fawr, mae ei hanghenion teithio yn wahanol i drefi llai. Serch hynny, byddem yn disgwyl gweld arfer da yn cael ei rannu ledled Cymru a bod trefi eraill yn dilyn enghreifftiau da, lle y bo'n briodol.

**Leanne Wood:** I do not remember seeing the leader of the opposition in Angharad's in Pontypridd either. Pontypridd town centre has many small, independent businesses, some of which you may still call exotic, First Minister. They are long established on the high street, and there is no doubt that some of these businesses are very worried about the impact of the recession, as well as the impact of the large supermarket that was referred to earlier, which is being built on the former Brown Lenox site. People fear that their sales will dip, as has been the case for other small businesses in Valleys towns when supermarkets have opened close by.

**Leanne Wood:** Nid wyf yn cofio gweld arweinydd yr wrthblaid yn Angharad's ym Mhontypridd chwaith. Mae gan Bontypridd lawer o fusnesau bach, annibynnol—rhai ohonynt, efallai, y byddech yn dal i'w galw'n egsotig, Brif Weinidog. Maent wedi hen sefydlu ar y stryd fawr, ac nid oes dwywaith bod rhai o'r busnesau hyn yn bryderus iawn am effaith y dirwasgiad, yn ogystal ag effaith yr archfarchnad fawr y cyfeiriwyd ati yn gynharach, sy'n cael ei hadeiladu ar hen safle Brown Lenox. Mae pobl yn ofni y bydd eu gwerthiant yn gostwng, fel sydd wedi digwydd yn achos busnesau bach eraill yn nhrefi'r Cymoedd, pan mae archfarchnadoedd wedi agor gerllaw.

Will you agree to monitor the situation in Pontypridd to see whether there is a detrimental impact on local traders from the supermarket? If it proves to be detrimental, would you consider supporting a supermarket tax, as is being proposed in the north of Ireland, which would perhaps help to create a more level playing field between supermarkets and local businesses, not just in Pontypridd, but throughout the country?

A wnewch chi gytuno i fonitro'r sefyllfa ym Mhontypridd i weld a oes effaith niweidiol ar fasnachwyr lleol oherwydd yr archfarchnad? Os bydd yn niweidiol, a fyddech yn ystyried cefnogi treth archfarchnad, fel sy'n cael ei gynnig yng ngogledd Iwerddon, a fyddai'n helpu i greu mwy o chwarae teg rhwng archfarchnadoedd a busnesau lleol, nid yn unig ym Mhontypridd, ond drwy Gymru gyfan?

**The First Minister:** I do not think that that would work. The problem that high streets

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn meddwl y byddai hynny'n gweithio. Mae'r broblem

face is more complex than that. If people do not have a supermarket on their doorstep they then go to shop in a supermarket somewhere else, rather than coming into a town centre. There was an interesting article in *The Economist* last week that dealt with this issue. It discussed the future of high streets and said that the way for high streets to prosper is for shops to look at, first, stocking items that supermarkets do not stock, secondly, offering services that the supermarkets do not offer, and, thirdly, developing their online provision. That has happened in town centres in some parts of Wales, where shops are doing well, based on that model. However, the difficulty is that if people feel that they cannot shop at a supermarket locally, they tend to shop elsewhere. While everybody condemns the supermarkets, they tend to shop in them, which is part of the problem and is something that causes difficulties for town centres. Therefore, it is about looking inventively at how town centres and businesses can be encouraged, rather than trying to turn back the tide, which has been well established now for 10 or 20 years.

sy'n wynebu'r stryd fawr yn fwy cymhleth na hynny. Os nad oes archfarchnad ar garreg eu drws yna mae pobl yn mynd i siopa mewn archfarchnad yn rhywle arall, yn hytrach na dod i mewn i ganol y dref. Roedd erthygl ddiddorol yn *The Economist* yr wythnos diwethaf a oedd yn ymdrin â'r mater hwn. Roedd yn trafod dyfodol y stryd fawr ac yn dweud mai'r ffordd i'r stryd fawr ffynnu yw i siopau, yn gyntaf, gynnig eitemau nad ydynt ar gael mewn archfarchnadoedd, yn ail, iddynt gynnig gwasanaethau nad yw'r archfarchnadoedd yn eu cynnig ac, yn drydydd, iddynt ddatblygu eu darpariaeth ar-lein. Mae hynny wedi digwydd yng nghanol trefi mewn rhannau o Gymru, lle mae siopau yn gwneud yn dda, yn seiliedig ar y model hwnnw. Fodd bynnag, yr anhawster yw os yw pobl yn teimlo na allant siopa mewn archfarchnad leol, maent yn tueddu i siopa mewn mannau eraill. Er bod pawb yn condemnio archfarchnadoedd, maent yn tueddu i siopa ynddynt, ac mae hynny'n rhan o'r broblem, ac yn rhywbeth sy'n achosi anawsterau i ganol trefi. Felly, mae'n ymwneud ag edrych yn ddyfeisgar ar sut y gellir annog canol trefi a busnesau, yn hytrach na cheisio troi'r llanw sydd wedi hen sefydlu ers 10 neu 20 mlynedd.

**Eluned Parrott:** First Minister, I am going to deny ever having been to Angharad's. When I questioned you about Rhondda Cynon Taf's economic strategy last week, listing the things that were not mentioned by the document, you said to me:

'Very little of the list that the Member produced has anything to do with the council'.

First Minister, can you confirm that you really believe that the town of Pontypridd, car parking, bus services, the A470 and the University of Glamorgan, some of whose students are upstairs in the gallery watching us today, have nothing to do with the economic success of Rhondda Cynon Taf?

**Eluned Parrott:** Brif Weinidog, rwy'n mynd i wadu i mi erioed fod yn Angharad's. Pan holais chi am strategaeth economaidd Rhondda Cynon Taf yr wythnos ddiwethaf, gan restru'r pethau na soniwyd amdanynt yn y ddogfen, fe ddywedasoch:

'Nid oes a wnelo'r rhan fwyaf o'r rhestr honno â'r cyngor'.

Brif Weinidog, a allwch chi gadarnhau eich bod yn gwir gredu nad oes gan dref Pontypridd, meysydd parcio, gwasanaethau bws, yr A470 a Phrifysgol Morgannwg—sydd â rhai o'i myfyrwyr yn yr oriel yn ein gwylio ni heddiw—ddim i'w wneud â llwyddiant economaidd Rhondda Cynon Taf?

**The First Minister:** I do not recall saying anything of the sort last week. It is clear that, as far as Pontypridd's town-centre regeneration is concerned, what we see is a very good local authority leading the regeneration of one of its major towns, which

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cofio dweud dim byd o'r fath yr wythnos ddiwethaf. Lle bo adfywio canol tref Pontypridd yn y cwestiwn, mae'n amlwg mai'r hyn a welwn yw awdurdod lleol da iawn yn arwain y gwaith o adfywio un o'i phrif drefi, ac rwyf

is something that I very much applaud.

yn ei gymeradwyo'n fawr iawn am wneud hynny.

### Gwariant Addysg

### Education Expenditure

***9. Aled Roberts:*** *Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU i alluogi cyhoeddi ffigurau sy'n cymharu gwariant ar addysg rhwng Cymru a Lloegr. OAQ(4)0401(FM)*

***9. Aled Roberts:*** *What discussions have taken place with the UK Government to allow the publication of figures that compare expenditure on education between Wales and England. OAQ(4)0401(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Bu ystadegwyr mewn cysylltiad â'r Adran Addysg ac â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol rhwng Hydref ac Ionawr er mwyn gweld a ellir cynhyrchu data cymharol. Bydd y trafodaethau hynny yn parhau dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf ond penderfyniad y prif ystadegydd yw nad yw'n bosibl i gyhoeddi'r ffigurau hyn ar hyn o bryd.

**The First Minister:** Statisticians were in contact with the Department for Education and Department for Communities and Local Government from October through to January to investigate whether comparative data could be produced. Those discussions will continue over the next weeks and months, but, at the moment, the decision of the chief statistician is that it is not possible to publish these figures at present.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, rwyf yn derbyn bod problemau ynglŷn â nifer yr academïau sy'n cael eu creu yn Lloegr, ond credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cael cyfle i weld pa effaith mae'r gwariant ychwanegol yn ei gael ar ddwy ochr y ffin. Heb y ffigurau hyn, mae'n anodd gweld sut yn union mae'r gwariant ychwanegol hwn yn effeithio ar godi safonau addysg.

**Aled Roberts:** First Minister, I accept that there are problems with regard to the number of academies that are being created in England, but it is important that we have an opportunity to see what impact that additional expenditure has on both sides of the border. Without seeing those figures, it is difficult to see how that additional expenditure will impact on raising educational standards.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r prif ystadegydd yn annibynnol o'r Llywodraeth felly nid penderfyniad Gweinidogion oedd hwn. Ar hyn o bryd, mae'n anodd cymharu Cymru â Lloegr, oherwydd y newidiadau sy'n digwydd yn Lloegr, felly dyna'r penderfyniad a wnaed. Byddwn yn fwy na hyderus i gymharu Cymru â Lloegr o ran addysg bob tro, ond ar hyn o bryd nid yw'n bosibl o ystyried y sefyllfa ariannol a'r strwythur ariannol, sydd yn awr mor wahanol yng Nghymru a Lloegr.

**The First Minister:** The chief statistician is independent of Government, so this was not a decision taken by Ministers. At the moment, it is difficult to compare England and Wales, because of the decisions taking place in England, and so that was the decision taken. I would always be more than confident to compare Wales with England with regard to education, but at the moment it is not possible given the financial situation and the financial structures, which are now so very different in England and Wales.

**Mike Hedges:** Would not such a comparison be unfair? As you know, First Minister, a number of local authorities in Wales, especially Liberal Democrat authorities, such as Swansea, spend substantially less than the allocated education indicator based assessment on education, and take money out of education for other services.

**Mike Hedges:** Oni fyddai cymhariaeth o'r fath yn annheg? Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig awdurdodau Democratiaid Rhyddfrydol, fel Abertawe, yn gwario llawer llai na'r asesiad yn seiliedig ar ddangosydd a ddyrennir ar addysg, ac yn cymryd arian allan o addysg ar gyfer gwasanaethau eraill.

**The First Minister:** We would expect local authorities to spend an appropriate amount of money on education, certainly not below the indicative assessment that they have received.

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol wario swm priodol o arian ar addysg ac, yn sicr, heb fod yn llai na'r asesiad dangosol y maent wedi ei gael.

**Angela Burns:** At a conference in Cardiff this morning for representatives in the primary and secondary school sectors, the issue of the funding gap and monitoring the funding gap between Wales and England was raised by a number of delegates. I wonder whether you could update this Chamber on what steps your Government has taken to resolve this funding gap, because one way that you could do it is by implementing some of the recommendations of the PricewaterhouseCoopers report on the cost of administrating the education system in Wales, which stated that one third of the education budget is spent on red tape and bureaucracy.

**Angela Burns:** Mewn cynhadledd i gynrychiolwyr yn y sectorau ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghaerdydd y bore yma, cafodd y bwlch ariannu rhwng Cymru a Lloegr a'r gwaith o fonitro'r bwlch hwnmw ei godi gan nifer o gynrychiolwyr. Tybed a fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr hon am y camau mae eich Llywodraeth wedi'u cymryd i ddatrys y bwlch ariannu hwn, gan mai un ffordd y gallech wneud hynny fyddai drwy weithredu rhai o argymhellion adroddiad PricewaterhouseCoopers ar y gost o weinyddu'r system addysg yng Nghymru , a oedd yn datgan bod un rhan o dair o'r gyllideb addysg yn cael ei wario ar fiwrocratiaeth.

**The First Minister:** Again, yours is a party that wanted to cut education funding by 20% or 24%—take your pick; it was always changing—and the reality is that that is money that would not be going to schools and education. We are more than happy to publish our statistics, but the reality is that there is such a funding fog now in England that it is difficult to provide comparisons between Wales and England.

**Y Prif Weinidog:** Unwaith eto, eich plaid chi oedd yn awyddus i dorri 20% neu 24%—dewiswch chi; roedd y ffigur bob amser yn newid— oddi ar y gyllideb addysg a'r gwir amdani yw nad arian a fyddai'n mynd i ysgolion ac addysg ydyw. Rydym yn fwy na bodlon cyhoeddi ein ystadegau, ond y gwir amdani yw bod y fath niwl cyllido yn bodoli yn Lloegr ei bod hi'n anodd cymharu Cymru a Lloegr.

**Jenny Rathbone:** What we spend on education is obviously important, but how we spend it is as important, if not more so. We can all think of examples of schools with similar intakes and similar funding levels that have very different outcomes. What is the Welsh Government doing to ensure that we have evidence-based education in Wales, in which approaches that show the biggest impact are identified, shared and scaled up?

**Jenny Rathbone:** Yn amlwg, mae'r arian rydym yn ei wario ar addysg yn bwysig, ond mae'r ffordd yr ydym yn ei wario yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach. Gall pob un ohonom feddwl am enghreifftiau o ysgolion sydd â niferoedd derbyn a lefelau cyllido tebyg, ond sydd â chanlyniadau gwahanol iawn. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gennym addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru, lle caiff y dulliau sy'n dangos yr effaith fwyaf eu nodi, eu rhannu a'u ehangu?

**The First Minister:** It is intriguing to hear the Conservatives opposite claim week after week in this Chamber that performance on health is entirely dependent on funding, but apparently that is not true of education. There is a contradiction in the positions that they take. In terms of our education policies, we adopt an evidence-based approach in order to

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ddiddorol clywed y Ceidwadwyr sydd gyferbyn yn hawlio, y naill wythnos ar ôl y llall yn y Siambr hon, fod perfformiad ym maes iechyd yn gwbl ddibynnol ar gyllid, ond nad yw'r un peth yn wir ym maes addysg. Maeanghysondeb yn eu safbwyntiau. O ran ein polisïau addysg, byddwn yn mabwysiadu ymagwedd sy'n

maximise the impact of our investments, and that will not change.

seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwneud y mwyaf o effaith ein buddsoddiadau, ac ni fydd hynny'n newid.

**Gwasanaethau Cyhoeddus yn Aberafan**

**Public Services in Aberavon**

***10. David Rees:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod gwasanaethau cyhoeddus yn Aberafan. OAQ(4)0393(FM)*

***10. David Rees:*** *What action is the Welsh Government taking to protect public services in Aberavon. OAQ(4)0393(FM)*

**The First Minister:** We are providing clear and unambiguous direction on public service reform for the whole of Wales. The Simpson compact sets out the framework for reform, which will improve performance, efficiency and outcomes.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn darparu cyfeiriad clir a diamwys ar ddiwygio gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan. Mae compact Simpson yn pennu'r fframwaith ar gyfer diwygio, a fydd yn gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chanlyniadau.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. The Mid and West Wales Fire Authority is introducing smaller rural response vehicles across the region to ensure that it has sufficient vehicles to access narrow roads and attend rural incidents. That is to be applauded, but instead of these being additional resources for the service, they are being brought in as replacements for the existing type B tenders, and I am informed by firefighters that that will reduce the overall capacity at fire stations such as that at Port Talbot in my constituency. What discussions has the Welsh Government had with the fire authorities to ensure that their proposals, including those for managing their budgets in these tough times, will continue to deliver a high-quality, safe service to the public?

**David Rees:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyflwyno cerbydau ymateb llai yn ardaloedd gwledig y rhanbarth er mwyn sicrhau fod ganddo ddigon o gerbydau i deithio ar hyd ffyrdd cul ac i ymateb i ddigwyddiadau yng nghefn gwlad. Mae hynny i'w ganmol, ond yn hytrach na bod yr adnoddau hyn yn ychwanegol i'r gwasanaeth, maent yn cael eu defnyddio yn lle'r tendrau math B presennol, ac mae diffoddwyr tân wedi fy hysbysu y bydd hynny'n lleihau gallu gorsafoedd tân, fel ym Mhort Talbot yn fy etholaeth. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r awdurdodau tân i sicrhau y bydd eu cynigion, gan gynnwys y rhai ar gyfer rheoli eu cyllidebau yn y cyfnod anodd hwn, yn parhau i ddarparu gwasanaeth diogel, o safon uchel, i'r cyhoedd?

**The First Minister:** While decisions around the allocation of resources are a matter for fire and rescue authorities, central guidance does require them to plan their services on the basis of reducing risk. We have consulted on a new fire and rescue national framework that will be introduced from April of next year, and that highlights the need to ensure that service levels meet local needs and also strive for improvements.

**Y Prif Weinidog:** Er mai mater i'r awdurdodau tân ac achub yw gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau, mae canllawiau canolog yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynllunio eu gwasanaethau ar y sail lleihau risg. Rydym wedi cynnal ymgynghoriad ar fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub a fydd yn cael ei gyflwyno fis Ebrill y flwyddyn nesaf, ac mae'n tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn diwallu anghenion lleol a bydd hefyd yn ymdrechu i sicrhau gwelliannau.

**Byron Davies:** Is it not the case that one of

**Byron Davies:** Onid yw'n wir mai un o'r

the most effective ways to protect front-line public services in Wales would have been to pass on the £38.9 million of consequential funding to Welsh councils, which would allow them to prioritise public services and offer them an opportunity to provide a council tax freeze? Will you look again at this issue?

ffyrdd mwyaf effeithiol o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen yng Nghymru fyddai drwy drosglwyddo'r £38.9 miliwn o gyllid canlyniadol i gynghorau Cymru. Byddai hyn yn eu galluogi i flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus a chynnig cyfle iddynt rewi'r dreth gyngor? A wnewch chi edrych eto ar y mater hwn?

**The First Minister:** There are local authorities that are freezing council tax anyway; the Labour authority in Bridgend is doing just that. If authorities where your party is in control cannot manage that, then that is up to you. I will explain to the Member another way that public services can be protected, and that is through proper police funding. As a result of cuts being imposed by his party we will lose police officers and police stations. We oppose that tooth and nail because, unlike the party opposite, we are not soft on crime.

**Y Prif Weinidog:** Mae rhai awdurdodau lleol yn rhewi'r dreth gyngor beth bynnag; mae'r awdurdod Lafur ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwneud hynny. Os na all awdurdodau y mae eich plaid chi'n eu rheoli wneud hynny, yna rhyngoch chi a'ch pethau. Esboniaf i'r Aelod ffordd arall o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, a hynny drwy roi cyllid priodol i'r heddlu. O ganlyniad i doriadau ei blaid ef, byddwn yn colli swyddogion heddlu a gorsafoedd heddlu. Rydym yn gwrthwynebu hynny'n chwyrn oherwydd, yn wahanol i'r blaid gyferbyn, nid ydym ni'n trin troseddu'n ysgafn.

**Bethan Jenkins:** At the moment, there is considerable concern in Aberavon about the future of the Afan Lido, with a meeting in the Four Winds Hotel last week that was attended by about 300 people. Clearly there is dissatisfaction with how the council there is running this particular public service in terms of the replacement for the previous leisure centre, and one of the major concerns is the impact on fitness levels in the area. What discussions will you have with the local council with regard to this most important issue?

**Bethan Jenkins:** Ar hyn o bryd, mae cryn bryder yn Aberafan am ddyfodol Afan Lido, ac aeth tua 300 o bobl i gyfarfod a gynhaliwyd yng ngwesty'r Four Winds yr wythnos diwethaf. Mae'n amlwg bod anfodlonrwydd ynghylch sut mae'r cyngor yn rhedeg y gwasanaeth cyhoeddus hwn, yn lle'r ganolfan hamdden flaenorol, ac un o'r prif bryderon yw'r effaith ar lefelau ffitrwydd yn yr ardal. Pa drafodaethau a fyddwch chi'n eu cael gyda'r cyngor lleol mewn perthynas â'r mater pwysig hwn?

**The First Minister:** That is, of course, a matter for the local authority and it is for the local authority to address it.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny, wrth gwrs, yn fater i'r awdurdod lleol a nhw ddylai roi sylw iddo.

### *Economi Cymru*

### The Welsh Economy

***11. Angela Burns:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau economi Cymru. OAQ(4)0392(FM)*

***11. Angela Burns:*** *Will the First Minister outline the steps the Welsh Government is taking to strengthen the Welsh economy. OAQ(4)0392(FM)*

**The First Minister:** Our priorities are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Angela Burns:** Thank you for that illuminating answer. My colleague William Graham has pointed out on a number of

**Angela Burns:** Diolch ichi am yr ateb dadlennol hwnnw. Mae fy nghydweithiwr, William Graham, wedi nodi droeon, bod

occasions that there has been continued criticism of successive Assembly Governments' performance on economic development. Academics and businesspeople have highlighted a focus on bureaucracy rather than delivery. You have acknowledged that not enough has been done to prioritise delivery and you have set up the delivery unit. Would you please give us an update on how far that is going, whether it has met its goals and whether it is monitoring delivery over bureaucracy at long last?

perfformiad Llywodraethau Cynulliad olynol ym maesdatblygu economaidd wedi'i feirniadu'n barhaus. Mae academyddion a phobl fusnes wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod yn canolbwyntio ar fiwrocratiaeth yn hytrach na chyflawni. Rydych wedi cydnabod nad oes digon wedi cael ei wneud i roi blaenoriaeth i gyflawni ac rydych wedi sefydlu uned gyflawni. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r uned honno'n datblygu, a yw wedi cyrraedd ei nodau ac a yw'n monitro cyflawniad dros fiwrocratiaeth o'r diwedd?

**The First Minister:** The delivery unit is going very well indeed in performing its role of ensuring that the Government's manifesto is taken forward.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r uned gyflawni'n mynd rhagddi'n dda iawn wrth ymgymryd â'i waith o sicrhau bod maniffesto'r Llywodraeth yn cael ei hyrwyddo.

**Kenneth Skates:** Two very important projects are being planned in my constituency that could secure hundreds of jobs. The First Milk Cheese Company, which owns the Maelor creamery in Marchwiel, is planning a £13.5 redevelopment at its Cross Lanes cheese packaging site, a move that could help safeguard 220 skilled jobs in Clwyd South. Secondly, Dobson and Crowther is moving to a new purpose-built site, which could secure more than 100 valuable skilled jobs. First Minister, these are two very important ventures for the area, therefore, will the Welsh Government do all that it can to work with the local authority to help secure these projects and to ensure that north-east Wales continues to be an attractive place for companies to come to?

**Kenneth Skates:** Mae dau brosiect pwysig iawn ar y gweill yn fy etholaeth a allai ddiogelu cannoedd o swyddi. Mae cwmni caws First Milk, sy'n berchen ar hufenfa Maelor ym Marchwiel, yn cynllunio ailddatblygiad gwerth £13.5 miliwn yn ei safle pacio caws yn Cross Lanes, cynllun a allai ddiogelu 220 o swyddi crefftus yn ne Clwyd. Yn ail, mae Dobson a Crowther yn symud i safle newydd pwrpasol, a allai sicrhau mwy na 100 o swyddi medrus gwerthfawr. Brif Weinidog, mae'r rhain yn ddwy fenter bwysig iawn i'r ardal; felly, a fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i weithio gyda'r awdurdod lleol i helpu i sicrhau'r prosiectau hyn ac i sicrhau bod y gogledd-ddwyrain yn parhau i fod yn atyniadol i gwmnïau?

2.15 p.m.

**The First Minister:** Yes, absolutely. We have made it clear as a Government that we want to assist economic recovery in Wales. We want Wales to be an excellent place to do business, and that applies to the north-east as it does to the rest of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Bydd, yn sicr. Rydym wedi ei gwneud yn glir fel Llywodraeth ein bod yn dymuno cynorthwyo i adfer economi Cymru. Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i wneud busnes, ac mae hynny'n berthnasol i'r gogledd-ddwyrain fel y mae i weddill Cymru.

**Alun Ffred Jones:** Cwyn barhaus gan fusnesau yw'r rhwydwaith band eang diffygiol ar hyd a lled Cymru. Pryd fydd y gwaith o uwchraddio rhwydwaith Cymru yn dechrau?

**Alun Ffred Jones:** A continual complaint from businesses is the deficient broadband network throughout Wales. When will the work to upgrade the network in Wales commence?

**Y Prif Weinidog:** Rydym eisiau cwblhau'r

**The First Minister:** We want to complete

gwaith hwn erbyn 2015.

this work by 2015.

**Blaenoriaethau Gwariant**

**Spending Priorities**

***12. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0396(FM)*

***12. Andrew R.T. Davies:*** *Will the First Minister make a statement on Welsh Government spending priorities for the South Wales Central region. OAQ(4)0396(FM)*

**The First Minister:** Our spending priorities are to be found in our budget, which was approved by the Assembly in December.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau gwario i'w cael yn ein cyllideb, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr.

**Andrew R.T. Davies:** South Wales Central and, in particular, the Vale of Glamorgan hosts two valuable and worthwhile hospices, Tŷ Hafan and Holme Tower. One of the issues that creep in is that when someone hits the age of 18, they are deemed to be an adult. I appreciate that some of this concerns legal interpretation, but quite a bit of it is also about resources. Could the First Minister give a commitment that his Government will look at supporting the hospice movement to allow facilities to exist in hospices that will support families and individuals who find themselves in that difficult transition stage from childhood to adulthood? It is an anomaly that all parties would agree needs addressing.

**Andrew R.T. Davies:** Yng Nghanol De Cymru, ac ym Mro Morgannwg yn benodol, mae dwy hosbis werthfawr a gwerth chweil, sef Tŷ Hafan a Holme Tower. Un o'r materion sy'n dod i'r amlwg yw bod rhywun yn cael eu barnu'n oedolyn pan fyddant yn troi'n 18 oed. Rwy'n sylweddoli bod rhywfaint o hyn yn ymwneud â dehongliad cyfreithiol, ond mae cryn dipyn ohono hefyd yn ymwneud ag adnoddau. A allai'r Prif Weinidog roi ymrwymiad y bydd ei Lywodraeth yn ystyried cefnogi'r mudiad hosbisau fel bod cyfleusterau mewn hosbisau a fydd o gymorth i deuluoedd ac unigolion sy'n eu cael eu hunain yn y cyfnod pontio anodd rhwng bod yn blentyn ac yn oedolyn? Mae'n anghysondeb y byddai pob plaid yn cytuno bod angen mynd i'r afael ag ef.

**The First Minister:** We will always look to see whether we can assist those who are making the transition in life from being children, to being young people then adults. If there are situations where that is not happening, we will certainly want to examine those to see what can be done.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn ystyried a allwn gynorthwyo'r rhai sy'n mynd drwy'r cyfnod pontio mewn bywyd o fod yn blant, yn bobl ifanc, ac yna'n oedolion. Os oes sefyllfaoedd lle nad yw hynny'n digwydd, byddwn yn sicr am archwilio'r sefyllfaoedd hynny i weld beth y gellir ei wneud.

**Leanne Wood:** Over the past couple of years, I have done a lot of work with the food bank network, which provides emergency food for people in crisis, and you may be aware that demand is rising fast. That trend runs counter to the Welsh Government's stated aim of wanting to eradicate child poverty. Are you aware that increasing numbers of people are unable to afford the basics in life and is that something that you are monitoring? Could you please tell the Senedd what the Welsh Government is doing

**Leanne Wood:** Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gwneud llawer o waith gyda'r rhwydwaith banciau bwyd, sy'n darparu bwyd i bobl mewn argyfwng, ac efallai y byddwch yn gwybod bod y galw yn cynyddu'n gyflym. Mae'r duedd honno yn mynd yn groes i'r nod y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddatgan o ddileu tlodi plant. A ydych yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer gynyddol o bobl nad ydynt yn gallu fforddio'r pethau sylfaenol mewn bywyd, ac a fyddwch yn monitro hynny? A fyddech

to ensure that people are able to afford to eat?

cystal â dweud wrth y Senedd beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn gallu fforddio bwyta?

**The First Minister:** I am aware of the economic difficulties that people face. What worries me particularly is what will happen when the welfare reform kicks in, and what will happen after 6 April when so many hard-working, but not particularly well-paid families, will be hammered as they lose their tax credits. That is a time bomb that is waiting to explode in April to the chagrin of the UK Government. We are very much aware of the need to tackle poverty, which is why we are taking forward our tackling poverty action plan.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n ymwybodol o'r anawsterau economaidd sy'n wynebu pobl. Yr hyn sy'n fy mhryderu yn arbennig yw beth fydd yn digwydd pan fydd y diwygiadau i les yn cychwyn, ac ar ôl 6 Ebrill pan fydd cymaint o deuluoedd gweithgar, ond nad ydynt yn cael eu talu'n arbennig o dda, yn cael eu llorio wrth iddynt golli eu credydau treth. Mae hynny'n fom sy'n aros i ffrwydro ym mis Ebrill, er gofid i Lywodraeth y DU. Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i fynd i'r afael â thlodi, a dyna pam rydym yn datblygu ein cynllun gweithredu i ymdrin â thlodi.

**Prosiectau Cyfalaf**

**Capital Projects**

***13. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau cyfalaf Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0404(FM)*

***13. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's capital projects. OAQ(4)0404(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi symud sawl prosiect cyfalaf yn eu blaen, a mae £97 miliwn wedi cael ei ddodi i mewn i'r gyllideb gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**The First Minister:** We have progressed with a number of capital projects, and £97 million has been put into the capital budget during this financial year.

**Alun Ffred Jones:** Yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i gomisiwn Silk, cyfeiriasoch at yr angen i gael rhaglen fuddsoddi o £3 biliwn yn ychwanegol. Sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu creu'r biliynau hyn?

**Alun Ffred Jones:** In the Welsh Government's evidence to the Silk commission, you referred to the need for an investment programme of an additional £3 billion. How does the Welsh Government intend to create these billions?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn bwriadu gwneud hynny trwy greu ffynhonnell refeniw—trwy pont Hafren, y dreth ar dirlenwi, y dreth stamp a'r dreth ar hedfan—er mwyn sicrhau bod mwy na £250 miliwn yn dod mewn i'r Llywodraeth drwy drethi yn flynyddol, a fydd yn ein galluogi i fenthyg, gan gofio bydd y ffynhonnell honno o incwm gennym.

**The First Minister:** We intend doing so by creating a revenue stream—through the Severn bridge, the landfill tax, stamp duty and duties on flights—in order to ensure that more than £250 million comes in to Government through taxation annually, which will ensure that we will be able to borrow, bearing in mind that we will have that source of income.

**Mohammad Asghar:** The introduction of an hourly rail service between Ebbw Vale and Newport would relieve pressure on the M4 and provide sustainable access to Newport and new employment opportunities in Newport. Such a service would support the required capital expenditure to improve the

**Mohammad Asghar:** Byddai cyflwyno gwasanaeth trên bob awr rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd yn lleihau'r pwysau ar yr M4 ac yn darparu mynediad cynaliadwy i Gasnewydd a chyfleoedd cyflogaeth newydd yng Nghasnewydd. Byddai gwasanaeth o'r fath yn cefnogi'r gwariant cyfalaf

line, for example, by constructing a second passing loop. Will the First Minister give an update on the Welsh Government's commitment to deliver a rail service between Ebbw Vale and Newport, as contained in the national transport plan?

angenrheidiol i wella'r lein, er enghraifft drwy adeiladu ail ddolen basio. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth rheilffordd rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd, fel y nodir yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol?

**The First Minister:** It is something that we are considering. However, we must bear in mind that the budget for rail infrastructure is not devolved. It is an England and Wales budget, which is why we are reliant on the UK Government to deliver for us on full Valleys lines electrification.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gofio nad yw'r gyllideb ar gyfer seilwaith y rheilffyrdd wedi'i datganoli. Mae'n gyllideb ar gyfer Cymru a Lloegr, a dyna pam rydym yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i gyflawni ar ein cyfer o ran trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llwyr.

**Rhwydwaith Trafnidiaeth Cymru**

**The Welsh Transport Network**

***14. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth Cymru. OAQ(4)0405(FM)*

***14. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the First Minister outline his priorities for the Welsh transport network. OAQ(4)0405(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Na. Maen nhw ar gael yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**The First Minister:** No. They are set out in the national transport plan.

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Prif Weinidog yn barod i gydnabod bod trafnidiaeth gymunedol yn bwysig iawn o ran sicrhau rhwydwaith mewn nifer o ardaloedd gwledig yn fy etholaeth i ac etholaethau Aelodau eraill yn y Siambr? Yn wreiddiol, penderfynodd y Gweinidog trafnidiaeth i ddod â'r cynllun ar gyfer taliadau gostyngedig ar gyfer trafnidiaeth gymunedol i ben. Newidiodd ei feddwl yn dilyn pwysau gwleidyddol gennyf i a phobl eraill. Mae'n ail-ystyried ei benderfyniad nawr. A fu unrhyw astudiaeth arall, heblaw astudiaeth Capita Symonds yn 2008, a arweiniodd at y cyn-Weinidog trafnidiaeth yn penderfynu ymestyn y cynllun hwnnw am dair blynedd?

**Rhodri Glyn Thomas:** Is the First Minister willing to admit that community transport is very important in order to safeguard networks in many rural areas of my constituency and those of other Members in the Chamber? Originally, the Minister for transport decided to end the scheme for reduced payments for community transport. He changed his mind as a result of political pressure applied by me and other people. He is now reconsidering his decision. Was any other study undertaken, apart from the Capita Symonds study in 2008, which led to the former Minister for transport's decision to extend that scheme for three years?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog wastad yn ystyried ffyrdd o sicrhau dyfodol trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru ar bob adeg. Rydym wedi edrych ar ffyrdd i estyn y gwasanaeth Bwcabus, sydd wedi bod mor llwyddiannus mewn sawl rhan o sir Gâr.

**The First Minister:** The Minister is always considering ways of safeguarding the future of community transport in Wales. We have looked at ways of extending the Bwcabus service that has been so successful in several areas of Carmarthenshire.

**Byron Davies:** First Minister, given your Government's newly found interest in the M4 in terms of enhancing our transport network, will you outline why little mention of it is

**Byron Davies:** Brif Weinidog, o ystyried diddordeb newydd eich Llywodraeth yn yr M4 o ran gwella ein rhwydwaith trafnidiaeth, a wnewch chi amlinellu pam nad oes fawr

made in your national transport plan, and why your Government sees the Welsh media as the proper channel for announcements and not the Chamber?

ddim sôn amdano yn eich cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a pham y mae eich Llywodraeth yn ystyried mai cyfryngau Cymru yw'r sianel briodol ar gyfer gwneud cyhoeddiadau ac nid y Siambr?

**The First Minister:** Leaving aside the principle of the M4 relief road, it could never be built unless we are able to borrow; it is as simple as that. Unless we have the same borrowing powers as Scotland and Northern Ireland, it could never be built. That is why we look forward to the time when the Chief Secretary to the Treasury will finish his slouching and ensure that he delivers borrowing powers for the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gan roi egwyddor ffordd liniaru'r M4 i'r neilltu, ni fydd byth modd ei hadeiladu oni bai ein bod yn gallu benthyca; mae mor syml â hynny. Oni bai bod gennym yr un pwerau benthyca ag sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni fydd byth modd ei hadeiladu. Dyna pam rydym yn edrych ymlaen at yr amser pan fydd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gorffen eistedd yn llipa ac yn sicrhau ei fod yn darparu pwerau benthyca ar gyfer pobl Cymru.

### Adnoddau Naturiol

### Natural Resources

***15. Leanne Wood:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch adnoddau naturiol Cymru. OAQ(4)0406(FM)*

***15. Leanne Wood:*** *What discussions has the First Minister had recently with the UK Government on the natural resources of Wales. OAQ(4)0406(FM)*

**The First Minister:** I attended the joint ministerial committee last month, where I repeated my call for the people of Wales to control renewable energy projects up to 100 MW.

**Y Prif Weinidog:** Bûm yn y cyd-bwyllgor gweinidogol fis diwethaf, lle yr ailadroddais fy ngalwad am i bobl Cymru allu rheoli prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW.

**Leanne Wood:** First Minister, thank you for clarifying that. Can you confirm that you only asked for energy projects up to 100 MW and that you did not ask for anything more? If you can confirm that, can you explain why your ambitions for Wales are so limited?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, diolch am egluro hynny. A allwch chi gadarnhau eich bod wedi gofyn am brosiectau ynni hyd at 100 MW yn unig ac na wnaethoch ofyn am unrhyw beth mwy? Os gallwch gadarnhau hynny, a allwch egluro pam y mae eich uchelgeisiau ar gyfer Cymru mor gyfyng?

**The First Minister:** In terms of renewable energy, we have the greatest potential in projects up to 100 MW. I suspect that that question was based on nuclear—

**Y Prif Weinidog:** O ran ynni adnewyddadwy, mae gennym y potensial mwyaf mewn prosiectau hyd at 100 MW. Rwy'n amau bod y cwestiwn yn seiliedig ar ynni niwclear—

**Leanne Wood:** No, not at all. It is nothing to do—

**Leanne Wood:** Nac oedd, dim o gwbl. Nid oes a wnelo ddim—

**The First Minister:** We fully support Wylfa B as a development for the people of Anglesey; I do not know whether Plaid Cymru does or not. We certainly want to ensure that, when it comes to renewable energy, the people of Wales have proper control over their resources.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn llwyr gefnogi Wylfa B fel datblygiad ar gyfer pobl Ynys Môn; nid wyf yn gwybod a yw Plaid Cymru yn ei gefnogi ai peidio. Rydym yn sicr am sicrhau bod gan bobl Cymru, pan ddaw'n fater o ynni adnewyddadwy, y reolaeth orau ar eu hadnoddau.

**William Graham:** First Minister, you will be aware that Welsh Water has withdrawn rather suddenly from the public inquiry into fracking in the Vale of Glamorgan. That is a matter of concern to all with regard to the water table. I ask you to speak to your colleague, the Minister for Environment and Sustainable Development, and to come up with a proper statement regarding the water table and fracking in general.

**William Graham:** Weinidog, byddwch yn gwybod bod Dŵr Cymru wedi tynnu'n ôl yn eithaf sydyn o'r ymchwiliad cyhoeddus i ffracio ym Mro Morgannwg. Mae hynny'n destun pryder i bawb o ran y lefel trwythiad. Gofynnaf ichi siarad â'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, a chyflwyno datganiad priodol ar y lefel trwythiad a ffracio yn gyffredinol.

**The First Minister:** Those matters are primarily for the Westminster Government, but I can assure Members that the approach that we would take to fracking would be one based on the precautionary principle.

**Y Prif Weinidog:** Materion i Lywodraeth San Steffan yw'r rheini'n bennaf, ond gallaf sicrhau Aelodau y byddai'r dull y byddem yn ei fabwysiadu mewn perthynas â ffracio wedi'i seilio ar yr egwyddor ragofal.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** There are no changes to report to this week's planned business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r busnes a drefnwyd ar gyfer yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**William Graham:** Thank you for your statement. I ask you for a statement on the consultation on the M4 relief road. The proposals announced today on entering into a consultation that will run until the end of June are widely valued. Could a statement be made, not only at the end of that time, but, as soon as possible? One of the proposals that has now received some publicity is a highly complex scheme involving the demolition of 17 bridges, a railway bridge, and 200 or 300 houses, which will cause interruption over a period lasting well in excess of 10 years. This is obviously of great concern. I ask the Minister to give a commitment that a statement will be issued at the earliest possible opportunity.

**William Graham:** Diolch ichi am eich datganiad. Gofynnaf ichi am ddatganiad ar yr ymgynghoriad ar ffordd liniaru'r M4. Mae'r cynigion a gyhoeddwyd heddiw ynghylch dechrau ymgynghoriad a fydd yn parhau tan ddiwedd mis Mehefin yn cael eu gwerthfawrogi'n eang. A ellid gwneud datganiad nid yn unig ar ddiwedd y cyfnod hwnnw ond cyn gynted ag y bo modd? Mae un o'r cynigion sydd bellach wedi cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd yn gynllun hynod gymhleth sy'n cynnwys dymchwel 17 o bontydd, pont reilffordd, a 200 neu 300 o dai, a bydd yn tarfu am gyfnod sy'n para'n llawer hwy na 10 mlynedd. Mae hyn yn amlwg yn destun pryder mawr. Gofynnaf i'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

**Jane Hutt:** I thank the Member for that question. Clearly, it is a consultation that has been launched by the Minister for Local Government and Communities who has responsibility for transport. The consultation

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Yn amlwg, mae'n ymgynghoriad a lansiwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, sy'n gyfrifol am drafnidiaeth. Mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar

is based on options and is widely welcomed by business, local authorities and the community.

ddewisiadau ac fe'i croesewir yn eang gan fusnes, awdurdodau lleol a'r gymuned.

**Bethan Jenkins:** Minister, could we have a debate on protecting nature reserves? I ask for this debate because, in Neath, we have a problem with determining who is responsible for the safety of a certain dam. Could we have a national debate due to the fact that this local issue has expanded into an issue that is causing concern nationally?

**Bethan Jenkins:** Weinidog, a allem gael dadl ar ddiogelu gwarchodfeydd natur? Rwy'n gofyn am y ddadl hon oherwydd bod gennym broblem yng Nghastell-nedd o ran penderfynu pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch argae penodol. A allem gael trafodaeth genedlaethol gan fod y mater lleol hwn wedi ehangu i fod yn fater sy'n achosi pryder yn genedlaethol?

**Jane Hutt:** The Minister for Environment and Sustainable Development will want to take an interest in any issue that has national consequences in terms of its impact on nature reserves. I am sure that he has heard your question this afternoon, Bethan Jenkins, and it would be helpful if you would write to him on this matter.

**Jane Hutt:** Bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy am gymryd diddordeb mewn unrhyw fater y mae goblygiadau cenedlaethol iddo o ran ei effaith ar warchodfeydd natur. Rwyf yn siŵr ei fod wedi clywed eich cwestiwn y prynhawn yma, Bethan Jenkins, a byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ysgrifennu ato ar y mater hwn.

**Suzy Davies:** Minister, in last week's Welsh Conservatives' debate on wheelchair provision, I invited the Minister for Health and Social Services to consider direct payments to individuals who needed wheelchairs, with a view to reducing waiting lists. The Minister for health did not mention direct payments in her response to contributors. Would it therefore be possible for her to make a statement outlining the consideration that she has given to the idea of direct payments being given to individuals and whether they will be playing a role in future policy?

**Suzy Davies:** Weinidog, yn nadl Ceidwadwyr Cymru yr wythnos diwethaf ar ddarparu cadeiriau olwyn, gwahoddais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried taliadau uniongyrchol i unigolion y mae angen cadeiriau olwyn arnynt, gyda golwg ar leihau rhestrau aros. Ni wnaeth y Gweinidog iechyd sôn am daliadau uniongyrchol yn ei hymateb i gyfranwyr. Felly, a fyddai'n bosibl iddi wneud datganiad sy'n amlinellu i ba raddau y mae wedi ystyried y syniad o roi taliadau uniongyrchol i unigolion a ph'un a fyddant yn chwarae rhan yn y polisi yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** The Minister for Health and Social Services responded very positively to the debate on wheelchair services, and she was able to provide an update on progress. Any item, such as the possible use of direct payments, that came forward as a result of that debate will be considered by her as she responds to the issue as a whole.

**Jane Hutt:** Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gadarnhaol iawn i'r ddadl ar wasanaethau cadeiriau olwyn, ac roedd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Bydd unrhyw eitem a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r ddadl honno, fel y defnydd posibl o daliadau uniongyrchol, yn cael ei hystyried ganddi wrth iddi ymateb i'r mater yn ei gyfanrwydd.

**Llyr Huws Gruffydd:** Dywedoch yr wythnos diwethaf eich bod yn rhagweld y bydd cyhoeddiad ar y cynllun i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yn gynnar ym mis Mawrth. Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yr wythnos diwethaf y byddai cyhoeddiad i'r

**Llyr Huws Gruffydd:** You said last week that you anticipated that an announcement on the plan to tackle bovine TB would be made early in March. The Minister for Environment and Sustainable Development said last week that there would be an announcement in the Chamber during March.

Siambr yn ystod mis Mawrth. Gwelaf fod y rhagolwg busnes am weddill y mis wedi ei gyhoeddi ac nid oes eitem benodol ynglŷn â'r cyhoeddiad rydym i gyd yn ei ddisgwyl. O ran cwrteisi, efallai, a fyddech yn barod i ddweud wrthym faint o ragrybudd rydych yn rhagweld y byddwch yn rhoi cyn bod cyhoeddiad yn cael ei wneud?

I see that the business statement for the remainder of the month has been published but there is no specific item about the announcement that we are all expecting. As a courtesy, perhaps, would you be prepared to tell us how much notice you anticipate that you will give before that announcement is made?

**Jane Hutt:** I can assure the Member for North Wales that the Minister does intend to make a statement this month. This will come before the Business Committee in due course.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau'r Aelod dros Ogledd Cymru bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud datganiad y mis hwn. Bydd hyn yn dod gerbron y Pwyllgor Busnes maes o law.

**Darren Millar:** Minister, could we have a statement from the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes on food labelling? Many people have demonstrated many times that, given the choice, they prefer to buy locally rather than from other places. One of the barriers to people buying locally is that, unfortunately, labelling can sometimes be unclear, confusing, or downright misleading. What work is the Welsh Government undertaking with supermarkets and restaurants in particular to ensure that, when something is labelled as Welsh, it is Welsh?

**Darren Millar:** Weinidog, a allem gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar labelu bwyd? Mae llawer o bobl wedi dangos droeon ei bod yn well ganddynt brynu'n lleol yn hytrach nag o leoedd eraill, pan fo'r dewis ganddynt. Un o'r pethau sy'n rhwystro pobl rhag prynu'n lleol, yn anffodus, yw'r ffaith y gall labeli weithiau fod yn aneglur, yn ddryslyd, neu'n hollol gamarweiniol. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gydag archfarchnadoedd, a bwytai yn arbennig, i sicrhau bod rhywbeth y mae ei label yn nodi ei fod yn dod o Gymru yn dod o Gymru mewn gwirionedd?

**Jane Hutt:** I am sure that Darren Millar would agree that this is a key point that was highlighted in our celebrations on St David's Day, when we sampled some excellent Welsh food in the Senedd. We recognise that these are important issues and the Deputy Minister is taking them forward. It is a key part of his agenda and I am sure that he will want to report on it in due course.

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr y byddai Darren Millar yn cytuno bod hwn yn bwynt allweddol a amlygwyd yn ein dathliadau ar Ddydd Gŵyl Dewi, pan fuom yn blasu bwyd rhagorol o Gymru yn y Senedd. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn faterion pwysig ac mae'r Dirprwy Weinidog yn bwrw ymlaen â hwy. Mae'n rhan allweddol o'i agenda ac rwy'n siŵr y bydd am roi adroddiad arno maes o law.

**Kirsty Williams:** Minister, during questions to the First Minister, the First Minister gave a commitment that the Welsh Government would continue to allow patients who live in the border areas to receive health services in England, if that was most appropriate for them. Will you schedule time for the Minister for Health and Social Services to make a statement to confirm that policy?

**Kirsty Williams:** Weinidog, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, rhoddodd y Prif Weinidog ymrwymiad y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ganiatáu i gleifion sy'n byw yn yr ardaloedd ar y ffin ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn Lloegr, os dyna oedd fwyaf priodol ar eu cyfer. A wnewch chi drefnu amser i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad i gadarnhau'r polisi hwnnw?

Yesterday, a constituent of mine who has had no less than five appointments at the Queen Elizabeth Hospital in Birmingham, including

Ddoe, dywedwyd i un o'm hetholwyr sydd wedi cael dim llai na phum apwyntiad yn Ysbyty'r Frenhines Elisabeth yn

a pre-operative assessment, and who was due to have surgery for a cochlear implant on Monday, has now been told that she cannot have that surgery because it was to be done in Birmingham, and the process will have to start again in clinics in Cardiff. Do you agree that this is a waste of public money and it is an appalling way to treat a 70-year-old lady, who had hoped that, next week, she would have the gift of having her hearing restored?

Birmingham, gan gynnwys asesiad cyn-llawdriniaeth, ac a oedd i fod i gael llawdriniaeth i gael mewnblaniad yn y cochlea ddydd Llun, nad yw hi'n gallu cael y llawdriniaeth bellach oherwydd y byddai'n cael ei wneud yn Birmingham. Bydd yn rhaid i'r broses ailddechrau mewn clinigau yng Nghaerdydd. A ydych yn cytuno bod hyn yn wastraff arian cyhoeddus ac yn ffordd ofnadwy i drin dynes 70 oed, a oedd wedi gobeithio y byddai, yr wythnos nesaf, yn profi'r wyrth o gael ei chlyw yn ôl?

2.30 p.m.

**Jane Hutt:** The Minister for Health and Social Services will be very concerned to hear of an example of that kind, and I am sure that she will want to reassure the leader of the Welsh Liberal Democrats, perhaps as a result of a letter on that particular case. However, we need to look at this in terms of cross-border services, and in particular, concerns about the adverse impact that we fear as a result of the Health and Social Care Bill.

**Jane Hutt:** Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bryderus iawn i glywed am enghraifft o'r fath, ac rwy'n siŵr y bydd yn awyddus i dawelu meddwl arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, efallai o ganlyniad i lythyr ar yr achos penodol hwnnw. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych ar hyn o ran gwasanaethau trawsffiniol ac, yn benodol, pryderon ynghylch yr effaith andwyol yr ydym yn ei hofni o ganlyniad i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Byron Davies:** Minister, expanding further on William Graham's question, I ask, with some disquiet, for a statement on your Government's newly found interest in the M4. I have raised this issue previously with the First Minister. I am concerned that this Chamber is almost being hoodwinked by a Government that sees fit to make statements and launch official consultations via the Welsh media and not this Chamber. This is perhaps an issue to take up with the Assembly Commission and the Presiding Officer. However, given your personal statement this morning, which stated that the M4 improvements are clearly a priority, will you table a statement, or update your national transport plan to reflect this?

**Byron Davies:** Weinidog, wrth ehangu ar gwestiwn William Graham ymhellach, gofynnaf, gyda pheth anesmwythyd, am ddatganiad ynghylch diddordeb newydd eich Llywodraeth yn yr M4. Rwyf wedi codi'r mater hwn yn flaenorol gyda'r Prif Weinidog. Rwy'n pryderu bod y Siambr hon yn cael ei chamarwain bron gan Lywodraeth sy'n ei gweld yn dda i wneud datganiadau a lansio ymgynghoriadau swyddogol drwy gyfrwng y cyfryngau yng Nghymru ac nid yn y Siambr hon. Efallai fod hyn yn fater i'w godi gyda Chomisiwn y Cynulliad a'r Llywydd. Fodd bynnag, o ystyried eich datganiad personol y bore yma—a oedd yn nodi, yn amlwg, bod y gwelliannau i'r M4 yn flaenoriaeth—a wnewch chi gyflwyno datganiad, neu ddiweddaru eich cynllun trafnidiaeth cenedlaethol i adlewyrchu hyn?

**Jane Hutt:** We are very surprised by the negative response to this consultation. These are clearly planned discussions backed strongly by business. The Confederation of British Industry Wales would be very disappointed to hear your views. Recognition of the importance of the M4, in terms of UK

**Jane Hutt:** Rydym wedi ein synnu'n fawr gan yr ymateb negyddol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n amlwg fod y rhain yn drafodaethau a gynlluniwyd o flaen llaw gyda chefnogaeth gref gan fusnes. Byddai Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru wedi siomi'n fawr o glywed eich

infrastructure, was a key part of discussions I had yesterday at the quadrilateral meeting of finance Ministers, alongside the Secretary of State for Wales. It is important that the consultation is undertaken, and the Minister will report back on the outcome of that consultation, which is a key part of the national transport strategy.

barn. Roedd cydnabod pwysigrwydd yr M4, o ran seilwaith y Deyrnas Unedig, yn rhan allweddol o'r trafodaethau a gefais ddoe yn y cyfarfod pedairochrog o Weinidogion cyllid, ochr yn ochr ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'n bwysig fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal, a bydd y Gweinidog yn adrodd yn ôl ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, sy'n rhan allweddol o'r strategaeth drafnidiaeth genedlaethol.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, could we have a statement from the Minister for health in relation to the Welsh Government's proposals not to collate figures on staff vacancies and levels of staffing in the Welsh NHS? I am led to believe that health boards do not regard this as a useful tool. They may not regard it as a useful tool, but I am sure members of the public, clinical professionals and politicians would regard it as a useful tool to see where vacancies exist and where successes exist. To date, I am unaware of any statement brought forward by the Minister on this key indicator of the performance of the Welsh health service. I would be most grateful if a statement could be made available to Members on the rationale behind this.

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a wnaiff y Gweinidog iechyd ddatganiad mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru i beidio â chasglu ffigurau ar swyddi gwag staff a lefelau staffio yn GIG Cymru? O'r hyn rwy'n ei ddeall, nid yw byrddau iechyd yn ystyried hyn yn arf defnyddiol. Efallai na fyddant yn ei ystyried yn arf defnyddiol, ond rwy'n siŵr y byddai aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol clinigol a gwleidyddion yn ei ystyried fel arf defnyddiol i weld lle mae swyddi gwag yn bodoli a lle mae llwyddiannau yn bodoli. Hyd yn hyn, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddatganiad a gyflwynwyd gan y Gweinidog ar y dangosydd allweddol hwn o berfformiad gwasanaeth iechyd Cymru. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech wneud datganiad am y rhesymeg y tu ôl i hyn.

**Jane Hutt:** There will not be a statement from the Minister for Health and Social Services because this issue does not, in any way, undermine the important strategic workforce development and profile of the NHS in Wales. I hope that you, as leader of the opposition, will join the Minister for Health and Social Services in our campaign to encourage more doctors to work in Wales. That is an issue on which we should be united across the Chamber, in order to ensure that doctors recognise the benefits and advantages of not only living in Wales, but working for a Welsh national health service.

**Jane Hutt:** Ni fydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad gan nad yw'r mater hwn, mewn unrhyw ffordd, yn tanseilio proffil a'r gwaith pwysig strategol o ddatblygu gweithlu y GIG yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y byddwch chi, fel arweinydd yr wrthblaid, yn ymuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ein hymgyrch i annog rhagor o feddygon i weithio yng Nghymru. Mae hynny'n fater y dylem fod yn unedig yn ei gylch ar draws y Siambr, er mwyn sicrhau bod meddygon yn cydnabod y buddion a'r manteision, nid yn unig o fyw yng Nghymru, ond o weithio i wasanaeth iechyd gwladol Cymru.

## Datganiad: Mynd i'r Afael â Masnachu mewn Pobl yng Nghymru
## Statement: Tackling Human Trafficking in Wales

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** As we know, human trafficking is the cause of much

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Fel y gwyddom, mae masnachu mewn pobl yn

misery and suffering for some of the most vulnerable members in society. It includes internal and external trafficking, involving sexual exploitation, slave labour, child trafficking and domestic servitude. The United Nations estimates that around 4 million people fall victim to human trafficking every year and it is believed to be one of the fastest growing organised crimes. The current evidence suggests that the problem in Wales is on a relatively small scale—34 cases have been reported in the last three years, but we believe that this does not reflect the true picture in Wales. Through the work of our trafficking co-ordinator, we are already aware of a number of other cases which have not been fed through the formal reporting procedures, and this is an issue we are trying to address. Trafficking, by its very nature, is a hidden problem, so we cannot afford to be complacent. Any person forced into the sex industry or kept as a domestic slave is one person too many.

achosi llawer o ddiflastod a dioddefaint i rai o'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n cynnwys masnachu mewnol ac allanol, gan gynnwys camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol, masnachu mewn plant a chaethwasanaeth domestig. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod tua 4 miliwn o bobl yn dioddef o fasnachu mewn pobl bob blwyddyn, a chredir ei fod yn un o'r troseddau cyfundrefnol sy'n tyfu gyflymaf. Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu mai problem gymharol fechan yw hi yng Nghymru, gyda 34 o achosion wedi cael eu hadrodd yn y tair blynedd diwethaf, ond credwn nad yw hyn yn adlewyrchu'r darlun cywir yng Nghymru. Drwy waith ein cydlynydd masnachu, rydym eisoes yn ymwybodol o nifer o achosion eraill nad ydynt wedi cael eu bwydo drwy'r gweithdrefnau adrodd ffurfiol, ac mae hwn yn fater yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Mae masnachu mewn pobl, oherwydd ei natur, yn broblem gudd, felly ni allwn fforddio bod yn hunanfodlon. Mae unrhyw berson a gaiff ei orfodi i mewn i'r diwydiant rhyw neu ei gadw fel caethwas domestig yn un person yn ormod.

Our work in this area was borne from the huge amount of work that Joyce Watson brought to the table in respect of the issue of women and children being trafficked into the sex industry, and it ties in with our commitment to tackle all forms of violence against women. I am pleased to be able to support my colleague, Jane Hutt, in raising this as an important issue in the run-up to International Women's Day on Thursday, and I am particularly pleased that the focus this year will be on ending violence against women.

Deilliodd ein gwaith yn y maes hwn o'r holl waith a wnaed gan Joyce Watson o ran menywod a phlant yn cael eu masnachu i mewn i'r diwydiant rhyw, ac mae'n gyson â'n hymrwymiad i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn merched. Rwy'n falch o allu cefnogi fy nghydweithiwr, Jane Hutt, a chodi hyn fel mater pwysig cyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ddydd Iau, ac rwy'n arbennig o falch mae'r ffocws eleni fydd ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.

When I created the anti-human trafficking co-ordinator post for Wales, my primary aim was to co-ordinate the best possible support for victims and to make Wales a hostile place for human trafficking to exist. With this being the first appointment of its type in the UK, we have had an opportunity to lead the way in tackling human trafficking and making Wales a safer place. Even the Parliamentary Under-Secretary of State, David Jones, has expressed support for the introduction of our anti-human trafficking co-

Pan sefydlais swydd cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl i Gymru, fy mhrif nod oedd cydlynu'r gefnogaeth orau posibl i ddioddefwyr ac i wneud Cymru yn lle anodd i fasnachu mewn pobl. Gan mai hwn oedd y penodiad cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, rydym wedi cael cyfle i arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â masnachu mewn pobl a gwneud Cymru yn lle mwy diogel. Mae hyd yn oed yr Is-ysgrifennydd Seneddol, David Jones, wedi mynegi cefnogaeth i'n swydd cydgysylltydd atal masnachu mewn

ordinator post, following a question from a member of his own party suggesting that a similar approach be taken by the UK Government.

pobl, yn dilyn cwestiwn gan aelod o'i blaid ei hun yn awgrymu bod angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddefnyddio dull tebyg.

We have set four primary objectives for the post in the first year: to scope and inform key agencies of the scale, types and location of human trafficking in Wales, and in their specific localities; to improve the sharing of intelligence and recording of incidents in Wales; to create a route map for service providers to know how to respond to occurrences of human trafficking; and to ensure key agencies are aware of developing intelligence in readiness for the Olympics in 2012.

Rydym wedi pennu pedwar prif amcan ar gyfer y swydd yn y flwyddyn gyntaf: i gwmpasu a rhoi gwybod i'r prif asiantaethau am raddfa, mathau a lleoliadau masnachu mewn pobl yng Nghymru, ac yn eu hardaloedd penodol; i wella'r broses o rannu cudd-wybodaeth a chofnodi digwyddiadau yng Nghymru; i greu map llwybr ar gyfer darparwyr gwasanaethau i wybod sut i ymateb i ddigwyddiadau o fasnachu mewn pobl; ac i sicrhau bod y prif asiantaethau yn ymwybodol o ddatblygu cudd-wybodaeth yn barod ar gyfer y Gemau Olympaidd yn 2012.

So, have we achieved against these four objectives? The cross-sector intelligence-sharing hubs have begun to be established across Wales. The co-ordinator has worked closely with the United Kingdom Human Trafficking Centre to establish a more comprehensive Welsh and UK picture of the scale of the problem, and what is needed to address it. The sharing and collection of intelligence is an important part of identifying the true picture in Wales, and I am pleased to say that in support of this, cross-sector intelligence-sharing hubs have been developed in Gwent, Cardiff, Pembroke and Wrexham. Powys and Anglesey are about to replicate this approach.

Felly, a ydym wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y pedwar amcan hyn? Mae'r canolfannau rhannu cudd-wybodaeth traws-sector wedi dechrau cael eu sefydlu ledled Cymru. Mae'r cydgysylltydd wedi gweithio'n agos gyda Chanolfan Masnachu mewn Pobl y Deyrnas Unedig i greu darlun mwy cynhwysfawr o'r broblem yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, a'r hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â'r broblem. Mae rhannu a chasglu cudd-wybodaeth yn rhan bwysig o ganfod y darlun cywir yng Nghymru, ac rwy'n falch o ddweud, i gefnogi hyn, bod canolfannau rhannu cudd-wybodaeth traws-sector wedi cael eu datblygu yng Ngwent, Caerdydd, Penfro a Wrecsam. Mae Powys ac Ynys Môn ar fin datblygu canolfannau.

Additionally, over 70 awareness sessions have been introduced and delivered to key stakeholders across Wales, including local authorities, local health boards, the police and criminal justice partners, along with a wealth of charities and non-governmental organisations. This means that around 2,500 professionals will now understand how best to identify potential victims of trafficking and how best to respond. There is much more work to be done, not least in other parts of the UK. There needs to be a concerted effort to ensure that front-line workers across the UK have the same approach to identifying and tackling this problem.

Yn ogystal, mae dros 70 o sesiynau ymwybyddiaeth wedi cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol, ynghyd â chyfoeth o elusennau a sefydliadau anllywodraethol. Mae hyn yn golygu bod tua 2,500 o weithwyr proffesiynol bellach yn deall sut i adnabod dioddefwyr posibl o fasnachu a'r ffordd orau o ymateb i hynny. Mae llawer mwy o waith i'w wneud, yn enwedig mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig. Mae angen ymdrech unedig i sicrhau bod gweithwyr rheng flaen ledled y Deyrnas Unedig yn defnyddio'r un ymagwedd tuag at adnabod a mynd i'r afael â'r broblem hon.

| | |
|---|---|
| In Wales, we have developed a multi-agency pathway for responding to human trafficking, and we will share this across the public, private and third sectors. The multi-agency pathway will help to support and co-ordinate a partnership response to human trafficking. The co-ordinator has worked with UK partners to identify best practice and has produced a comprehensive guide for the police in Wales. This is the first of its kind in the UK and is now being used as a template for other areas in the UK. Again, Wales is leading the way. | Yng Nghymru, rydym wedi datblygu llwybr aml-asiantaeth ar gyfer ymateb i fasnachu mewn pobl, a byddwn yn rhannu hyn gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bydd y llwybr aml-asiantaeth yn helpu i gefnogi a chydlynu ymateb mewn partneriaeth i fasnachu mewn pobl. Mae'r cydlynydd wedi gweithio gyda phartneriaid yn y Deyrnas Unedig i nodi arfer gorau ac mae wedi cynhyrchu canllaw cynhwysfawr ar gyfer yr heddlu yng Nghymru. Dyma'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio fel templed ar gyfer ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Unwaith eto, mae Cymru yn arwain y ffordd. |
| In Wales, we have put in place bespoke training for senior police officers in dealing with human trafficking. Until recently, there has been no bespoke senior police officer training outside of London to enable investigating officers to increase their skills in investigating these often complex crimes, and to use existing legislation effectively to bring traffickers to justice. Assisted by the Metropolitan Police, the co-ordinator will pilot a training package at South Wales Police regional training centre in partnership with the Welsh Crown Prosecution Service. This will commence in the next three months and will involve all the Welsh police forces and the CPS. This means that Wales will be the first part of the UK where all senior investigating police officers will have received training in dealing with trafficking in partnership with the CPS. | Yng Nghymru, rydym wedi sefydlu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer uwch swyddogion yr heddlu wrth ymdrin â'r fasnach mewn pobl. Tan yn ddiweddar, nid oes hyfforddiant pwrpasol i uwch swyddogion yr heddlu wedi bod y tu allan i Lundain, er mwyn galluogi swyddogion ymchwilio i wella eu sgiliau wrth ymchwilio i'r troseddau hyn, sy'n droseddau cymhleth gan amlaf, ac i ddefnyddio deddfwriaeth bresennol yn effeithiol i ddod â masnachwyr mewn pobl o flaen eu gwell. Gyda chymorth yr Heddlu Metropolitan, bydd y cydlynydd yn treialu pecyn hyfforddi yng nghanolfan hyfforddi rhanbarthol Heddlu De Cymru mewn partneriaeth â Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru. Bydd hyn yn dechrau yn y tri mis nesaf a bydd yn cynnwys holl heddluoedd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn yn golygu mai Cymru fydd y rhan gyntaf o'r Deyrnas Unedig lle bydd holl uwch swyddogion ymchwilio yr heddlu wedi cael hyfforddiant i ymdrin â masnachu mewn pobl, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Erlyn y Goron. |
| Systems have been created to ensure that a proportionate and intelligence-led response is in place to prevent and tackle any potential human trafficking surrounding the Olympic Games in Wales. Some evidence suggests that major international sporting events promote an increase in demand for paid sex because, in part, of the temporary population growth. With 500,000 extra visitors expected in London during the games and an increase in visitors to satellite sites such as Cardiff, we | Mae systemau wedi cael eu creu i sicrhau bod ymateb cymesur, sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, ar waith i atal unrhyw fasnachu mewn pobl posibl dros gyfnod y Gemau Olympaidd, ac i fynd i'r afael â hynny pe bai'n digwydd yng Nghymru. Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl sy'n talu am ryw oherwydd, yn rhannol, y twf dros dro yn y boblogaeth. Gyda'r disgwyl i 500,000 o |

need to ensure that we prepare for the risk and are taking action to mitigate it.

ymwelwyr ychwanegol ymweld â Llundain yn ystod y gemau, a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr â safleoedd lloeren fel Caerdydd, mae angen i ni sicrhau ein bod yn paratoi ar gyfer y risg ac yn cymryd camau i liniaru'r broblem.

The threat of risk and harm in Wales during the Olympics and Paralympics in 2012 has been comprehensively researched, and an in-depth risk assessment has been produced. This has been supported with clear direction to our strategic partners across Wales in identifying and responding to potential victims of trafficking. This includes constant engagement with all statutory and voluntary partners to assess trends for new intelligence.

Mae'r bygythiad o risg a niwed yng Nghymru yn ystod y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn 2012 wedi cael ei ymchwilio yn gynhwysfawr, ac mae asesiad risg manwl wedi cael ei gynnal. Mae hyn wedi'i gefnogi gyda chyfeiriad clir i'n partneriaid strategol ar draws Cymru i nodi ac ymateb i ddioddefwyr posibl o fasnachu. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad cyson gyda'r holl bartneriaid statudol a gwirfoddol i asesu tueddiadau ar gyfer cudd-wybodaeth newydd.

To conclude, closer collaboration is now happening to target and harden entry points for people being trafficked. The co-ordinator has work closely with the UK Border Agency and the Welsh Extremism and Counter Terrorist Unit to highlight human trafficking intelligence as well as recommending covert and overt operations that have since been implemented to strengthen the already strong Welsh activity around our ports.

I gloi, mae cydweithio agosach yn digwydd, erbyn hyn, i dargedu pwyntiau mynediad i bobl sy'n cael eu masnachu, a gwneud hynny'n anoddach iddynt. Mae'r cydgysylltydd wedi gweithio'n agos ag Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru i dynnu sylw at gudd-wybodaeth masnachu mewn pobl yn ogystal ag argymell ymgyrchoedd cudd, ac agored, sydd wedi cael eu gweithredu eisioes i gryfhau'r gweithgarwch cryf sy'n bodoli yn ein porthladdoedd yng Nghymru.

I thank Members for their continued support in tackling this heinous crime. Wales is leading the way, and I ask other administrations across the UK to come together to bring an end to the trafficking of people.

Diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth barhaus i fynd i'r afael â'r troseddau erchyll hyn. Mae Cymru'n arwain y ffordd, a gofynnaf i weinyddiaethau eraill ar draws y Deyrnas Unedig i ddod at ei gilydd i roi terfyn ar fasnachu mewn pobl.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister. I remind Members that this is an opportunity to question the Minister; it is not the time for speeches.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog. Hoffwn atgoffa'r Aelodau bod hwn yn gyfle i holi'r Gweinidog; nid yw'n amser ar gyfer areithiau.

**Mark Isherwood:** Of course, we join you and support your call for concerted effort across the UK to deal with what is, as you say, a heinous crime. The anti-human trafficking co-ordinator for Wales, Bob Tooby, has said that hundreds of victims of human trafficking could be pouring through Welsh ports every year. He has said that many victims are being smuggled into Wales

**Mark Isherwood:** Wrth gwrs, rydym yn ymuno â chi ac yn cefnogi eich galwad am ymdrech unedig yn y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â'r hyn sydd, fel y dywedwch, yn drosedd erchyll. Mae Bob Tooby, sef y cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl yng Nghymru, wedi dweud y gallai cannoedd o ddioddefwyr y fasnach mewn pobl fod yn pasio drwy borthladdoedd Cymru bob

from ports in Ireland, right under the noses of border authorities. Given your comment that you have written to the other three UK administrations—Northern Ireland, Scotland and the England UK Government—what if any communication have you had with Éire to reflect the comments made by the co-ordinator in order to ensure international working with Ireland and across the European Union on these matters? What information have you obtained on any existing mechanisms in the other UK national administrations with which Wales may also be able to work and from which Wales may be able to learn, sharing good practice both ways?

blwyddyn. Mae wedi dweud bod llawer o ddioddefwyr yn cael eu smyglo i Gymru o borthladdoedd yn Iwerddon, o dan drwynau awdurdodau'r ffiniau. O ystyried eich sylw eich bod wedi ysgrifennu at tair gweinyddiaeth arall y Deyrnas Unedig—Gogledd Iwerddon, yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn Lloegr—pa gyfathrebu, os o gwbl, a gawsoch gydag Éire i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan y cydgysylltydd er mwyn sicrhau cydweithio rhyngwladol gydag Iwerddon ac ar draws yr Undeb Ewropeaidd ar y materion hyn? Pa wybodaeth rydych wedi ei chael ar unrhyw fecanweithiau presennol yn y gweinyddiaethau cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig y gall Cymru hefyd eu defnyddio ac y gall Cymru ddysgu ohonynt, a rhannu arfer da y ddwy ffordd?

You referred to the Olympics and Paralympics, the threat of risk and harm, and clear direction to strategic partners across Wales in identifying and responding to potential victims. Are you able now or on another occasion to provide the Assembly with more details on the clear direction you have provided accordingly? You referred to the bespoke police training, which I welcome and which will commence in the next three months, involving all Welsh police forces. Have you ensured that this co-ordinates with the English border forces, paralleling the eastern counties and forces of Wales with Merseyside and Cheshire in particular, as well as the south-east with Bristol and south-west England?

Cyfeiriasoch at y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, y bygythiad o risg a niwed, a chyfeiriad clir i bartneriaid strategol ar draws Cymru i nodi ac ymateb i ddioddefwyr posibl. A allwch ddarparu rhagor o fanylion i'r Cynulliad, nawr neu ryw dro arall, am y cyfeiriad clir a ddarparwyd gennych yn unol â hynny? Cyfeiriasoch at yr hyfforddiant heddlu pwrpasol, yr wyf yn ei groesawu ac a fydd yn dechrau yn ystod y tri mis nesaf, a fydd yn cynnwys holl heddluoedd Cymru. A ydych wedi sicrhau bod hyn yn cydlynu gyda lluoedd ffiniau Lloegr, gan gyfochri â siroedd a heddluoedd dwyreiniol Cymru â Glannau Mersi a Sir Gaer yn benodol, yn ogystal â de-ddwyrain Cymru â Bryste a de-orllewin Lloegr?

You referred to awareness-raising sessions for 2,500 professionals to help them better understand how to identify potential victims. How will that awareness training be monitored? Training itself is not an event, but a process to ensure we keep on top of the game and spread that practice.

Cyfeiriasoch at sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer 2,500 o weithwyr proffesiynol i'w helpu i ddeall yn well sut i adnabod dioddefwyr posibl. Sut y bydd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth hwnnw'n cael ei fonitro? Nid yw hyfforddiant ei hun yn ddigwyddiad, ond yn hytrach yn broses i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau bosibl, ac yn rhannu'r arfer hwnnw.

I have three more questions. The UK Government has set out plans for a national crime agency to tackle serious and complex crime in partnership with other UK and international forces, particularly to protect children and young people. What dialogue has the Welsh Government had with the UK

Mae gennyf dri chwestiwn arall. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi pennu cynlluniau ar gyfer sefydlu asiantaeth genedlaethol i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chymhleth mewn partneriaeth ag awdurdodau gorfodi eraill yn y Deyrnas Unedig a heddluoedd rhyngwladol, yn

Government on that? The UK Government has also stated that it is opting in to the European directive on human trafficking. Has the UK Government had a dialogue with the Welsh Government about that? Finally, the UK Government has published its human trafficking strategy, strengthening support for adult victims of human trafficking and making £2 million available to the Salvation Army to set up special support services in England and Wales to ensure that victims have access to the care they need when they need it. Given that Wales is specifically mentioned there, again, what input or dialogue has the Welsh Government had in that regard?

arbennig i amddiffyn plant a phobl ifanc. Pa ddeialog mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hynny? Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi datgan ei bod wedi dewis ymuno â'r gyfarwyddeb Ewropeaidd ar fasnachu mewn pobl. A yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cael deialog â Llywodraeth Cymru am hynny? Yn olaf, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ei strategaeth ar fasnachu mewn pobl, gan gryfhau cefnogaeth i oedolion sy'n dioddef o gael eu masnachu a sicrhau bod £2 filiwn ar gael i Fyddin yr Iachawdwriaeth i sefydlu gwasanaethau cymorth arbenigol yng Nghymru a Lloegr i sicrhau bod dioddefwyr yn cael mynediad i'r gofal sydd ei angen arnynt pan fyddant ei angen. O ystyried bod Cymru yn cael ei chrybwyll yn benodol, pa fewnbwn neu ddeialog y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn hynny o beth?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his questions. Of course, there were many questions there that require a detailed response. If I do not answer some of them now, I will write to the Member formally. On the co-ordination around the UK, I have written to Ireland and Scotland and to English Ministers about the work that is ongoing with the Welsh Government, looking to encourage them to build on the work going on within the administrations and on the principle of the work of the anti-human trafficking co-ordinator. Bob Tooby's work has clearly identified the fact that there are huge gaps in knowledge when it comes to the identification of trafficking and traffickers.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Wrth gwrs, roedd llawer o gwestiynau a oedd yn gofyn am ymateb manwl. Os nad wyf yn ateb rhai ohonynt yn awr, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn ffurfiol. O ran cydlynu'r drefn yn y Deyrnas Unedig, rwyf wedi ysgrifennu at Iwerddon a'r Alban ac at Weinidogion Lloegr am y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru, gan edrych i'w hannog i adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd o fewn y gweinyddiaethau ac ar egwyddor gwaith y cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl. Mae gwaith Bob Tooby wedi nodi'n glir y ffaith bod bylchau enfawr mewn gwybodaeth o ran adnabod materion o fasnachu mewn pobl a masnachwyr.

2.45 p.m.

As we are part of the union, it is really important that Wales is not isolated in the work that it does just in Wales and that we share this best practice across the UK. In fact, bearing in mind the response that I get from the UK Government, I believe that, as Wales is leading the way in this, we should move this into a broader European context in terms of tackling some of the border issues that you quite rightly raised, which plague all countries across the European Union. It is something that I am sure would gain a lot of support across this Chamber, as well as in

Gan ein bod yn rhan o'r undeb, mae'n bwysig iawn nad yw Cymru yn cael ei hynysu yn y gwaith a wna yng Nghymru yn unig ac ein bod yn rhannu'r arfer gorau hwn ledled y DU. Yn wir, o gofio'r ymateb a gaf gan Lywodraeth y DU, a chan fod Cymru yn arwain y ffordd yn hyn, credaf y dylem symud hyn i gyd-destun Ewropeaidd ehangach o ran mynd i'r afael â rhai o'r materion ffiniol a godwyd gennych yn gwbl briodol, sy'n poeni holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n rhywbeth yr wyf yn siŵr a gaiff lawer o gefnogaeth yn y Siambr hon,

many other political chambers.

yn ogystal â nifer o siambrau gwleidyddol eraill.

I gratefully receive your comments around the amount of training that has taken place with the various professionals. You asked about the monitoring element of this; I think that the monitoring will be about the increase in identification. Again, there are elements around the whole issue of domestic abuse, violence against women and trafficking—there is a huge amount of underlying crime. We know that it is a big underground issue and we do not really know what the scale is. We have seen examples, and the all-Wales domestic abuse helpline has seen a massive increase in terms of contact points. We see that as a huge positive, because before, people had nowhere to turn. We do not know what the underlying numbers are, but it is about the growth in the project and the opportunity for people to access services. That will be the proof of the pudding. Ironically, many of the professionals who deal with people on a daily basis had no idea of potential risks in terms of trafficking and identification. That has certainly been strengthened by the work of Bob Tooby.

Derbyniaf eich sylwadau gyda diolch ynghylch faint o hyfforddiant y mae'r amrywiol weithwyr proffesiynol wedi'i gael. Gwnaethoch ofyn am yr elfen o fonitro hyn; credaf mai'r gwaith monitro fydd y cynnydd yn nifer yr achosion a ddaw i'w amlwg. Unwaith eto, mae elfennau'n ymwneud â cham-drin domestig, trais yn erbyn menywod a masnachu mewn pobl—mae llawer iawn o drosedd gwaelodol. Rydym yn gwybod ei bod yn broblem fawr a chuddiedig ac nid ydym yn gwybod pa mor eang ydyw mewn gwirionedd. Rydym wedi gweld enghreifftiau, ac mae llinell gymorth cam-drin domestig Cymru gyfan wedi gweld cynnydd enfawr o ran pwyntiau cyswllt. Rydym yn gweld hynny'n beth cadarnhaol iawn, oherwydd cyn hynny, nid oedd gan bobl unlle i droi. Nid ydym yn gwybod beth yw'r niferoedd gwaelodol, ond yr hyn sy'n bwysig yw datblygu'r prosiect a rhoi cyfle i bobl gael gafael ar wasanaethau. Bydd yn rhaid aros i weld y canlyniadau i weld a yw'n llwyddiant. Yn eironig, nid oes gan lawer o'r gweithwyr proffesiynol sy'n delio â phobl o ddydd i ddydd unrhyw syniad o'r risgiau posibl o ran masnachu pobl ac adnabod. Mae hynny'n sicr wedi cael ei gryfhau gan waith Bob Tooby.

I need to have some more conversations with my UK counterparts on the issue that the Member mentioned around the Salvation Army and the support that it has been given. I will write to the Member on that. I am grateful for Members' comments of support for this in principle. Without trying to score political points—I think that it is really important that we join together to tackle this issue—one issue regarding the monitoring of ports is around some things that are not devolved. UK immigration policy, UK Border Agency control and policing all have an impact in terms of the control mechanisms that are related to bringing people in and out of the country. That has to be strengthened, in my view. I will leave that statement at that point, recognising that we all need to do something to build on strengthening those elements at the ports that people use as access points for trafficking.

Mae angen imi drafod ymhellach â'm cymheiriaid yn y DU y mater y soniodd yr Aelod amdano ynglŷn â Byddin yr Iachawdwriaeth a'r gefnogaeth a roddwyd. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â hynny. Rwyf yn ddiolchgar am sylwadau gan Aelodau sy'n cefnogi hyn mewn egwyddor. Heb geisio sgorio pwyntiau gwleidyddol—credaf ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn ymuno i fynd i'r afael â'r mater hwn—mae un mater ynghylch monitro porthladdoedd yn ymwneud â phethau nad ydynt wedi'u datganoli. Mae polisi mewnfudo'r DU polisi, rheolaeth Asiantaeth Ffiniau'r DU a phlismona i gyd yn cael effaith o ran y dulliau rheoli sy'n gysylltiedig â dod â phobl i mewn ac allan o'r wlad. Mae'n rhaid cryfhau hynny, yn fy marn i. Rwyf am ddod â'r datganiad i ben yn awr, gan gydnabod bod yn rhaid i bob un ohonom wneud rhywbeth er mwyn cryfhau'r elfennau hynny yn y porthladdoedd y mae pobl yn eu

defnyddio fel mannau mynediad ar gyfer masnachu mewn pobl.

**Joyce Watson:** I thank the Minister for his statement today and for his unrelenting work and commitment to this area. It is now being recognised right across the UK, not least in the House of Commons, where, in January this year, the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, David Jones, spoke in support of the Welsh Government's introduction of an anti-trafficking co-ordinator and all the work that is being done on this particular issue.

**Joyce Watson:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac am ei waith diflino a'i ymrwymiad i'r maes hwn. Cydnabyddir erbyn hyn ledled y DU, yn arbennig yn Nhŷ'r Cyffredin, lle, ym mis Ionawr eleni, siaradodd Is-Ysgrifennydd Seneddol Gwladol Cymru, David Jones, o blaid penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl ac o blaid yr holl waith a wneir yn y cyswllt hwn.

Minister, you are right to talk about raising awareness and giving people the right support and training to do their job. I am grateful to you for recognising that and for putting in place the joint training programme for the police and the Crown Prosecution Service. Do you agree with me that it is of the utmost importance that those entrusted with the responsibility of safeguarding children follow the clear guidance put in place by the Welsh Government in September last year in the form of the all-Wales protocol on child trafficking? Some concerns have been raised with me this week that some local authorities are still unaware of their exact responsibility and duty to follow that guidance. There is a danger that, for every case incorrectly dealt with, another child is put further at risk and into the hands of the traffickers.

Weinidog, rydych yn iawn i sôn am godi ymwybyddiaeth a rhoi'r cymorth a'r hyfforddiant priodol i bobl wneud eu gwaith. Rwy'n ddiolchgar i chi am gydnabod hynny ac am roi rhaglen hyfforddiant ar y cyd ar waith ar gyfer yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. A ydych yn cytuno â mi ei bod yn hollbwysig bod y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn dilyn y canllawiau clir a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi y llynedd ar ffurf protocol Cymru gyfan ar fasnachu mewn plant? Mynegwyd rhai pryderon yr wythnos hon nad yw rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o hyd o'u hunion gyfrifoldeb a'u dyletswydd i ddilyn y canllawiau hynny. Gyda phob achos yr ymdrinnir ag ef yn anghywir, mae perygl y bydd plentyn arall yn cael ei roi mewn risg pellach yn nwylo'r masnachwyr.

**Carl Sargeant:** The Member raises a very important point, and I thank her for her comments. A lot of the work that has stemmed from Government policy comes from some of the work that the Member has produced in the past, and I am grateful for that. The issues of responsibility identification also concern me in terms of local authorities—for want of a better term—losing children. When they present to either the police or local authorities, there should be a level of responsibility and a progress check about where these young people are being released to. I know that there are examples in the UK of where significant proportions of children under the age of 16 are taken into custody by police, but released back onto the streets. That is not acceptable, particularly in terms of what we consider to be the safeguarding of children, and it is something

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn, a hoffwn ddiolch iddi am ei sylwadau. Mae llawer o'r gwaith sydd wedi tarddu o bolisi'r Llywodraeth yn deillio o'r gwaith a wnaeth yr Aelod yn y gorffennol, ac rwyf yn ddiolchgar am hynny. Mae'r materion o ran nodi cyfrifoldeb hefyd yn peri pryder i mi o ran awdurdodau lleol—nid oes gennyf derm gwell—yn colli plant. Pan fyddant yn cyflwyno'u hunain i naill ai'r heddlu neu'r awdurdodau lleol, dylid cael lefel o gyfrifoldeb a phrawf gwirio cynnydd o ran i ble y caiff y bobl ifanc hyn eu rhyddhau. Gwn fod enghreifftiau yn y DU lle mae cyfran sylweddol o blant o dan 16 oed yn cael eu cymryd i'r ddalfa gan yr heddlu, ond yna'n cael eu rhyddhau yn ôl ar y strydoedd. Nid yw hynny'n dderbyniol, yn enwedig o ran yr hyn a ystyriwn yn ddiogelu plant, ac mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i godi gyda'r

that I have raised with the Deputy Minister for Children and Social Services.

Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

We also know, when we talk about human trafficking, that it operates beyond the natural borders of Wales and the UK. An influx of people is being brought into the country; it is a hidden crime of unknown quantity. I am also aware of internal trafficking of children in Wales. That is also unacceptable, and somebody has to take the responsibility for monitoring and supporting young people and older people who are trafficked, whether that is for slavery or for the sex trade. We also need an understanding of that. I am pleased that Bob Tooby works closely with Gwent Police and the Welsh Government to try to co-ordinate this. It is a starting point, but there is much more work to be done.

Rydym hefyd yn gwybod, pan fyddwn yn sôn am fasnachu mewn pobl, bod hynny'n digwydd y tu hwnt i ffiniau naturiol Cymru a'r DU. Daw mewnlifiad o bobl i mewn i'r wlad; mae'n drosedd gudd ac mae'r niferoedd yn anhysbys. Rwyf hefyd yn ymwybodol o fasnachu mewn plant yn fewnol yng Nghymru. Mae hynny hefyd yn annerbyniol, ac mae'n rhaid i rywun gymryd y cyfrifoldeb dros fonitro a helpu pobl ifanc a phobl hŷn sy'n cael eu masnachu, boed hynny ar gyfer caethwasiaeth neu ar gyfer y fasnach rhyw. Mae angen inni ddeall hynny. Rwy'n falch bod Bob Tooby yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent a Llywodraeth Cymru i geisio cydlynu hyn. Mae'n fan cychwyn, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf innau hefyd yn croesawu'r datganiad hwn yn fawr a'r gwaith mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn y maes hwn, yn arbennig y llwyddiant sydd wedi dilyn penodi'r cydlynydd. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith hwnnw'n parhau ac yn cael ei ddatblygu. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn llesol i Gymru yn gymdeithasol ac yn economaidd, ond, wrth gwrs, wrth greu ardal farchnad rydd a sicrhau bod hawl gan weithwyr i symud ynddi, gall problemau godi a gall arwain at sefyllfaoedd fel y rhai sydd wedi cael eu disgrifio gan amryw o Aelodau a'r Gweinidog yn barod, lle mae gweithwyr yn cael eu hecsbloetio a phobl yn cael eu trin mewn ffordd cwbl annerbyniol ac yn cael eu defnyddio. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod llawer o hyn yn digwydd o fewn cyfraith y Deyrnas Unedig a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd ac mai'r hyn sydd ei angen yw rheoleiddio llawer mwy trylwyr?

**Rhodri Glyn Thomas:** I also strongly welcome this statement and the work that the Government is doing in this area, particularly the success that has followed the appointment of the co-ordinator. We hope that that work will continue and will be developed. I am sure that the Minister would agree that membership of the European Union has been of benefit to Wales socially and economically, but, of course, in creating a free market area and ensuring that workers have freedom of movement, problems can arise and it can lead to situations such as those that have already been described by several Members and the Minister, whereby workers are exploited and people are treated in an entirely unacceptable way and are used. Would the Minister agree that much of this happens within UK law and EU law and that what is needed is much more thorough regulation?

Yn ei chynhadledd yn 2008, penderfynodd Plaid Cymru ar bolisi—rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn cofio'r holl bolisïau a fabwysiadwyd gennym yng nghynhadledd 2008—a oedd yn ymwneud â'r Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri. Mae'r gyfraith yn caniatáu i asiantaethau ddod â gweithwyr i mewn i'r wlad, ac yn aml rheolir hynny gan gangfeistri ac mae twyll sylweddol yn

In its conference in 2008, Plaid Cymru made a policy decision—I am sure that the Minister will recall all the policies that we adopted in the 2008 conference—in relation to the Gangmasters Licensing Authority. The law allows agencies to bring workers into the country, and that is often controlled by gangmasters and significant fraud takes place, as people are entirely misled about the

digwydd, wrth i bobl gael eu camarwain yn llwyr ynglŷn â'r amodau gwaith a llety a fydd yn cael eu cynnig iddynt. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn gyfarwydd gyda gwaith Shelter Cymru i amlygu nifer o achosion lle mae gweithwyr wedi cael eu trin yn wael iawn. A wnaiff y Gweinidog gytuno â'r polisi a fabwysiadwyd gan Blaid Cymru bod angen inni sefydlu presenoldeb gan yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rheoleiddio hwnnw yn digwydd yn llawer llymach ac er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu camarwain na'u cam-drin wrth gyrraedd Cymru i weithio?

working conditions and the accommodation that will be offered to them. I am sure that the Minister is familiar with Shelter Cymru's work highlighting a number of cases where workers have been treated very badly. Will the Minister agree with the policy adopted by Plaid Cymru that we need to establish a presence for the Gangmasters Licensing Authority in Wales in order to ensure that that regulation happens much more rigorously in order to ensure that people are not misled or abused when they arrive in Wales to work?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his comments. I remain unconvinced of the need for further legislation or regulation to be brought in. There is already a raft of legislation in place that supports the work to tackle the trafficking of children and people across the UK. I would suggest that that is not being effectively used, and part of that is about identification and recognition of the issues surrounding the hidden crime of trafficking. However, I will certainly keep a close eye on any issues that are raised with me that are preventing progression on this issue and that may be subject to new legislation or regulation, though an awful lot of that rests with the UK Government in Westminster.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Nid wyf yn argyhoeddedig o'r angen i gyflwyno deddfwriaeth neu reoliad pellach. Mae pentwr o ddeddfwriaeth eisoes ar waith sy'n helpu i fynd i'r afael â masnachu mewn plant a phobl ledled y DU. Awgrymaf nad ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol, a rhan o hynny yw nodi a chydnabod y materion sy'n ymwneud â'r drosedd gudd o fasnachu. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn cadw llygad barcud ar unrhyw faterion a godir gyda mi sy'n llesteirio gwaith yn y cyswllt hwn ac a allai fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth neu reoliadau newydd, er bod llawer iawn yn parhau i fod yn rhan o gyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn San Steffan.

Trafficking is a hidden crime. People do not believe that it happens on their doorstep. I recently visited a refuge in Wrexham, where I met several young people who had been trafficked. One young lady had been trafficked from Africa and had been sold on the premise that she would be supported in the UK to enhance her career opportunities in the hotel industry. She left her home and family in Africa, and her passage was paid for by some unscrupulous gangmasters, who brought her into Wales and used and abused her in the sex trade. She escaped and is now in a very different place, being supported in Wales. It was a real eye-opener. We think that this does not happen in Wales—in our communities and on our streets; well, it does. The reality of life is that we must do something about it. Whether that involves legislation, as was suggested by the Member, or whether that involves enforcing the

Mae masnachu mewn pobl yn drosedd gudd. Nid yw pobl yn credu ei fod yn digwydd ar garreg eu drws. Yn ddiweddar, ymwelais â lloches yn Wrecsam, lle cwrddais â nifer o bobl ifanc oedd wedi cael eu masnachu. Roedd un ferch ifanc wedi cael ei masnachu o Affrica ac wedi cael ei gwerthu ar y sail y byddai'n cael ei helpu yn y DU i wella ei chyfleoedd gyrfa yn y diwydiant gwestai. Gadawodd ei chartref a'i theulu yn Affrica, a thalwyd am ei thaith gan gangfeistri diegwyddor, a ddaeth â hi i Gymru a'i defnyddio a'i chamddefnyddio yn y fasnach rhyw. Mae hi wedi dianc ac mae bellach mewn lle gwahanol iawn, yn cael ei chynorthwyo yng Nghymru. Roedd hynny'n agoriad llygad go iawn. Nid ydym yn credu bod hyn yn digwydd yng Nghymru—yn ein cymunedau ac ar ein strydoedd; ond mae yn digwydd. Realiti bywyd yw bod yn rhaid inni wneud rhywbeth yn ei gylch. P'un a yw

legislation that is already in place, it is something that we need to do. I believe that our anti-human trafficking co-ordinator is in a good place to pursue that in Wales.

hynny’n cynnwys deddfwriaeth, fel awgrymodd yr Aelod, neu p’un a yw’n golygu gorfodi’r ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith, mae’n rhywbeth y mae angen inni ei wneud. Credaf fod ein cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â hynny yng Nghymru.

**Aled Roberts:** Minister, I also assure you of our support for your efforts. You referred to this being a hidden crime. Are you now content that police forces, even those in Wales, are being frank about the extent of the problem? In Wrexham, probably about two years ago, a junior officer indicated that the kind of cases to which you referred were going on, but senior officers were still claiming, to a large degree, that the matter was not a significant issue in north Wales. What was more frightening was a discussion at Joyce Watson’s cross-party group, where we were told that some of the figures that you quoted today were released as a result of freedom of information requests to those same police forces. Therefore, are you content that we have frankness on understanding the extent of this operation? We would also like you to address another point. We support your efforts to ensure that similar mechanisms exist within the other jurisdictions of the United Kingdom, but one of the other issues that has become readily apparent is the question of whether there is a lead agency dealing with this matter. The Association of Chief Police Officers in Nottingham deals with certain elements of the problem, and the UK Border Agency with others. There is a lack of co-ordination between different Government agencies in the UK that are dealing with the problem.

**Aled Roberts:** Weinidog, gallaf eich sicrhau fy mod yn cefnogi eich ymdrechion. Gwnaethoch gyfeirio at hyn fel trosedd gudd. A ydych yn awr yn fodlon bod heddluoedd, hyd yn oed y rhai yng Nghymru, yn onest am faint y broblem? Yn Wrecsam, tua dwy flynedd yn ôl mae’n siŵr, nododd is-swyddog fod y math o achosion y gwnaethoch gyfeirio atynt yn parhau i ddigwydd, ond roedd uwch swyddogion yn dal ihonni, i raddau helaeth, nad yw’n broblem arwyddocaol yn y gogledd. Beth oedd yn fwy brawychus oedd trafodaeth yng ngrŵp trawsbleidiol Joyce Watson, lle dywedwyd bod rhai o’r ffigurau a ddyfynnwyd gennych heddiw wedi cael eu rhyddhau o ganlyniad i geisiadau rhyddid gwybodaeth i’r union heddluoedd hynny. Felly, a ydych yn fodlon bod yr heddlu’n onest ynghylch eu dealltwriaeth o faint y broblem hon? Byddem hefyd yn hoffi i chi fynd i’r afael â phwynt arall. Rydym yn cefnogi eich ymdrechion i sicrhau bod trefniadau tebyg yn bodoli yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig, ond un mater arall sydd wedi dod i’r amlwg yw a oes asiantaeth arweiniol yn ymdrin â’r mater hwn. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn Nottingham yn ymdrin â rhai elfennau o’r broblem, ac mae Asiantaeth Ffiniau’r DU yn ymdrin ag eraill. Mae diffyg cydlynu rhwng gwahanol asiantaethau’r Llywodraeth yn y DU sy’n ymdrin â’r broblem.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. I can give him assurances that chief constables across Wales are fully aware of the Welsh Government’s commitment to tackling this crime. I believe that they share that aspiration. Training is training. As I said, 2,000 people are being trained across the public and voluntary sectors in Wales, which is 2,000 more than there was. There is much more to do in the recognition factor, but I am grateful for the work and support of Carmel Napier, the chief constable of Gwent Police,

**Carl Sargeant:** Diolch i’r Aelod am ei gyfraniad. Gallaf ei sicrhau bod prif gwnstabliaid ledled Cymru yn gwbl ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r drosedd hon. Credaf eu bod yn rhannu’r dyhead hwnnw. Hyfforddiant yw hyfforddiant. Fel y dywedais, mae 2,000 o bobl yn cael eu hyfforddi yn y sector cyhoeddus a’r sector gwirfoddol yng Nghymru, sef 2,000 yn fwy nag yr oedd. Mae llawer mwy i’w wneud o ran darganfod troseddau, ond rwyf yn

who leads on domestic abuse and violence against women for the UK. It is very useful to have her advice and policy interventions in Wales, and her support in that area.

ddiolchgar am waith a chymorth Carmel Napier, prif gwnstabl Heddlu Gwent, sy'n arwain ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod ar gyfer y DU. Mae'n ddefnyddiol iawn cael ei chyngor a'i hymyriadau polisi yng Nghymru, a'i chymorth yn y maes hwnnw.

The Member raised the very issue that compelled me to bring this to the floor today: the issue of non-joined-up thinking. Wales is leading the way in some areas, but it is certainly a Welsh element. We have to be able to ensure that good practice, wherever it is developed—Scotland, Ireland or England—is shared across the United Kingdom so that we can tackle the problem that affects the UK. Wales is playing a strong part in this, not only in the UK but also in Europe. However, this is about obtaining buy-in from all organisations, including us, to develop a better, joined-up strategy to take this forward. However, I think that it is doable, provided that there are willing partners from all administrations to take this forward.

Mae'r Aelod wedi codi'r union fater a wnaeth fy nghymell i gyflwyno'r mater hwn yma heddiw: diffyg meddwl cydgysylltiedig. Mae Cymru yn arwain y ffordd mewn rhai meysydd, ond mae'n sicr yn elfen Gymreig. Mae'n rhaid inni allu sicrhau bod arfer da, lle bynnag y caiff ei ddatblygu—yr Alban, Iwerddon neu Loegr—yn cael ei rannu ledled y Deyrnas Unedig fel y gallwn fynd i'r afael â'r broblem sy'n effeithio ar y DU. Mae Cymru yn chwarae rhan gref yn hyn, nid yn unig yn y DU ond hefyd yn Ewrop. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â chael cefnogaeth pob sefydliad, gan gynnwys ein sefydliad ni, i ddatblygu gwell strategaeth gydgysylltiedig i fwrw ymlaen â hyn. Fodd bynnag, credaf fod modd ei wneud, ar yr amod bod partneriaid o bob gweinyddiaeth sy'n barod i symud hyn ymlaen.

3.00 p.m.

**The Presiding Officer:** We have had speakers from each of the parties, and they have covered a very wide range of questions and made some excellent contributions. I ask the remaining speakers to try to cover areas that have not already been covered, if they can.

**Y Llywydd:** Rydym wedi clywed siaradwyr o bob un o'r pleidiau, ac maent wedi ymdrin ag ystod eang iawn o gwestiynau ac wedi gwneud rhai cyfraniadau rhagorol. Gofynnaf i'r siaradwyr eraill geisio ymdrin â meysydd nad ydynt wedi cael eu trafod eisoes, os oes modd.

**Janet Finch-Saunders:** I, too, endorse your previous efforts in this regard, Minister. It is fair to say that you have done some tremendous work with your colleagues. It is fairly obvious that we on these benches support you in your efforts.

**Janet Finch-Saunders:** Rwyf innau yn cymeradwyo eich ymdrechion blaenorol yn hyn o beth, Weinidog. Mae'n deg dweud eich bod wedi gwneud gwaith aruthrol gyda'ch cydweithwyr. Mae'n weddol amlwg ein bod ni ar y meinciau hyn yn eich cefnogi yn eich ymdrechion.

The concern that I have is about empowering people to come forward when they are victims of this horrendous and brutal crime. The Black Association of Women Step Out Ltd has highlighted the fact that victims are reluctant to come forward because of the fear of blame or shame and the stress of relating their experiences. One example was that a person felt much safer in jail, as, when she

Mae'r pryder sydd gennyf i yn ymwneud â grymuso pobl i roi gwybod pan fyddant yn dioddef y drosedd erchyll a chreulon hon. Mae Black Association of Women Step Out Cyf wedi tynnu sylw at y ffaith bod dioddefwyr yn amharod i roi gwybod am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt oherwydd bod arnynt ofn cael eu beio neu eu cywilyddio, ac oherwydd y straen y bydd sôn

was brought into custody, it was the first time in a long time that she had not been forced to have sex. BAWSO refuges have accommodation for up to three women in north Wales and up to five women in south Wales. My concerns are about the Olympics, because there is evidence that international events of this magnitude fundamentally increase trafficking activity. How confident are you that we will have sufficient refuge places for those who come forward, and how can we build awareness, perhaps through our schools and in other areas where we need to reach out?

am eu profiadau yn ei achosi iddynt. Un enghraifft oedd bod person yn teimlo'n llawer mwy diogel yn y carchar, oherwydd pan aethpwyd â hi i'r ddalfa, dyna oedd y tro cyntaf ers amser hir nad oedd wedi cael ei gorfodi i gael rhyw. Mae gan lochesau BAWSO le ar gyfer hyd at dair o fenywod yn y gogledd a hyd at bump o fenywod yn y de. Mae fy mhryderon yn ymwneud â'r Gemau Olympaidd, gan fod tystiolaeth bod digwyddiadau rhyngwladol o'r maint hwn yn sylfaenol gynyddu faint o fasnachu sy'n digwydd. Pa mor ffyddiog yr ydych chi y bydd gennym ddigon o leoedd lloches ar gyfer y rhai sy'n rhoi gwybod am drosedd, a sut y gallwn greu ymwybyddiaeth, efallai drwy ein hysgolion ac mewn meysydd eraill y mae angen inni ymgysylltu â hwy?

Some of the statistics are quite frightening: the UK Human Trafficking Centre recorded 1,481 referrals. These referrals were of people of 88 different nationalities, so, again, how do you put that into the mix and work across that sort of cultural divide so that everyone feels that they can come forward and so that, when they do, we can support them and take the most positive way forward?

Mae rhai o'r ystadegau yn eithaf brawychus: cofnododd Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU 1,481 o atgyfeiriadau. Roedd yr atgyfeiriadau hyn yn cynnwys pobl o 88 cenedl wahanol. Felly, unwaith eto, sut yr ydych chi'n cynnwys hynny yn y cymysgedd ac yn gweithio ar draws y math hwnnw o raniad diwylliannol fel bod pawb yn teimlo y gallant roi gwybod am drosedd, ac fel y gallwn eu cefnogi pan fyddant yn gwneud hynny a dilyn y trywydd mwyaf cadarnhaol ymlaen?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her comments. I am familiar with BAWSO and the empowerment projects that it runs. It would be fair to say that I have concerns about capacity in relation to the pressures that the Olympics may or may not bring in terms of expectations of additional trafficking.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Rwyf yn gyfarwydd â BAWSO a'r prosiectau grymuso y mae'n eu gweithredu. Byddai'n deg dweud bod gennyf bryderon am gapasiti mewn perthynas â'r pwysau y gallai'r Gemau Olympaidd eu creu, neu beidio, o ran disgwyliadau y bydd mwy o fasnachu yn digwydd.

There are two points that I would like to address in relation to the issues that the Member raised. The bravery of people who take the first step to make a phone call or walk through a door to tell somebody that they have been trafficked or abused in any way is very humbling. The issues around blame or shame are just the tip of the iceberg; I know of people whose lives have been threatened if they tell. Let me be very clear: the Welsh Government and other organisations will stand by them. Contact numbers are available for people to call in confidence, and we will fully support

Mae dau bwynt yr hoffwn roi sylw iddynt mewn perthynas â'r materion y soniodd yr Aelod amdanynt. Mae dewrder y bobl sy'n cymryd y cam cyntaf o wneud galwad ffôn neu o gerdded drwy ddrws i ddweud wrth rywun eu bod wedi cael eu masnachu neu eu cam-drin mewn unrhyw ffordd yn peri i rywun fod yn ostyngedig. Dim ond crafu'r wyneb y mae'r materion ynghylch bai neu gywilydd; rwy'n gwybod am bobl y bygythwyd eu bywydau pe baent yn dweud. Gadewch imi fod yn glir iawn: bydd Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn sefyll eu cornel. Mae rhifau cyswllt ar gael

anybody who makes that call.

fel y gall pobl alw yn gyfrinachol, a byddwn yn cefnogi'n llawn unrhyw un sy'n gwneud yr alwad.

The second point that I would briefly mention is that, in this debate and in communication about the hidden aspects of trafficking and the things that 'never happen at home'—domestic abuse and violence—these are things that we must talk about, because they really do happen. I am placing on record today a message that we must all share: Wales, and the UK, must be a hostile place for trafficking, whether during the Olympics or in the future. I welcome the cross-party support that we have for that message in the Chamber. We must roll that out beyond Wales, and across the UK.

Yr ail bwynt y byddwn yn sôn amdano'n gryno yw: yn y ddadl ac wrth gyfathrebu am agweddau cudd masnachu a'r pethau 'nad ydynt yn digwydd gartref'—sef cam-drin a thrais domestig—mae'n rhaid inni sôn am y pethau hyn, oherwydd eu bod yn wir yn digwydd. Hoffwn gofnodi heddiw y neges y mae angen inni i gyd ei rhannu: rhaid i Gymru, a'r DU, fod yn lle sy'n elyn i fasnachu mewn pobl, boed hynny yn ystod y Gemau Olympaidd neu yn y dyfodol. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i'r neges honno yn y Siambr. Mae'n rhaid inni fynd â hynny y tu hwnt i Gymru, a ledled y DU.

**Darren Millar:** I pay tribute to the Minister for his efforts to tackle human trafficking in Wales, and I commend Joyce Watson on her work on this particular issue. It is one of the few issues that unite people across this Chamber; we are united in wanting to address this problem. It is effectively about modern-day slavery and bringing that slave trade to an end in Wales.

**Darren Millar:** Hoffwn dalu teyrnged i'r Gweinidog am ei ymdrechion i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl yng Nghymru, a chymeradwyaf Joyce Watson am ei gwaith ar y mater penodol hwn. Mae'n un o'r ychydig faterion sy'n uno pobl ar draws y Siambr; rydym yn unfryd ein hawydd i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae'n ymwneud i bob pwrpas â chaethwasiaeth yr oes fodern a dod â'r fasnach gaethweision honno i ben yng Nghymru.

I have some very specific points to make, Minister. You will be aware that the cross-party group on faith has taken an interest in this particular issue. Indeed, you attended a meeting of the cross-party group on faith late last year at which the International Justice Mission was present. The International Justice Mission is doing excellent work in trying to bring the perpetrators of these crimes to justice, no matter where they are in the world. The Wales for Africa programme is working in sub-Saharan Africa, in some of the countries in which the International Justice Mission is also present. I wonder what work is being done through the Wales for Africa programme to stem the trafficking of children and other people, whether that is for slavery or domestic purposes, to the United Kingdom from those sub-Saharan African countries and whether you might be able to work more closely and collaboratively with organisations such as the International Justice Mission.

Mae gennyf rai pwyntiau penodol iawn i'w gwneud, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod y grŵp trawsbleidiol ar ffydd wedi cymryd diddordeb yn y mater penodol hwn. Yn wir, buoch mewn cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol ar ffydd yn hwyr y llynedd lle yr oedd y Genhadaeth Gyfiawnder Ryngwladol yn bresennol. Mae'r Genhadaeth Gyfiawnder Ryngwladol yn gwneud gwaith ardderchog o geisio dod â'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn o flaen eu gwell, ni waeth ble y maent yn y byd. Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn gweithio yn Affrica Is-Sahara, yn rhai o'r gwledydd lle y mae'r Genhadaeth Gyfiawnder Ryngwladol hefyd yn bresennol. Tybed pa waith sy'n cael ei wneud drwy raglen Cymru o Blaid Affrica i atal y masnachu mewn plant a phobl eraill, boed hynny ar gyfer caethwasiaeth neu ddibenion domestig, pan ddeuir â nhw i'r Deyrnas Unedig o'r gwledydd hynny yn Affrica Is-Sahara? Tybed a allech weithio'n agosach ac yn fwy cydweithrediadol efallai

gyda sefydliadau fel y Genhadaeth Gyfiawnder Ryngwladol?

Minister, you have talked a lot about collaboration across the public sector. It is right that that is where the focus of your efforts should be initially and there needs to be much wider engagement across the United Kingdom and within the EU on these issues. However, I wonder what work you are undertaking to engage with faith groups across Wales. They, very often, will come across people from very different cultural backgrounds who may be turning a blind eye to these sorts of crimes in their communities and who may not know what to do when they are aware of a problem occurring. I wonder whether that is one part of the programme that may need an improved emphasis in the future.

Weinidog, rydych wedi siarad gryn dipyn am gydweithredu ar draws y sector cyhoeddus. Mae'n iawn mai dyna lle y dylid canolbwyntio eich ymdrechion i ddechrau, ac mae angen ymgysylltu'n llawer mwy eang ledled y Deyrnas Unedig ac o fewn yr UE ar y materion hyn. Fodd bynnag, tybed pa waith yr ydych yn ei gyflawni i ymgysylltu â grwpiau ffydd ledled Cymru? Maent yn aml iawn yn dod ar draws pobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol iawn a allai fod yn anwybyddu'r mathau hyn o droseddau yn eu cymunedau, ac nad ydynt efallai yn gwybod beth i'w wneud pan fyddant yn gwybod bod problem yn digwydd. Tybed a yw hynny'n un rhan o'r rhaglen y bydd angen rhoi gwell pwyslais arni yn y dyfodol?

Finally, I have a question on prosecutions. Unfortunately, as you will undoubtedly be aware, sometimes these cases can be complex, certainly if the perpetrators or part of the process is abroad or overseas. What work is being done—working alongside the UK Government, of course—to ensure that, when cases of trafficking are identified, there are prosecutions and severe penalties to ensure that those perpetrators are brought to justice?

Yn olaf, mae gennyf gwestiwn am erlyniadau. Yn anffodus, fel y byddwch yn sicr yn gwybod, gall yr achosion hyn fod yn gymhleth weithiau, yn sicr os yw'r troseddwyr dramor neu os yw rhan o'r broses dramor. Pa waith sy'n cael ei wneud—drwy weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, wrth gwrs—i sicrhau, pan fo achosion o fasnachu yn cael eu nodi, bod erlyniadau a chosbau llym fel bod y troseddwyr hynny'n cael eu dwyn o flaen eu gwell?

**Carl Sargeant:** There were three important points there. I thank the Member for his contribution. I remember attending the faith forum at the Assembly and the work that is being pursued by the International Justice Mission. I am very supportive of that work. There are many groups across the globe that are trying to tackle the issue of trafficking. Again, I have asked my team to look at how we can get involved. Collective responsibility and collective action will work better than us working in isolation, because a silo mentality often creates gaps that these traffickers will use and exploit for their own benefit. Therefore, I am happy to do more work on the international element of this, while recognising the respective jurisdictions of the Welsh and UK Governments.

**Carl Sargeant:** Gwnaethoch dri phwynt pwysig. Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Rwy'n cofio mynd i'r fforwm ffydd yn y Cynulliad a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan y Genhadaeth Gyfiawnder Rhyngwladol. Rwy'n gefnogol iawn i'r gwaith hwnnw. Mae llawer o grwpiau ar draws y byd sy'n ceisio mynd i'r afael â masnachu. Unwaith eto, rwyf wedi gofyn i fy nhîm edrych ar sut y gallwn gymryd rhan. Bydd sicrhau ein bod i gyd yn cymryd cyfrifoldeb ac yn gweithredu ar y cyd yn gweithio'n well na phe baem yn gweithio ar wahân, oherwydd mae meddylfryd seilo yn aml yn creu bylchau y mae'r masnachwyr hyn yn eu defnyddio ac yn manteisio arnynt er eu budd eu hunain. Felly, rwy'n fodlon gwneud mwy o waith ar elfen ryngwladol y mater hwn, gan gydnabod awdurdodaethau priodol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

In terms of support and identification, as I

O ran cefnogi a chanfod, fel y soniais yn

mentioned earlier, we have done lots of work in the public sector around training the police and those in the criminal justice system. It is important that we have that, but you are right that many victims of trafficking do not present themselves at council offices or police stations. They often talk to the church pastor, community groups or soup kitchens. Working with the voluntary sector, we have to tie that in. We are working with Welsh Women's Aid and other organisations that are in touch with the grass-roots element of support for victims at the front line.

gynharach, rydym wedi gwneud llawer o waith yn y sector cyhoeddus ynghylch hyfforddi'r heddlu a'r rheini sydd yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'n bwysig bod gennym y gwaith hwnnw, ond rydych yn iawn nad yw llawer o ddioddefwyr masnachu yn cyflwyno'u hunain mewn swyddfeydd cyngor neu orsafoedd heddlu. Maent yn aml yn siarad â'r gweinidog yn yr eglwys, neu grwpiau cymunedol neu geginau cawl. Drwy weithio gyda'r sector gwirfoddol, mae'n rhaid inni sicrhau bod hynny'n rhan o'r broses. Rydym yn gweithio gyda Cymorth i Fenywod a sefydliadau eraill sydd mewn cyswllt â'r elfen llawr gwlad o'r gefnogaeth i ddioddefwyr yn y rheng flaen.

The issues around prosecution also concern me. I met the Crown Prosecution Service this week and discussed various issues, including domestic abuse and trafficking and how we can strengthen our response. Again, understanding the scale of the problem is an issue, but I am pleased to say that we are working closely with the CPS. Often, the traffickers are at arm's length and they are the ones who benefit financially from this. It is the fastest-growing profitable underground crime, outstripping drugs crime completely. It is about the trafficking of people in a twenty-first century environment. Slavery is not appropriate. It was not appropriate before and it certainly is not now. We must work collectively against it and do everything that we can with all the agencies to combat this issue.

Mae'r materion sy'n ymwneud ag erlyniad hefyd yn peri pryder imi. Cyfarfûm â Gwasanaeth Erlyn y Goron yr wythnos hon a buom yn trafod materion amrywiol, gan gynnwys cam-drin domestig a masnachu mewn pobl, a sut y gallwn gryfhau ein hymateb. Unwaith eto, mae'n anodd deall maint y broblem, ond rwy'n falch o ddweud ein bod yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron. Yn aml, mae'r rheini sy'n masnachu mewn pobl ar hyd braich, a nhw yw'r rhai sy'n elwa'n ariannol ohono. Hon yw'r drosedd gudd broffidiol sy'n tyfu gyflymaf, gan fod ymhell ar y blaen o'i chymharu â throseddau cyffuriau. Mae hyn yn ymwneud â masnachu mewn pobl yn yr unfed ganrif ar hugain. Nid yw caethwasiaeth yn dderbyniol. Nid oedd yn dderbyniol o'r blaen, ac yn sicr nid yw'n dderbyniol yn awr. Mae'n rhaid inni weithio ar y cyd yn ei erbyn, a gwneud popeth o fewn ein gallu gyda'r holl asiantaethau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Byron Davies:** Minister, I congratulate you and welcome today's announcements. I want to make a brief contribution and ask you a particular question on something in addition to what you have announced. I was involved myself, based in eastern Europe, specifically in implementing systems through projects on a pre-accession basis for candidate countries to assist with countering organised crime, and people trafficking in particular, so I realise how important this is. It is a heinous crime. While there is a real need to provide succour and relief for victims in Wales, and there is an absolute need to identify and prosecute the

**Byron Davies:** Weinidog, rwyf yn eich llongyfarch ac yn croesawu'r cyhoeddiadau heddiw. Rwyf am wneud cyfraniad byr a gofyn cwestiwn penodol ichi am rywbeth sy'n ychwanegol at yr hyn yr ydych wedi ei gyhoeddi. Roeddwn innau'n ymwneud â hyn, gan weithio o ddwyrain Ewrop, yn benodol wrth roi systemau ar waith drwy brosiectau ar gyfer gwledydd a oedd yn gwneud cais, er mwyn cynorthwyo gydag atal troseddu cyfundrefnol a masnachu mewn pobl yn arbennig. Felly, rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw hyn. Mae'n drosedd erchyll. Er bod gwir angen darparu cymorth a rhyddhad i

criminals and provide victims with a safe return to their native countries, this is a very difficult crime that goes beyond constabulary boundaries, and, in fact, goes beyond international boundaries. It is on that basis that I would like to ask you about a vital ingredient here that is a striking component in the fight against people trafficking and which is often overlooked. It is a simple thing, which is that Governments must engage on a far wider basis, and, in particular, I would ask you if you would engage with our European partners through the Foreign and Commonwealth Office, perhaps, to stimulate an education process and investment in the countries from which these young people come. Unless we tackle this at grass-roots level, these people—we might call them economic migrants, or whatever you wish—will come seeking their fortunes and get involved in the sex industry, and we all know the consequences: prostitution and paedophilia. I implore you to engage with our European partners to try to put an education process in place here.

ddioddefwyr yng Nghymru, a bod angen, yn ddiamod, adnabod y troseddwyr a'u herlyn ynghyd â galluogi dioddefwyr i ddychwelyd yn ddiogel i'w gwledydd brodorol, mae hon yn drosedd anodd iawn sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau heddluoedd; yn wir, mae'n mynd y tu hwnt i ffiniau rhyngwladol. Ar y sail honno, hoffwn ofyn ichi am elfen hanfodol yng nghyswllt hyn, sy'n rhan drawiadol o'r frwydr yn erbyn masnachu mewn pobl, ac sy'n cael ei hanwybyddu'n aml. Mae'n beth syml, sef bod yn rhaid i Lywodraethau ymgysylltu'n llawer ehangach; yn benodol, byddwn yn gofyn ichi a fyddech yn ymgysylltu â'n partneriaid Ewropeaidd drwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, efallai, i ysgogi proses addysg a buddsoddiad yn y gwledydd o ble y mae'r bobl ifanc hyn yn dod. Oni fyddwn yn mynd i'r afael â hyn ar lawr gwlad, bydd y bobl hyn—efallai y byddwn yn eu galw yn ymfudwyr economaidd, neu beth bynnag y dymunwch—yn dod yma i geisio llwyddo a byddant yn dechrau ymwneud â'r diwydiant rhyw, ac rydym i gyd yn gwybod am ganlyniadau hynny: puteindra a phedoffilia. Rwy'n pwyso arnoch i ymgysylltu â'n partneriaid Ewropeaidd i geisio rhoi proses addysg ar waith yma.

**Carl Sargeant:** The Member raises the important issue of education, and everybody is saying the same thing, whether at a Wales, UK or European level, or across the globe. What we have done in Wales—and I have been proud to work with my ministerial colleagues across Cabinet with collective responsibility around this—is to look at how we move to the next level. We have introduced the anti-human-trafficking co-ordinator to understand the scale of the problems that we face in Wales, and that is a building block. As I say, I have written to Ministers of all the UK administrations about going to the next level in terms of engagement and a cohesive policy for the UK element of this. I am very keen to move to the next level in Europe and to articulate how we do that through a European Union element of support against human trafficking. Beyond that, we can standardise the policy on education and information. It is a starting point for us, as I said, and there is a lot more work to be done, but I welcome the Member's knowledge on this, and anything

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater pwysig addysg, ac mae pawb yn dweud yr un peth, boed ar lefel Cymru, y DU neu Ewrop, neu ledled y byd. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yng Nghymru—ac rwyf wedi bod yn falch o weithio gyda fy nghydweithwyr, y Gweinidogion ar draws y Cabinet, gan rannu cyfrifoldeb yn y cyswllt hwn—yw edrych ar sut y byddwn yn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Rydym wedi cyflwyno'r cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl er mwyn deall maint y problemau sy'n ein hwynebu yng Nghymru, ac mae hynny'n gonglfaen. Fel y dywedais, rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion ym mhob un o weinyddiaethau'r DU ynghylch mynd i'r lefel nesaf o ran ymgysylltu a chael polisi cydlynol ar gyfer elfen y DU yn hyn o beth. Rwy'n awyddus iawn i symud ymlaen i'r lefel nesaf yn Ewrop ac i fynegi sut yr ydym yn gwneud hynny drwy elfen o gefnogaeth gan yr Undeb Ewropeaidd yn erbyn y fasnach mewn pobl. Y tu hwnt i hynny, gallwn safoni'r polisi ar addysg a gwybodaeth. Mae'n fan cychwyn i ni, fel y dywedais, ac

that he and his group can do to support me in taking the message beyond this Chamber will be warmly welcomed.

mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd, ond rwy'n croesawu gwybodaeth yr Aelod am hyn. Bydd unrhyw beth y gall ef a'i grŵp ei wneud i fy nghefnogi wrth fynd â'r neges y tu hwnt i'r Siambr yn cael ei groesawu'n fawr.

## Datganiad: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
## Statement: International Women's Day

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Each year around the world, International Women's Day is celebrated on 8 March. Thousands of events occur not just on this day but throughout March to mark the economic, political and social achievements of women. For the women of the world, International Women's Day is symbolic for many reasons. It is an occasion to review how far they have come in their struggle for equality, peace and development, and it is also an opportunity to unite, communicate and mobilise for meaningful change.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Bob blwyddyn, ledled y byd, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cael ei ddathlu ar 8 Mawrth. Mae miloedd o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal, nid yn unig ar y diwrnod hwn ond drwy gydol mis Mawrth, i ddathlu llwyddiannau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol menywod. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn symbol i fenywod y byd am nifer o resymau. Mae'n achlysur pan ellir ystyried pa mor bell y maent wedi dod yn eu hymdrech i sicrhau cydraddoldeb, heddwch a datblygiad, ac mae hefyd yn gyfle i uno, i gyfathrebu ac i weithredu er mwyn cyflawni newid ystyrlon.

The first International Women's Day events were held in March 1911. Women and men came together to discuss the need for women to have basic rights afforded to them: the right to vote, the right to work, the right to speak out in public and the right to earn an equal wage. When women on all continents, often divided by national boundaries and by ethnic, linguistic, cultural, economic and political differences, come together to celebrate International Women's Day now, they can look back to a tradition that represents decades of struggle for equality, justice, peace and development.

Cynhaliwyd y digwyddiadau cyntaf ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth 1911. Daeth menywod a dynion at ei gilydd i drafod yr angen i roi hawliau sylfaenol i fenywod: yr hawl i bleidleisio, yr hawl i weithio, yr hawl i fynegi barn yn gyhoeddus a'r hawl i ennill cyflog cyfartal. Pan fydd merched ar bob cyfandir, sydd yn aml wedi'u rhannu gan ffiniau cenedlaethol a gwahaniaethau ethnig, ieithyddol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol, yn dod ynghyd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn awr, gallant edrych yn ôl ar draddodiad sy'n cynnwys degawdau o ymdrechion i sicrhau cydraddoldeb, cyfiawnder, heddwch a datblygiad.

In some places, such as China, Russia, Vietnam and Bulgaria, International Women's Day is a national holiday. This day celebrates the achievements of women's political action in the world, acknowledging their campaigns for women's rights. However, it is also an opportunity for women and men to unite to communicate and mobilise for meaningful change. This day promotes the importance of gender equality and women's empowerment, and highlights

Mewn rhai mannau, fel Tsieina, Rwsia, Fietnam a Bwlgaria, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn ŵyl genedlaethol. Mae'r diwrnod yn dathlu'r hyn y mae gweithredu gwleidyddol gan fenywod wedi'i gyflawni yn y byd, gan gydnabod eu hymgyrchoedd dros hawliau menywod. Fodd bynnag, mae hefyd yn gyfle i fenywod a dynion uno i gyfathrebu ac i weithredu er mwyn cyflawni newid ystyrlon. Mae'r diwrnod yn hyrwyddo pwysigrwydd

the very real issues still facing women across the world.

cydraddoldeb rhyw a grymuso menywod, ac yn amlygu'r materion gwirioneddol sy'n dal i wynebu menywod ledled y byd.

3.15 p.m.

On that note, I was pleased to meet a British Council-supported international delegation of women from Libya and Jordan last week to hear at first hand the challenging issues facing women in these countries, and to share with them what we are doing here in Wales. While many rights have now been afforded to women, International Women's Day allows us to reflect on the fact that there are still many women across the world who are not legally allowed to own land, who are not permitted to work in certain jobs and who experience violence at home every day.

Ar y nodyn hwnnw, roeddwn yn falch o gyfarfod dirprwyaeth ryngwladol o fenywod o Libya a Gwlad yr Iorddonen, a gefnogwyd gan y Cyngor Prydeinig, yr wythnos diwethaf i glywed o lygad y ffynnon am y materion heriol sy'n wynebu menywod yn y gwledydd hyn, ac i rannu â nhw yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru. Er bod llawer o hawliau bellach wedi cael eu rhoi i fenywod, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle i gofio'r ffaith fod llawer o fenywod ar draws y byd sydd yn dal i fod heb hawl cyfreithiol i fod yn berchen ar dir, nad ydynt yn cael gweithio mewn swyddi penodol ac sy'n dioddef trais yn y cartref bob dydd.

The theme for International Women's Day 2012 in Wales is 'women and men united to end domestic abuse and violence against women'. We chose this important theme as this Government is committed to tackling this issue, which can be clearly seen in our programme for government commitments. Carl Sargeant has just made a powerful statement outlining the work of the anti-human trafficking co-ordinator—the first appointment of its kind in the UK—and our violence against women strategy will also pave the way for future developments, such as a Bill on violence against women and domestic abuse. There is also our pledge to make 10,000 lives safer and our ongoing commitment to challenge the stereotypes that can perpetuate violence against women. There are many other themes across the world for International Women's Day 2012, including UN Women's theme 'empower rural women—end hunger and poverty', as well as the theme of 'connecting girls and inspiring futures'.

Thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012 yng Nghymru yw 'menywod a dynion yn uno i roi terfyn ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod'. Rydym wedi dewis y thema bwysig hon gan fod y Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater hwn, sydd i'w weld yn glir yn yr ymrwymiadau yn ein rhaglen lywodraethu. Mae Carl Sargeant newydd wneud datganiad grymus sy'n amlinellu gwaith y cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl—y penodiad cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig—a bydd ein strategaeth trais yn erbyn menywod hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, fel Bil ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae gennym ymrwymiad hefyd i wneud 10,000 o fywydau yn fwy diogel a'n hymrwymiad parhaus i herio'r stereoteipiau a all dragwyddoli trais yn erbyn menywod. Mae sawl thema arall ar draws y byd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012, gan gynnwys thema Merched y Cenhedloedd Unedig 'grymuso menywod gwledig—rhoi terfyn ar newyn a thlodi', yn ogystal â'r thema 'cysylltu merched ac ysbrydoli'r dyfodol'.

I have met some very inspirational young women and girls over the past few months, including Jessica Jones, a student at St David's Catholic College who was recently named Welsh Young Engineer of the Year, as

Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi cwrdd â menywod ifanc ysbrydoledig iawn, gan gynnwys Jessica Jones, myfyrwraig yng Ngholeg Catholig Dewi Sant, a enwyd yn ddiweddar yn Beiriannydd Ifanc y Flwyddyn

well as 30 year 9 female students at the Saturday Discover! club at Cardiff University, which is a fantastic way of inspiring and encouraging young women into engineering and science. It is also a made-in-Wales initiative, with no equivalent anywhere else in the UK. International Women's Day gives us an opportunity to challenge stereotypes and accepted norms and to encourage girls to aspire to the careers in which they are genuinely interested and have an important contribution to make.

Cymru, yn ogystal â 30 o ddisgyblion benywaidd blwyddyn 9 yng nghlwb Discover! ym Mhrifysgol Caerdydd ar ddydd Sadwrn, sy'n ffordd wych o ysbrydoli ac annog menywod ifanc i mewn i faes peirianneg a gwyddoniaeth. Mae hefyd yn fenter a ddechreuwyd yng Nghymru, heb unrhyw gynllun cyfatebol yn unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn rhoi cyfle i ni herio'r stereoteipiau a'r normau derbyniol ac i annog merched i anelu am y gyrfaoedd y mae ganddynt diddordeb gwirioneddol ynddynt a gyrfaoedd y mae ganddynt gyfraniad pwysig i wneud iddynt.

I recently announced funding for International Women's Day events taking place on or around 8 March. Over £30,000 was awarded to 16 diverse organisations across Wales, including Arts Alive Wales, an arts project catering for women with learning disabilities in Abergavenny, and NIACE Dysgu Cymru, which is working to empower women through learning. I am pleased that representatives of many of the organisations that are in receipt of funding are here today, and I am also delighted that I will be visiting and speaking at many of these events this week and this year to celebrate their achievements. It is not just on International Women's Day, but all year round, that many of these organisations and individuals work tirelessly to highlight the many issues facing women in Wales and to support gender equality.

Yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid ar gyfer digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod sy'n cael eu cynnal ar, neu o gwmpas, 8 Mawrth. Cafodd dros £30,000 ei ddyfarnu i 16 o sefydliadau amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys Arts Alive Wales, sef prosiect celfyddydol i fenywod sydd ag anableddau dysgu yn y Fenni, a NIACE Dysgu Cymru, sy'n gweithio i roi grym i fenywod drwy ddysgu. Rwy'n falch bod cynrychiolwyr o nifer o'r sefydliadau sydd yn derbyn cyllid yma heddiw, ac rwyf hefyd yn falch iawn y byddaf yn ymweld â llawer o'r digwyddiadau hyn, ac yn siarad ynddynt, yr wythnos hon ac eleni i ddathlu eu cyflawniadau. Nid ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yn unig y mae llawer o'r sefydliadau a'r unigolion hyn yn gweithio'n ddiflino i dynnu sylw at y materion sy'n wynebu llawer o fenywod yng Nghymru ac i gefnogi cydraddoldeb rhyw, ond drwy gydol y flwyddyn.

Through funding initiatives to celebrate International Women's Day, the Welsh Government is showing its commitment to promoting equality of opportunity and to eradicating discrimination in all its forms. To ensure that this Government continues to be aware of the many issues facing women across Wales, funding has been awarded for an all-Wales women's network—WENWales—which is also represented here today. The network is working to ensure that women's voices are reaching policy makers and that the voices, views, needs and issues facing women in Wales are reflected in Welsh policy and decision making. The network will be working with women across

Drwy ariannu mentrau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, mae Llywodraeth Cymru yn dangos ei hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ddileu gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau. Er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn parhau i fod yn ymwybodol o'r materion niferus sy'n wynebu menywod ar draws Cymru, mae arian wedi cael ei ddyfarnu ar gyfer sefydlu rhwydwaith fenywod Cymru-gyfan—WENWales—sydd â chynrychiolaeth yma heddiw hefyd. Mae'r rhwydwaith yn gweithio i sicrhau bod lleisiau menywod yn cael eu clywed gan lunwyr polisi a bod lleisiau, barn, anghenion a materion menywod yng Nghymru yn cael eu

Wales in taking forward some of our programme for government commitments, including working with the Equality and Human Rights Commission and other expert groups to ensure that at least 40% of appointments to public bodies in Wales are women. It is also working closely with projects such as Chwarae Teg's Agile Nation and the National Federation of Women's Institutes Women Making a Difference project to understand and address some of the barriers that prevent women in Wales from aiming to enter work and public life.

hadlewyrchu ym mholisi a phenderfyniadau Cymru. Bydd y rhwydwaith yn gweithio gyda menywod ar draws Cymru wrth fwrw ymlaen â pheth o'n rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth, gan gynnwys gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a grwpiau arbenigol eraill i sicrhau bod o leiaf 40% o benodiadau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn fenywod. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda phrosiectau fel prosiect Cenedl Hyblyg Chwarae Teg a phrosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched er mwyn deall a mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n atal menywod yng Nghymru rhag anelu at fod yn rhan o'r byd gwaith a bywyd cyhoeddus.

We are, of course, aware of many of the barriers facing women. We know that women are under-represented at many levels in the workplace and public life, and that Wales remains a country where those taking the big decisions that impact on all of our lives are still overwhelmingly men. The Welsh Government has given a commitment to seek to address this, and WENWales and other organisations and many individuals have worked with us to ensure that we are aware of the issues facing women in Wales. Our draft outcome-focused equality objectives are based on the robust evidence that Welsh public bodies, including the Welsh Government, have gathered. We will be publishing the Welsh Government strategic equality plan on 2 April. We will then need to continue to engage, monitor and review whether our equality objectives are bringing about real change.

Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol o lawer o'r rhwystrau sy'n wynebu menywod. Gwyddom fod menywod yn cael eu tangynrychioli ar sawl lefel yn y gweithle ac mewn bywyd cyhoeddus, a bod Cymru'n parhau i fod yn wlad lle mae mwyafrif y bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar fywydau pob un ohonom, yn dal i fod yn ddynion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i geisio mynd i'r afael â hyn, ac mae WENWales a sefydliadau eraill a llawer o unigolion wedi gweithio gyda ni er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r materion sy'n wynebu menywod yng Nghymru. Mae ein hamcanion cydraddoldeb drafft, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn mae cyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi'i chasglu. Byddwn yn cyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru ar 2 Ebrill. Yna bydd angen i ni barhau i ymgysylltu, monitro ac adolygu a yw ein hamcanion cydraddoldeb yn creu newid gwirioneddol.

Wales is leading the way; our duties are targeted at addressing the root causes of discrimination and providing a renewed impetus to deal with long-standing issues in equalities, such as equal pay. There are many other ways that we ensure that the decisions that we make as a Government are fair and balanced. In undertaking an equality impact assessment as part of the annual Welsh Government budget-making process, the Government is ensuring that equality, inclusion and human rights are mainstreamed

Mae Cymru'n arwain y ffordd; mae ein dyletswyddau'n canolbwyntio ar dargedu'r prif achosion o wahaniaethu a darparu hwb o'r newydd i ddelio â phroblemau hirsefydlog mewn cydraddoldeb, er enghraifft cyflog cyfartal. Mae sawl ffordd arall yr ydym yn sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn fel Llywodraeth yn deg ac yn gytbwys. Wrth gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb fel rhan o broses gyllidebu flynyddol Llywodraeth Cymru, mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod cydraddoldeb, cynhwysiad a

into policy and delivery. By understanding the impact financial decisions may have on women and others in Wales, we can take effective action to ensure that women and their many roles are considered and necessary changes made.

hawliau dynol yn cael eu prif-ffrydio i mewn i bolisi a darpariaeth. Drwy ddeall yr effaith y gall penderfyniadau ariannol ei chael ar fenywod ac eraill yng Nghymru, gallwn gymryd camau effeithiol i sicrhau bod menywod a'u swyddi amrywiol yn cael eu hystyried a bod newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

**Christine Chapman:** I thank the Minister for her statement. In celebrating International Women's Day, it is good to reflect on the progress that has been made, as well as to recognise that women continue to be unequal in many aspects of society, and to consider what men and women can do together to address that. Equality between men and women should be the benchmark of a good society. The feminist political philosopher, Susan Moller Okin, argued that a fair society is a society in which men and women participate in more or less equal numbers in every sphere of life.

**Christine Chapman:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Wrth ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, mae'n gyfle da i edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, yn ogystal â chydnabod bod menywod yn parhau i fod yn anghyfartal mewn sawl agwedd ar gymdeithas, ac i ystyried yr hyn y gall dynion a menywod ei wneud gyda'i gilydd i fynd i'r afael â hynny. Dylai cydraddoldeb rhwng dynion a menywod fod yn feincnod o gymdeithas dda. Roedd yr athronydd gwleidyddol ffeministaidd, Susan Moller Okin, yn dadlau bod cymdeithas deg yn gymdeithas lle mae dynion a menywod yn chwarae rhan sydd fwy neu lai yn deg, o ran niferoedd, ym mhob maes bywyd.

Domestic work continues to be unequal. A recent Oxford University study has shown that if current trends continue, women will probably have to wait until 2050 before men are doing an equal share of household chores and childcare. It found that substantial and persistent obstacles remain. It appears that what hampers equality in the home is the fact that certain tasks continue to be allocated as men's or women's work. Minister, I welcome the fact that you said in your statement that International Women's Day is an opportunity to challenge stereotypes and accepted norms. We know that in Nordic countries, where employment policies encourage women to enter the labour force by providing better maternity and paternity leave and childcare services, there is greater equality in the sharing of domestic tasks at home. Minister, what in-roads can the Welsh Government make to bring about equality in the home, given the knock-on effect that that has on equality in all other aspects of women's lives, including the workplace? What is the Welsh Government doing to include discussion and awareness of equality issues as such within education?

Mae gwaith yn y cartref yn parhau i fod yn anghyfartal. Mae astudiaeth ddiweddar gan Brifysgol Rhydychen yn dangos, os bydd tueddiadau presennol yn parhau, y bydd yn rhaid i fenywod aros tan 2050 cyn y bydd dynion yn gwneud cyfran gyfartal o'r tasgau cartref a gofal plant. Canfu fod rhwystrau sylweddol a pharhaus yn dal i fodoli. Mae'n ymddangos mai'r hyn sy'n amharu ar gydraddoldeb yn y cartref yw'r ffaith bod rhai tasgau penodol yn parhau i gael eu rhannu yn dasgau i ddynion neu'n dasgau i fenywod. Weinidog, rwy'n croesawu'r ffaith ichi ddweud yn eich datganiad bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle i herio stereoteipiau a normau derbyniol. Gwyddom fod mwy o gydraddoldeb o ran rhannu tasgau yn y cartref mewn gwledydd Nordig, lle mae polisïau cyflogaeth yn annog menywod i fynd i mewn i'r gweithlu drwy ddarparu gwell cyfnodau mamolaeth a thadolaeth a gwasanaethau gofal plant. Weinidog, pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb yn y cartref, o ystyried yr effaith y gall hynny ei chael ar gydraddoldeb ym mhob agwedd arall o fywydau menywod, gan gynnwys yn y gweithle? Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnwys trafodaethau ac

ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb mewn addysg?

**Jane Hutt:** I thank Christine Chapman for her contribution and questions. As Christine said, and as clear evidence has shown, a fair society is a good society. Challenging stereotypes and accepted norms is a key plank in how we will promote equality of opportunity through education and the curriculum. The issues about sharing work and caring responsibilities in the home are key. We have a lot to learn internationally, particularly from Scandinavian countries.

**Jane Hutt:** Diolch i Christine Chapman am ei chyfraniad a'i chwestiynau. Fel y dywedodd Christine, ac fel mae tystiolaeth glir wedi dangos, mae cymdeithas deg yn gymdeithas dda. Herio stereoteipiau a normau derbyniol yw un o'r prif ffyrdd o hyrwyddo cyfle cyfartal drwy addysg a'r cwricwlwm. Mae'r materion am rannu gwaith a chyfrifoldebau yn y cartref yn allweddol. Mae gennym lawer i'w ddysgu yn rhyngwladol, yn enwedig gan wledydd Llychlyn.

On women's role as carers, one in five people give up work to care for family members, but women continue to be disproportionally represented as the primary carer. That includes young mothers caring for severely disabled children, which has a direct and consequential impact on their life chances and employment opportunities. They are often limited to low-paid part-time work. It is not only women who care for family members, particularly as primary carers for disabled family members, but it is an issue to do with women's everyday lives and balancing home and work. It is important that we use our specific equality duties to achieve the step change that is needed to take us forward. It also behoves the Government to recognise that the barriers that have impeded women's opportunities reside in issues such as a lack of affordable and quality childcare. It is important that employers promote family-friendly policies.

O ran rôl menywod fel gofalwyr, mae un o bob pump o bobl yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am aelodau o'r teulu, ond mae menywod yn parhau i gael eu cynrychioli'n anghyfartal fel y prif ofalwr. Mae hynny'n cynnwys mamau ifanc sy'n gofalu am blant ag anabledd difrifol, sy'n cael effaith uniongyrchol a chanlyniadol ar eu cyfleoedd bywyd a chyfleoedd cyflogaeth. Maent yn aml yn gyfyngedig i waith rhan-amser â chyflog isel. Nid dim ond menywod sy'n gofalu am aelodau o'r teulu, yn enwedig fel gofalwyr sylfaenol ar gyfer aelodau anabl o'r teulu, ond mae'n fater sy'n ymwneud â bywydau menywod o ddydd i ddydd a chael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol i gyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen i fynd â ni ymlaen. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i gydnabod bod y rhwystrau sydd wedi rhwystro cyfleoedd i fenywod yn ddibynnol ar faterion fel diffyg gofal plant fforddiadwy a gofal plant o ansawdd. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn hyrwyddo polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd.

The provisions that came through previously, particularly from the former UK Labour Government, have been important in enabling women to progress and have equality in terms of caring, sharing, working and balancing home and work. I turn to the specific equality duties to ensure that public bodies take this as a key opportunity as they progress towards their equality plans, as we will do on 2 April.

Mae'r darpariaethau a gyflwynwyd yn flaenorol, yn enwedig gan Lywodraeth Llafur flaenorol y Deyrnas Unedig, wedi bod yn bwysig o ran galluogi menywod i symud ymlaen a chael cydraddoldeb o ran gofalu, rhannu, gweithio a chael cydbwysedd rhwng y cartref a'r gwaith. Trof at y dyletswyddau cydraddoldeb penodol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cymryd hyn fel cyfle allweddol wrth iddynt symud ymlaen tuag at eu cynlluniau cydraddoldeb, fel y byddwn yn ei wneud ar 2 Ebrill.

**Suzy Davies:** Minister, I would like to thank you for your very encouraging statement today. I would also like to thank you for directing some of the Government's funding to three organisations in my region to help them to celebrate their achievements in tackling abuse and violence in particular. As we in opposition welcome the Welsh Government's statement today, I ask the Minister to welcome action by other Governments around the world, including the Government in Westminster, and to support in particular United Nations Women. This is an international organisation that was set up specifically to improve the lives of women and girls across the globe. Its second largest financial contribution comes from the Department for International Development on behalf of us all in the UK.

**Suzy Davies:** Weinidog, hoffwn ddiolch i chi am eich datganiad hynod galonogol heddiw. Hoffwn hefyd ddiolch i chi am roi peth o gyllid y Llywodraeth i dri sefydliad yn fy rhanbarth i'w helpu i ddathlu eu cyflawniadau wrth fynd i'r afael â cham-drin a thrais yn enwedig. Wrth i ni, yn yr wrthblaid, groesawu datganiad Llywodraeth Cymru heddiw, gofynnaf i'r Gweinidog i groesawu gweithredu gan Lywodraethau eraill o gwmpas y byd, gan gynnwys y Llywodraeth yn San Steffan, ac i gefnogi Menywod y Cenhedloedd Unedig yn benodol. Mae hwn yn sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd yn benodol i wella bywydau menywod a merched ar draws y byd. Mae ei ail gyfraniad ariannol mwyaf yn dod gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ar ran pob un ohonom yn y Deyrnas Unedig.

I also ask the Minister specifically to look at the role played by women entrepreneurs during this week. In our society, money, power and fame seem to be the measures of success, but the organisation Women Unlimited claims that other measures are also highly valued by women entrepreneurs in particular, such as social impact, compassion, negotiation, recognition, personal satisfaction and choice. Will the Minister consider how she, in Government engagement with business, can encourage equal respect for those measures of success? Socially responsible and ethical business practices are far from incompatible with strong bottom lines. As you have said, the day promotes the importance of women's empowerment across the board and women's voices should be reaching policy makers in all areas, not just the clearly very serious priority areas of abuse and violence.

Rwyf hefyd yn gofyn i'r Gweinidog edrych yn benodol ar y rôl a chwaraeir gan entrepreneuriaid sy'n fenywodyn ystod yr wythnos hon. Yn ein cymdeithas, mae'n ymddangos mai arian, pŵer ac enwogrwydd yw'r ffordd o fesur llwyddiant, ond mae'r sefydliad Women Unlimited yn honni bod ffyrdd eraill hefyd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan fenywod sy'n entrepreneuriaid, fel effaith cymdeithasol, trugaredd, cyd-drafod, cydnabyddiaeth, boddhad personol a dewis. A wnaiff y Gweinidog ystyried sut y gall hi, wrth i'r Llywodraeth ymwneud â busnes, annog parch cyfartal ar gyfer y ffyrdd hynny o fesur llwyddiant? Mae arferion busnes sy'n gymdeithasol gyfrifol ac yn foesegol ymhell o fod yn anghydnaws â llinellau isaf cryf. Fel yr ydych wedi ei ddweud, mae'r diwrnod yn hyrwyddo pwysigrwydd grymuso menywod yn gyffredinol a dylai lleisiau menywod fod yn cyrraedd llunwyr polisi ym mhob maes, nid dim ond yn y meysydd blaenoriaeth difrifol iawn fel cam-drin a thrais.

I also ask you, Minister, to look at a recent report published in the *International Journal of Entrepreneurial Behaviour and Research*. You mentioned in your statement the barriers; this report suggests that women are more likely than men to perceive difficulty in obtaining finance as a barrier to starting a business. This is a factor that private and community organisations need to take into

Rwyf hefyd yn gofyn i chi, Weinidog, i edrych ar adroddiad diweddar a gyhoeddwyd yn yr *International Journal of Entrepreneurial Behaviour and Research.* Soniasoch yn eich datganiad am y rhwystrau; mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol na dynion o weld sicrhau cyllid fel rhwystr i ddechrau busnes. Mae hwn yn ffactor y mae'n rhaid i

account when they decide how start-up finance is marketed. However, the Government can take a lead on this, not least with the promotion of the big society bank, which will offer soft loans to individuals and organisations with the kind of good ideas that can improve our communities.

sefydliadau preifat a chymunedol ei ystyried pan fyddant yn penderfynu sut y caiff cyllid i ddechrau prosiect ei farchnata. Fodd bynnag, gall y Llywodraeth arwain ar hyn, nid yn unig drwy hyrwyddo banc y gymdeithas fawr, a fydd yn cynnig benthyciadau meddal i unigolion a sefydliadau gyda'r math o syniadau da a all wella ein cymunedau.

Finally, Minister, will you also consider how to help the ethos of entrepreneurship to become more pervasive across curricula in further and higher education, so that it is not just covered on business courses? For example, at 14 to 16, girls—and it is still mainly girls—who take health and beauty and social care courses could really benefit from learning about taking business risks. Last week, in the debate on the framework for international engagement, we were talking about what countries can learn from each other. Research from the poorer parts of developing countries in Asia has shown that it is women setting up micro and small businesses that has the strongest potential to empower women and transform their local society. That is a valuable lesson for girls and women in our deprived areas, especially as the most recent figures for Wales show that early stage entrepreneurial activity is only 45% as likely in women as it is in men.

Yn olaf, Weinidog, a wnewch chi hefyd ystyried sut i helpu ethos o entrepreneuriaeth i fod yn fwy treiddiol ar draws y cwricwla mewn addysg bellach ac uwch, fel nad yw'n cael ei gynnwys ar gyrsiau busnes yn unig? Er enghraifft, rhwng 14 ac 16 oed, gall merched—a merched ydynt yn dal i fod po fwyaf—sy'n astudio cyrsiau iechyd, harddwch a gofal cymdeithasol fanteisio'n fawr o ddysgu am gymryd risgiau busnes. Yr wythnos diwethaf, yn y ddadl ar y fframwaith ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, roeddem yn sôn am pa wledydd a all ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae ymchwil yn rhannau tlotaf y gwledydd sy'n datblygu yn Asia wedi dangos mai menywod sy'n sefydlu busnesau micro a bach sydd â'r potensial mwyaf i roi grym i fenywod a gweddnewid eu cymdeithas leol. Mae honno'n wers werthfawr ar gyfer merched a menywod yn ein hardaloedd difreintiedig, yn enwedig gan fod y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ymysg menywod dim ond 45% mor debygol o ddigwydd ag ydyw ymhlith dynion.

**Jane Hutt:** I thank Suzy Davies for welcoming the statement today and for focusing on some key points in terms of the contribution that women are making economically, particularly in relation to those opportunities to promote and support women's entrepreneurship. I pay tribute, for example, to the University of Glamorgan, which has developed a female entrepreneurship model of learning that has enabled many women to benefit from learning at a higher education level, but which has resulted in support for new start-ups as a result of that input.

**Jane Hutt:** Diolch i Suzy Davies am groesawu'r datganiad heddiw ac am ganolbwyntio ar rai pwyntiau allweddol o ran y cyfraniad y mae menywod yn eu gwneud yn economaidd, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfleoedd hynny i hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth gan fenywod. Rwy'n talu teyrnged, er enghraifft, i Brifysgol Morgannwg, sydd wedi datblygu model dysgu entrepreneuriaeth benywaidd sydd wedi galluogi llawer o fenywod i fanteisio ar ddysgu ar lefel addysg uwch, ond sydd wedi arwain at gymorth ar gyfer busnesau newydd o ganlyniad i'r mewnbwn hwnnw.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.29 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.29 p.m.*

This is about the opportunities that we have

Mae hyn yn ymwneud â'r cyfleoedd sydd

to address the deficit in terms of female entrepreneurship. The statistics in the Equality and Human Rights Commission report, ‘Who runs Wales?’, an important report that was published in March 2011, showed that we still had a long way to go. In the private sector, for example, of the chief executives of Wales’s top 50 private companies, 4% are female and 96% are male. We also have a long way to go in the public sector. It is vital that we encourage greater diversity in decision making across the private and public sectors. There are only two female chief executives in the top 50 companies and the number of women working in our schools far surpasses the number of men, but there are more male headteachers than female. Therefore, we are missing out on a huge pool of talent by having so many leaders and decision-makers from the same background.

gennym i fynd i’r afael â’r diffyg o ran entrepreneuriaeth benywaidd. Mae’r ystadegau yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ‘Pwy sy’n rhedeg Cymru?’, adroddiad pwysig a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2011, yn dangos fod gennym ffordd bell i fynd. Yn y sector preifat, er enghraifft, allan o brif weithredwyr yr 50 o gwmniau preifat mwyaf yng Nghymru, mae 4% yn fenywod a 96% yn ddynion. Mae gennym ffordd bell i fynd, hefyd, yn y sector cyhoeddus. Mae’n hanfodol ein bod yn annog mwy o amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus. Dim ond dau brif weithredwr benywaidd sydd yn yr 50 cwmni uchaf ac er fod nifer y menywod sy’n gweithio yn ein hysgolion yn llawer uwch na nifer y dynion, mae mwy o ddynion na menywod yn benaethiaid. Felly, rydym yn colli allan ar gronfa enfawr o dalent yn sgîl cael cymaint o arweinwyr a phenderfynwyr o’r un cefndir.

3.30 p.m.

You also stressed the importance of the curriculum and what we are doing in education. I have mentioned the work that has been done to target, for example, children, girls and young people. On Saturday morning, I visited a club in the School of Engineering at Cardiff University. It was a Discover! club organised by the careers service, and they are being organised across Wales. Discover! clubs target year 9 pupils before they take up their options, and they are having a major impact on the choices made, as I discovered when I spoke to them.

Gwnaethoch hefyd bwysleisio pwysigrwydd y cwricwlwm a’r hyn rydym yn ei wneud ym maes addysg. Rwyf wedi sôn am y gwaith sy’n cael ei wneud i dargedu, er enghraifft, plant, merched a phobl ifanc. Fore Sadwrn, ymwelais â chlwb yn Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd. Un o glybaiu Darganfod! oedd hwn a drefnir gan y gwasanaeth gyrfaoedd, a chânt eu trefnu ledled Cymru. Mae clybiau Darganfod! yn targedu disgyblion blwyddyn 9 cyn iddynt ddewis eu hopsiynau, ac maent yn cael effaith fawr ar y dewisiadau a wnânt, fel y gwelais pan siaradais â nhw.

The Welsh Government is supporting women into STEM careers, through support for organisations like Chwarae Teg and the work of the careers service, where we have to mainstream equality of opportunity. Work has also been undertaken with the National Science Academy. One of the great strengths of those kinds of initiatives is the inclusion of women role models and the value that they bring to these events, which is a very important aspect of International Women’s Day, in celebrating the achievements of women, past and present. It is clear that we have to take action in delivering on our

Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo menywod i ddilyn gyrfaoedd STEM, drwy roi cymorth i sefydliadau megis Chwarae Teg a gwaith y gwasanaeth gyrfaoedd, lle mae’n rhaid inni brif ffrydio cyfle cyfartal. Mae gwaith wedi mynd rhagddo hefyd gyda’r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Un o gryfderau mawr mentrau fel hyn yw cynnwys modelau rôl benywaidd a’r gwerth y maent yn ei gynnig i’r digwyddiadau hyn, sy’n agwedd bwysig iawn ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, o ran dathlu llwyddiant menywod y gorffennol a’r presennol. Mae’n amlwg bod yn rhaid inni

Welsh-specific duties and spotlight the practical differences that we need to make to people's lives, to ensure that the emerging equality objectives and opportunities are delivered.

weithredu o ran cyflawni ein dyletswyddau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a thynnu sylw at y gwahaniaethau ymarferol y mae angen inni eu gwneud i fywydau pobl, er mwyn sicrhau bod yr amcanion cydraddoldeb a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cyflawni.

I will focus for a moment on the importance of tackling the deficit that we still have in pay. With our Welsh-specific duties, we will expect partners to identify and address the causes of the gender, ethnicity and disability pay and employment differences.

Rwyf am ganolbwyntio am ychydig ar y pwysigrwydd o fynd i'r afael â'r diffyg sydd gennym o hyd o ran cyflog. Gyda'n dyletswyddau sy'n benodol ar gyfer Cymru, byddwn yn disgwyl i bartneriaid nodi a mynd i'r afael ag achosion rhyw, ethnigrwydd ac anabledd a gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth.

**Bethan Jenkins:** It is very important that we are dedicating time in the National Assembly to discuss International Women's Day. Simone Weil, a French philosopher said that

**Bethan Jenkins:** Mae'n bwysig iawn ein bod yn neilltuo amser yn y Cynulliad Cenedlaethol i drafod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dywedodd Simone Weil, athronydd Ffrengig:

'equality is the public recognition, effectively expressed in institutions and manners, of the principle that an equal degree of attention is due to the needs of all human beings'.

'cydraddoldeb yw'r gydnabyddiaeth gyhoeddus, a gaiff ei mynegi'n effeithiol mewn sefydliadau a moesau, o'r egwyddor y dylid rhoi'r un faint o sylw i anghenion pob unigolyn'.

She died nearly 70 years ago, but her words are relevant on International Women's Day, as she was an inspiring campaigner, and important to me because I believe that, unfortunately, she died of an eating disorder. She would have recognised many of the problems that women in Wales face today—in the economy, in abusive relationships and with eating disorders. I am grateful that the Welsh Government has provided funding to organisations marking International Women's Day, and I am particularly pleased that Minority Ethnic Women's Network Swansea, Swansea Women's Centre and Women4Resources in my area, will be receiving some of that money.

Bu farw bron i 70 mlynedd yn ôl, ond mae ei geiriau yn berthnasol ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, gan ei bod yn ymgyrchydd ysbrydoledig, ac yn rhwyun pwysig i mi gan fy mod yn credu, yn anffodus, y bu iddi farw o anhwylder bwyta. Byddai hi wedi cydnabod llawer o'r problemau sy'n wynebu menywod yng Nghymru heddiw—yn yr economi, mewn perthnasau lle ceir camdriniaeth a chydag anhwylderau bwyta. Rwy'n ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliadau sy'n nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac rwy'n arbennig o falch y bydd Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Abertawe, Canolfan Menywod Abertawe a Women4Resources yn fy ardal i, yn derbyn rhywfaint o'r arian hwnnw.

In the spirit of Weil's views on equality and institutions, I would like to know whether the Welsh Government will carry out the following steps. We all know that the impact of the UK Government's cuts, especially to welfare and benefits, will disproportionately affect women, and I wonder whether you will

Yn ysbryd geiriau Weil ar gydraddoldeb a sefydliadau, hoffwn wybod a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r camau canlynol. Rydym i gyd yn gwybod y bydd effaith toriadau Llywodraeth y DU, yn enwedig i les a budd-daliadau, yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, a thybed a fyddwch

carry out a study to see how this will impact on devolved responsibilities here in Wales. Will you also look to expand Flying Start and to ensure that accessible training is available for childminders and nannies, and also to increase free childcare provision through the medium of Welsh? I am passionate about the issue of eating disorders, so I ask you to roll out the eating disorders framework for Wales, ring-fencing funding for those services and examining the possibility of creating an in-patient unit. Will you also look to establish self-esteem and confidence lessons in schools? We still face the huge problem of the sexualisation of women in our society, which is something that we really need to get to grips with here in Wales.

yn cynnal astudiaeth i weld sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig yma yng Nghymru. A wnewch chi hefyd ymchwilio i ehangu Dechrau'n Deg a sicrhau bod hyfforddiant hygyrch ar gael i warchodwyr plant a nanis, a hefyd i gynyddu darpariaeth gofal plant am ddim drwy gyfrwng y Gymraeg? Rwy'n teimlo'n angerddol ynghylch y mater anhwylderau bwyta, felly, gofynnaf ichi gyflwyno'r fframwaith ar anhwylderau bwyta ar gyfer Cymru, gan neilltuo cyllid ar gyfer y gwasanaethau hynny ac ymchwilio i'r posibilrwydd o greu uned cleifion mewnol. A wnewch chi hefyd ystyried sefydlu gwersi hunan-barch a hyder mewn ysgolion? Rydym yn dal i wynebu'r broblem enfawr o rywioli menywod yn ein cymdeithas, sy'n rhywbeth y mae gwir angen inni fynd i'r afael ag ef yma yng Nghymru.

I finish by asking what more we can do in terms of Wales and the world. I read recently in *The Guardian* that Saudi Arabian women are banned from taking part in the Olympics. We need to show what women in Wales can do and take our message across the globe. We need to show how we can help support equality campaigns across the world, especially in those countries where such campaigns do not currently exist.

Hoffwn orffen drwy ofyn beth arall y gallwn ei wneud o ran Cymru a'r byd. Darllenais yn *The Guardian* yn ddiweddar fod menywod Saudi Arabia wedi cael eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. Mae angen inni ddangos beth all menywod yng Nghymru ei wneud a lledaenu ein neges ar draws y byd. Mae angen inni ddangos sut y gallwn helpu ymgyrchoedd cydraddoldeb ledled y byd, yn enwedig yn y gwledydd hynny lle nad yw ymgyrchoedd o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd.

**Jane Hutt:** Thank you, Bethan Jenkins. As Minister, I am also pleased that we are having a discussion on the subject of International Women's Day—I think that it was Julie Morgan and Rebecca Evans who requested this, although I know that there was support for it across the Chamber. So, thank you, Bethan Jenkins, for your question today.

**Jane Hutt:** Diolch, Bethan Jenkins. Fel Gweinidog, rwyf innau'n falch ein bod yn trafod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod—credaf mai Julie Morgan a Rebecca Evans wnaeth y cais hwn, er fy mod yn gwybod bod cefnogaeth i'r pwnc ar draws y Siambr. Felly, diolch, Bethan Jenkins, am eich cwestiwn heddiw.

To pick up on the point about cuts and changes as a result of welfare reform, I recognise that there is a real challenge in terms of the impact they can have on equality. That is why it was so important for us to undertake our own equality impact assessment of our draft budget, which was a reduced budget, to help steer our priorities. As you know, the Equality and Human Rights Commission is undertaking some work to look at whether our equality impact assessment was robust. There is little

Gan gyfeirio at y pwynt am doriadau a newidiadau o ganlyniad i ddiwygio lles, rwy'n cydnabod bod her go iawn o ran yr effaith y gallant eu cael ar gydraddoldeb. Dyna pam ei bod mor bwysig inni gynnal ein hasesiad ein hunain o effaith ein cyllideb ddrafft ar gydraddoldeb, a oedd yn gyllideb is, i helpu i lywio ein blaenoriaethau. Fel y gwyddoch, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gwneud rhywfaint o waith i edrych a oedd ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn gadarn. Ychydig o

evidence across the UK of the outcomes of equality impact assessments in terms of priorities that focus on issues relating to women, and impacts on their everyday lives, employment and prospects. There are issues of budget decisions made by the UK Government, including cuts to benefits and allowances that would have a direct impact on vulnerable groups, including women. So, it is important that we mitigate those impacts.

dystiolaeth sydd ledled y DU o ganlyniadau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o ran blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â menywod, a'r effeithiau ar eu bywydau bob dydd, eu cyflogaeth a'u rhagolygon. Mae materion yn ymwneud â phenderfyniadau cyllidebol a wneir gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys toriadau i fudd-daliadau a lwfansau, a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys menywod. Felly, mae'n bwysig ein bod yn lliniaru'r effeithiau hynny.

It is important that you draw attention to Flying Start as a real opportunity for us. As you know, we are increasing the number of children benefiting from Flying Start in their early years, at a time of reducing budgets. It is an example of our decision to prioritise our funding to expand Flying Start, not to restrict it or cut it, as we have seen in the case of many Sure Start centres in England. Expanding Flying Start means that we will be expanding the availability of free childcare for some of the most disadvantaged children and families living in poverty in Wales. It is an extension of our existing policies in ensuring that we invest in the pre-school early years, enabling parents to move on to training and to take advantage of job opportunities, as well as benefiting from Flying Start.

Mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw at Dechrau'n Deg fel cyfle gwirioneddol i ni. Fel y gwyddoch, rydym yn cynyddu nifer y plant sy'n cael budd o Dechrau'n Deg yn ystod eu blynyddoedd cynnar, ar adeg pan fo cyllidebau'n cael eu lleihau. Mae'n enghraifft o'n penderfyniad i flaenoriaethu ein cyllid er mwyn ehangu Dechrau'n Deg, nid ei gyfyngu na'i dorri, fel y gwelsom gyda nifer o ganolfannau Cychwyn Cadarn yn Lloegr. Mae ehangu Dechrau'n Deg yn golygu y byddwn yn ehangu gofal plant am ddim i'r rhai o'r plant a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae'n estyniad o'n polisïau presennol o ran sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar cyn-ysgol, gan alluogi rhieni i ddechrau hyfforddi a manteisio ar gyfleoedd swyddi, yn ogystal â chael budd o Dechrau'n Deg.

The important work that you have led on tackling eating disorders and ensuring that we deliver on the eating disorders framework is well accepted by the Minister for Health and Social Services. There is a clear expectation of our health boards, and progressing that framework must be an important point for discussion on International Women's Day as we look at the vulnerabilities and extreme issues that have a negative bearing on women's lives, particularly young women's lives, although we know that this is also becoming an issue for young men.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn croesawu'r gwaith pwysig rydych chi wedi'i arwain o ran mynd i'r afael ag anhwylderau bwyta a sicrhau ein bod yn cyflawni'r gofynion yn y fframwaith ar anhwylderau bwyta. Mae disgwyliad clir ar ein byrddau iechyd, ac mae'n rhaid i'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwnnw fod yn bwynt trafod pwysig ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod wrth inni edrych ar y peryglon a'r materion eithafol sy'n cael effaith negyddol ar fywydau menywod, yn enwedig menywod ifanc, er ein bod yn gwybod bod hwn yn dod yn fater i ddynion ifanc hefyd.

Finally, I welcome your outward-looking focus on Wales in the world, and on our responsibilities as women elected to this Chamber, across the parties, and as a Welsh

Yn olaf, croesawaf y ffordd rydych yn edrych tuag allan ar Gymru a'r byd, ac ar ein cyfrifoldebau fel menywod a etholir i'r Siambr hon, ar draws y pleidiau, ac fel

Government, for what goes on outside Wales, such as the UN millennium development goals, on which Suzy Davies focused. I met the women who came here last week as part of the British Council scheme, and I am sure that others are engaged through the Commonwealth Parliamentary Association. This gives us an opportunity to support and share experiences and policy achievements, and to recognise that there are many common goals and barriers that we must tackle. It is about looking outward to those women and young girls, tackling the poverty that they experience.

Llywodraeth Cymru, am yr hyn sy'n digwydd y tu allan i Gymru, fel nodau datblygu'r mileniwm y Cenhedloedd Unedig, y gwnaeth Suzy Davies ganolbwyntio arnynt. Cefais gyfle i gwrdd â'r menywod a ddaeth yma yr wythnos diwethaf fel rhan o gynllun y Cyngor Prydeinig, ac rwy'n siŵr bod pobl eraill yn cymryd rhan drwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae hyn yn rhoi cyfle inni gefnogi a rhannu profiadau a chyflawniadau polisi, ac i gydnabod bod nifer o nodau a rhwystrau cyffredin y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â nhw. Mae'n ymwneud ag edrych tuag allan ar y menywod a'r merched ifanc hynny, gan fynd i'r afael â'r tlodi y maent yn ei brofi.

**Joyce Watson:** Minister, I very much welcome your statement today, and I ask everyone here to think, as it is International Women's Day on 8 March, about those women in Syria who are suffering at the hands of their captors right now as we sit here. We have the freedom to debate and to say and do as we like. So, that is important.

**Joyce Watson:** Weinidog, rwy'n croesawu eich datganiad yn fawr heddiw, a gofynnaf i bawb yma feddwl, gan ei bod yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth, am y menywod yn Syria sy'n dioddef dan law'r rhai sy'n eu dael yn gaeth ar hyn o bryd wrth inni eistedd yma. Mae gennym ni'r rhyddid i drafod ac i ddweud a gwneud yr hyn a ddymunwn. Felly, mae hynny'n bwysig.

Last Friday, on St David's Day, I was in Carmarthen at a dinner that included women from Jordan and Libya—the same women that you met. They were particularly keen to learn from the experiences of women in Wales about how women can be empowered and play a full and influential role in any society. I felt that St David's Day was an appropriate day to choose to celebrate internationalism as it is part of our valued heritage. It was not in any way parochial or sentimental. It was part of a wider international role, encouraging women to share their experiences and to wear their national dress.

Ddydd Gwener diwethaf, ar Ddydd Gŵyl Dewi, roeddwn yng Nghaerfyrddin mewn cinio a oedd yn cynnwys menywod o Wlad yr Iorddonen a Libya—yr un menywod ag y gwnaethoch chi gyfarfod â nhw. Roeddent yn awyddus iawn i ddysgu o brofiadau menywod yng Nghymru am sut y gellir grymuso menywod a sut y gallant chwarae rhan lawn a dylanwadol mewn unrhyw gymdeithas. Roeddwn yn teimlo bod Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod priodol i ddewis dathlu cydgenedlaetholdeb gan ei fod yn rhan o'n treftadaeth werthfawr. Nid oedd yn blwyfol nac yn sentimental mewn unrhyw ffordd. Roedd yn rhan o swyddogaeth ryngwladol ehangach, gan annog menywod i rannu eu profiadau ac i wisgo eu gwisg genedlaethol.

Minister, I know that, this year, £30,000 has been awarded to organisations the length and breadth of Wales to celebrate International Women's Day. Will you join me in celebrating the success of women here in Wales and internationally and congratulating them on the work that they do to inspire all people in their societies to campaign for change where change is evidently needed?

Weinidog, gwn fod £30,000 wedi'i ddyfarnu eleni i sefydliadau ar hyd a lled Cymru er mwyn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. A wnewch chi ymuno â mi i ddathlu llwyddiant y menywod yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol a'u llongyfarch ar y gwaith a wnânt i ysbrydoli pawb yn eu cymdeithasau i ymgyrchu dros newid lle mae'n amlwg bod angen newid?

**Jane Hutt:** I thank Joyce Watson for reminding us about women in countries such as Syria and reminding us to recognise our responsibilities in terms of engaging with and empowering women across the world and, in particular, to take the opportunities whenever they arise—as we did with the British Council delegation last week—to engage. That was obviously a very successful event that you attended on St David's Day. It is important that we also look to the work that we are now supporting. I am not talking only about the events and activities of organisations that I have been able to fund over the next few days and weeks relating to International Women's Day; we should recognise that we now have the All-Wales Women's Network, which is already playing an important part in enabling women in Wales to have a voice and to empower them. I want to take the opportunity to say that the network was awarded funding in November 2011 and that it will provide a focus through which women's organisations and individuals will be able to have their voices heard.

I also want to say to Members that this network includes representatives of women's organisations, groups and communities from across Wales. They are already starting work to highlight the issues facing women in Wales and holding focus groups, such as the one on working women, to understand the barriers women face when returning to work. It is also working on issues relating to the barriers to women participating in public life. The importance that we place on looking outwards and learning is a key factor. For example, the programme for government includes a commitment to introducing Norwegian-style gender quotas for appointments to public bodies in Wales, ensuring that at least 40% of appointments are women. Working with the All-Wales Women's Network, the Women's Equality Network Wales, the EHRC and other expert groups, we are looking at how we can progress this. We have to learn as well as provide support internationally.

**Jane Hutt:** Diolch i Joyce Watson am ein hatgoffa am fenywod mewn gwledydd fel Syria ac ein hatgoffa i gydnabod ein cyfrifoldebau o ran ymgysylltu â menywod a'u grymuso ledled y byd ac, yn arbennig, i achub ar y cyfle i gymryd rhan pan fo'n codi, fel y gwnaethom gyda dirprwyaeth y Cyngor Prydeinig yr wythnos diwethaf. Yn amlwg, roedd y digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi yr aethoch iddo yn llwyddiannus iawn. Mae'n bwysig ein bod hefyd yn edrych ar y gwaith rydym yn ei gefnogi. Nid wyf yn sôn yn unig am ddigwyddiadau a gweithgareddau y sefydliadau yr wyf wedi gallu eu hariannu dros yr ychydig ddyddiau ac wythnosau nesaf mewn perthynas â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod; dylem hefyd gydnabod bod gennym Rwydwaith Menywod Cymru Gyfan bellach, sydd eisoes yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi menywod yng Nghymru i gael llais a'u grymuso. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddweud bod cyllid wedi'i ddyfarnu i'r rhwydwaith ym mis Tachwedd 2011 ac y bydd yn gyfrwng i glywed llais sefydliadau menywod ac unigolion.

Hoffwn hefyd ddweud wrth Aelodau bod y rhwydwaith hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau, grwpiau a chymunedau menywod ledled Cymru. Maent eisoes yn dechrau gweithio i dynnu sylw at y materion sy'n wynebu menywod yng Nghymru ac yn cynnal grwpiau ffocws, fel yr un ar fenywod sy'n gweithio, i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu menywod wrth ddychwelyd i'r gwaith. Mae hefyd yn gweithio ar faterion sy'n ymwneud â'r rhwystrau i fenywod sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r pwysigrwydd rydym yn ei roi ar edrych tuag allan a dysgu yn ffactor allweddol. Er enghraifft, mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cwotâu rhyw yn y dull Norwyaidd ar gyfer penodiadau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod o leiaf 40% o benodiadau yn fenywod. Gan weithio gyda Rhwydwaith Menywod Cymru Gyfan, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a grwpiau arbenigol eraill, rydym yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu hyn. Rhaid inni ddysgu yn ogystal â rhoi cymorth yn rhyngwladol.

**Eluned Parrott:** International Women's

**Eluned Parrott:** Mae hanes Diwrnod

Day's history goes back to a time when women could not even have voted for Members to a Chamber such as this, let alone become Members. Therefore, I would like to pay tribute to those great Welsh pioneers, such as Megan Lloyd George and other women politicians in Wales today who have inspired many of us who have followed.

Rhyngwladol y Menywod yn mynd yn ôl i'r adeg pan nad oedd merched hyd yn oed yn gallu pleidleisio dros Aelodau i Siambr fel hon, heb sôn am ddod yn Aelodau eu hunain. Felly, hoffwn dalu teyrnged i'r arloeswyr mawr hynny o Gymru, megis Megan Lloyd George a gwleidyddion eraill sy'n fenywod yng Nghymru heddiw, sydd wedi ysbrydoli llawer ohonom sydd wedi eu dilyn.

There is much to celebrate, but we all recognise that the job is not done yet. Girls consistently outperform boys in school, yet there is still a significant gap in pay between men and women. It is 7.5% according to the Equality and Human Rights Commission. We must do more to understand why this still happens if we are to be able to design effective steps to address it. So, Minister, what research have you used to inform your approach to tackling gender pay and equality issues?

Mae llawer i'w ddathlu, ond rydym i gyd yn cydnabod nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson mewn ysgolion, ond mae bwlch sylweddol o hyd o ran cyflog dynion a menywod. Y ganran yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw 7.5%. Mae'n rhaid inni wneud mwy i ddeall pam bod hyn yn dal i ddigwydd os ydym am gynllunio camau effeithiol i fynd i'r afael â hynny. Felly, Weinidog, pa ymchwil ydych chi wedi ei ddefnyddio i lywio eich dull o fynd i'r afael â materion cyflogau'r rhywiau a chydraddoldeb rhwng y rhywiau?

3.45 p.m.

I note that, in your statement, you mention the valuable work of Women in Science, Engineering and Construction Wales Discover! clubs at Cardiff University, which I may have had something to do with. As a science ambassador, I am also extremely keen to ensure that young women are able to access programmes such as this. I would also like to praise a programme designed by Science Made Simple, a science education company run by a very successful female entrepreneur, Wendy Sadler, which took female science mentors to schools around Wales to inspire children and show them that real women can become real scientists and that they could be like them. So, Minister, what support does the Welsh Government give to these important motivational and education outreach programmes for young women? Will this subject be addressed in the Welsh Government science strategy when it is published next week?

Nodaf eich bod yn sôn yn eich datganiad am waith gwerthfawr clybiau Darganfod! Menywod mewn Gwyddoniaeth, Peirianneg ac Adeiladu Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, y bûm i, efallai, yn ymwneud rywfaint â hwy. Fel llysgennad gwyddoniaeth, rwyf hefyd yn awyddus iawn i sicrhau bod menywod ifanc yn gallu cael mynediad at raglenni fel hyn. Hoffwn hefyd ganmol rhaglen a gynlluniwyd gan Science Made Simple, sef cwmni gwyddoniaeth addysg sy'n cael ei redeg gan Wendy Sadler, entrepreneur benywaidd llwyddiannus iawn, a aeth â mentoriaid gwyddoniaeth benywaidd i ysgolion ledled Cymru i ysbrydoli plant ac i ddangos iddynt y gall menywod go iawn fod yn wyddonwyr go iawn ac y gallent fod fel hwy. Felly, Weinidog, pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r rhaglenni allgymorth ysgogol ac addysgol hyn ac i raglenni allgymorth addysgol i fenywod ifanc? A fydd y pwnc hwn yn cael sylw yn strategaeth gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru pan gaiff ei chyhoeddi yr wythnos nesaf?

In terms of gender equality in the workplace—Christine Chapman talked about

O ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle—siaradodd Christine Chapman am

how important it is—it is also important to ensure that both genders are treated fairly in the workplace. I have seen plenty of evidence to show that men find it difficult to successfully apply for family-friendly adjustments from employers. That reinforces the stereotype that, even in families where both parents work, when push comes to shove, the primary carer is mum. I wonder whether you have had a look at that and whether it might be incorporated in your strategy.

ba mor bwysig yw hyn—mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y ddwy ryw yn cael eu trin yn deg yn y gweithle. Rwyf wedi gweld digon o dystiolaeth sy'n dangos bod dynion yn ei chael yn anodd i wneud ceisiadau llwyddiannus am addasiadau teulu-gyfeillgar gan gyflogwyr. Mae hynny'n atgyfnerthu'r stereoteip mai'r fam yw'r prif ofalwr yn y pen draw, hyd yn oed mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn gweithio. Tybed a ydych wedi ystyried hynny ac a allai gael ei ymgorffori yn eich strategaeth?

I welcome the forthcoming publication of the strategic equality plan on 2 April, which I hope will give us an informed and pragmatic approach to tackling gender equality issues. However, I would like to ask a few questions about the targets and monitoring of progress towards those plans. First, will you set clear, measurable objectives for the plan, with a clear timeline against which success will be measured? Secondly, have you undertaken an evaluation of the plan's predecessors? If so, what lessons have been learned from successes and failures? Finally, have you devised an evaluation plan for the strategic equality plan as part of its development? If so, will you also publish this on 2 April?

Rwy'n croesawu'r cynllun cydraddoldeb strategol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar 2 Ebrill, a gobeithiaf y bydd yn rhoi dull gwybodus ac ymarferol inni o fynd i'r afael â materion cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau am y targedau a monitro'r cynnydd tuag at y cynlluniau hynny. Yn gyntaf, a fyddwch yn pennu amcanion clir, mesuradwy ar gyfer y cynllun, ynghyd ag amserlen glir a fydd yn cael eu defnyddio i fesur llwyddiant? Yn ail, a ydych wedi cynnal gwerthusiad o ragflaenwyr y cynllun? Os felly, pa wersi a ddysgwyd o'r llwyddiannau a'r methiannau? Yn olaf, a ydych wedi dyfeisio cynllun gwerthuso ar gyfer y cynllun cydraddoldeb strategol fel rhan o'r broses o'i ddatblygu? Os felly, a fyddwch hefyd yn cyhoeddi hwn ar 2 Ebrill?

Minister, in Wales today, women enjoy opportunities that our grandmothers could only have dreamed of, but that does not mean that the battle has been won. My colleagues and I welcome the focus that International Women's Day brings to gender equality issues every year and we would like to thank you for bringing this statement before us today.

Weinidog, yng Nghymru heddiw, mae gan ferched gyfleoedd na allai ein neiniau ond breuddwydio amdanynt, ond nid yw hynny'n golygu bod y frwydr wedi'i hennill. Mae fy nghydweithwyr a minnau yn croesawu'r ffocws y mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn ei roi ar faterion cydraddoldeb rhwng y rhywiau bob blwyddyn, a hoffem ddiolch ichi am ddod â'r datganiad ger ein bron heddiw.

**Jane Hutt:** Thank you, Eluned Parrott, for your recognition that, although great progress has been made, we also have a long way to go. In answering your question in relation to equal pay, this is an area where the specific duties are critical in terms of how we are taking this forward. We have included a duty in the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011, which were brought forward by Carl Sargeant in his previous role. It is about going further and

**Jane Hutt:** Diolch, Eluned Parrott, am gydnabod bod cynnydd mawr wedi'i wneud, er bod ffordd bell i fynd hefyd. Mewn ymateb i'ch cwestiwn ar gyflogau cyfartal, mae hwn yn faes lle mae'r dyletswyddau penodol yn hollbwysig o ran sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hyn. Rydym wedi cynnwys dyletswydd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a gyflwynwyd gan Carl Sargeant yn ei rôl flaenorol. Mae'n fater o

saying that we need that duty in the Equality Act regulations in respect of gender pay differences. So, under regulation 9, an authority will be required to collect information on the number of men and women employed, broken down by job, grade, pay, contract type and working pattern. We have a separate duty in respect of gender pay difference and public authorities that identify a gender pay difference must set a gender pay equality objective to address the cause or causes of the pay difference or explain publicly why they have not done so, with an action plan setting out how they are going to achieve and address those gender pay objectives.

fynd ymhellach a dweud bod angen y ddyletswydd honno arnom yn rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb mewn perthynas â gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau. Felly, o dan reoliad 9, bydd gofyn i awdurdod gasglu gwybodaeth am nifer y dynion a menywod a gyflogir, a hynny yn ôl gradd y swydd, cyflog, y math o gontract a'r patrwm gweithio. Mae gennym ddyletswydd ar wahân mewn perthynas â gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau, ac mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n canfod gwahaniaeth o'r fath bennu amcan cydraddoldeb mewn perthynas â chyflogau'r rhywiau i fynd i'r afael ag achos neu achosion y gwahaniaeth. Fel arall, rhaid iddynt esbonio'n gyhoeddus pam nad ydynt wedi gwneud hynny, a chyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni ac yn mynd i'r afael â'r amcanion hynny o ran cyflogau'r rhywiau.

This is in response to your important question about the specific duties and how they will be monitored and regulated, which is the role of the Equality and Human Rights Commission. When we publish our strategic equality plan, it is clear that our regulations have to guide and enable us to have that robust delivery in terms of implementation and gender pay objectives, and how long it would take the authority—I am talking about public authorities as well, which have to abide by the Equality Act and regulations—to achieve the fulfilment of gender pay initiatives. It is perhaps helpful for Members to know that we are still progressing the local government capitalisation for equal pay, and this is where we have supported capitalisation directions to the value of £69.9 million for nine local authorities to allow them to use capital receipts or borrowing to meet the cost of negotiated equal pay backpay compensation liabilities, for example. If we look at the background, we see that women hold over three quarters of all part-time jobs in Wales, while men hold 60%, almost two thirds, of all the available full-time jobs. Part-time work is characterised by low pay, so these are key issues in terms of how we address this. We have the opportunity, in the public sector, to address this through the Equality Act.

Mae hyn mewn ymateb i'ch cwestiwn pwysig ar y dyletswyddau penodol a sut y byddant yn cael eu monitro a'u rheoleiddio, sef rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Pan fyddwn yn cyhoeddi ein cynllun cydraddoldeb strategol, mae'n amlwg y bydd rhaid i'n rheoliadau ein harwain a'n galluogi i gyflawni mewn modd cadarn o ran gweithredu ac o ran yr amcanion ar gyfer cyflogau'r rhywiau, a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i'r awdurdod—rwy'n sôn am awdurdodau cyhoeddus hefyd, sy'n gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r rheoliadau—gyflawni mentrau sy'n ymwneud â chyflogau'r rhywiau. Efallai ei bod yn ddefnyddiol i Aelodau wybod ein bod yn parhau i fwrw ymlaen â'r cyfalafu mewn llywodraeth leol ar gyfer cyflogau cyfartal, a dyma lle yr ydym wedi cefnogi cyfarwyddiadau cyfalafu gwerth £69.9 miliwn ar gyfer naw awdurdod lleol, i'w galluogi i ddefnyddio derbyniadau neu fenthyciadau cyfalaf i gwrdd â'r gost a ddaw o rwymedigaethau cyflog cyfartal a negodwyd i dalu iawndal ôl-gyflog, er enghraifft. Os edrychwn ar y cefndir, gwelwn mai menywod yw deiliaid dros dri chwarter yr holl swyddi rhan-amser yng Nghymru, tra bo dynion yn ddeiliaid 60%, sef bron dwy ran o dair, o'r holl swyddi llawn amser sydd ar gael. Nodweddir gwaith rhan amser gan gyflogau isel; felly, mae'r rhain yn faterion sy'n allweddol o ran sut yr ydym yn ymdrin â

hyn. Mae gennym y cyfle, yn y sector cyhoeddus, i fynd i'r afael â hyn drwy'r Ddeddf Cydraddoldeb.

I welcome your support and your engagement in helping initiatives such as the Discover! club at Cardiff University, backed by the careers service. It is important that I met with the careers service on Saturday and with those who are running the scheme, who are a mixture of pioneering female engineers supporting the year 9 students as role models. As I said earlier, we should also recognise that through Chwarae Teg, the National Science Academy and our science strategy, we are recognising that this is key to achieving gender equality in the delivery and the opportunities for STEM subjects.

Rwy'n croesawu eich cefnogaeth a'ch gwaith wrth helpu mentrau fel clwb Darganfod! Prifysgol Caerdydd, a gefnogir gan y gwasanaeth gyrfaoedd. Mae'n bwysig fy mod wedi cyfarfod â'r gwasanaeth gyrfaoedd ddydd Sadwrn ac â'r rhai sy'n rhedeg y cynllun, sy'n gymysgedd o beirianwyr benywaidd arloesol sy'n cefnogi myfyrwyr blwyddyn 9 fel modelau rôl. Fel y dywedais yn gynharach, dylem hefyd nodi ein bod yn cydnabod, drwy Chwarae Teg, yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a'n strategaeth gwyddoniaeth, fod hyn yn allweddol er mwyn cael cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth ddarparu pynciau STEM a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hwy.

Finally, on your point about the strategic equality plan, I welcome the fact that you see this as a key vehicle for promoting and addressing equality of opportunity in Wales. We will be robust; we have been robust in the consultation about the emerging equality objectives, and they will have to directly impact budgetary decisions, which will be tough in these times of reducing budgets.

Yn olaf, o ran eich pwynt am y cynllun cydraddoldeb strategol, croesawaf y ffaith eich bod yn ystyried hyn yn gyfrwng allweddol ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal yng Nghymru a mynd i'r afael â hynny. Byddwn yn gadarn; rydym wedi bod yn gadarn yn yr ymgynghoriad ar yr amcanion cydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg, a bydd yn rhaid iddynt gael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau cyllidebol, a fydd yn anodd yn y cyfnod hwn pan fo cyllidebau'n lleihau.

**Jenny Rathbone:** I welcome the fact that this year's theme for International Women's Day is women and men united to end domestic abuse and violence against women. That emphasis is entirely appropriate in this year, given the disproportionate impact of the cuts on women and the implications of that for women's power and their ability to protect themselves. Women are the primary carers of children and, however much we want to ensure that men are equal partners in that, it is women's loss of income and promotion prospects that are the reason for the gender gap. It is interesting that the UK Parliament is discussing whether or not to remove child benefits from women living with men earning over £45,000 who may or may not share that money with the women. That does not feel like a very fair measure, but in the context of all the other cuts that have gone on and impacted on women, perhaps it is not surprising.

**Jenny Rathbone:** Rwy'n croesawu'r ffaith mai thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni yw menywod a dynion yn sefyll ynghyd i roi terfyn ar drais yn y cartref a thrais yn erbyn menywod. Mae'r pwyslais hwnnw yn gwbl briodol eleni, o ystyried effaith anghymesur y toriadau ar fenywod a goblygiadau hynny i bŵer menywod a'u gallu i'w hamddiffyn eu hunain. Menywod yw prif ofalwyr plant, ac ni waeth i ba raddau yr ydym am sicrhau bod dynion yn bartneriaid cyfartal yn hynny, colli incwm a cholli cyfleoedd am ddyrchafiad yw'r rheswm dros y bwlch rhwng y rhywiau. Mae'n ddiddorol bod Senedd y DU yn trafod a ddylid cael gwared ar fudd-daliadau plant i fenywod sy'n byw gyda dynion sy'n ennill dros £45,000, a fydd, neu efallai na fydd, yn rhannu'r arian hwnnw â'r menywod. Nid yw'n ymddangos yn fesur teg iawn, ond yng nghyd-destun yr holl doriadau eraill sydd wedi cael eu gwneud ac sydd wedi effeithio

ar fenywod, efallai nad yw'n syndod.

In this era of reduced budgets, it is absolutely vital that public bodies collaborate to support women in the difficult situation that women face. I am particularly pleased to be attending on Thursday the launch of a multi-agency women's centre in Adamsdown, which is a collaboration between different voluntary agencies and the public sector. Its proximity to the sexual abuse referral centre at the Cardiff Royal Infirmary offers a lot of opportunity for collaboration, and much is needed.

Yn yr oes hon o gyllidebau llai, mae'n gwbl hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i gefnogi menywod yn y sefyllfa anodd y mae menywod yn ei hwynebu. Rwy'n arbennig o falch y byddaf yn mynd i lansiad canolfan fenywod amlasiantaethol yn Adamsdown ddydd Iau, sy'n fenter ar y cyd rhwng gwahanol asiantaethau gwirfoddol a'r sector cyhoeddus. Mae'r ffaith ei bod yn agos at ganolfan atgyfeiriadau cam-drin rhywiol Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn golygu y bydd cyfle mawr i gydweithio, ac mae angen llawer o hynny.

There was a presentation in the Senedd last week of some research by Swansea University on sex workers in Cardiff, and the people who were interviewed for Dr Tracey Sagar's research revealed that the majority of the women working in the sex industry had been violently assaulted, raped at knifepoint, and repeatedly raped and dragged off in cars, and not one of those women had reported it to the police, because they felt that they would not get a fair hearing and that nothing would happen. It is also noteworthy that the majority of those women suffer from drug abuse, and there is obviously a clear link between being addicted to drugs and feeling the need to go into the sex industry. There is a clear need for collaborative work both to encourage women to come forward and report violence against them, but also to ensure that services like drug prevention and those aimed at getting people off drugs are available to women who need them.

Yn y Senedd yr wythnos diwethaf, cyflwynwyd gwaith ymchwil gan Brifysgol Abertawe ar weithwyr rhyw yng Nghaerdydd. Datgelodd y bobl a gafodd eu cyfweld ar gyfer gwaith ymchwil Dr Tracey Sagar fod y rhan fwyaf o'r menywod sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw wedi dioddef ymosodiad treisgar, wedi cael eu treisio o flaen cyllell, wedi cael eu treisio dro ar ôl tro ac wedi cael eu llusgo i ffwrdd mewn ceir, ond nid oedd yr un o'r menywod hynny wedi hysbysu'r heddlu, oherwydd eu bod yn teimlo na fyddent yn cael gwrandawiad teg ac na fyddai dim yn digwydd. Mae'n werth nodi hefyd fod y mwyafrif o'r menywod hyn yn dioddef o gam-drin cyffuriau, ac mae'n amlwg bod cysylltiad clir rhwng bod yn gaeth i gyffuriau a theimlo'r angen i fynd i'r diwydiant rhyw. Mae angen clir am waith ar y cyd i annog menywod i roi gwybod os ydynt wedi dioddef trais, ond hefyd i sicrhau bod gwasanaethau fel gwasanaethau atal cyffuriau a'r rheini sydd wedi'u hanelu at gael pobl oddi ar gyffuriau ar gael i fenywod sydd eu hangen.

**Jane Hutt:** It is very important that statements of this kind provide the opportunity for Members—as Jenny Rathbone has done today—to raise issues in the Chamber of which we may not be aware, on which we may not have had evidence or a committee report, or on which we may not have had ministerial action. Women in the sex industry is one very important issue that has been aired today, particularly in respect of the research conducted by Swansea University, which I certainly want to look at. I am sure that Carl Sargeant would want to

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig iawn bod datganiadau fel hyn yn rhoi cyfle i Aelodau—fel y mae Jenny Rathbone wedi'i wneud heddiw—godi materion yn y Siambr efallai nad ydym yn ymwybodol ohonynt, nad ydym efallai wedi clywed tystiolaeth amdanynt neu wedi gweld adroddiad arnynt, neu nad oes gweithredu wedi bod gan Weinidogion yn eu cylch. Mae menywod yn y diwydiant rhyw yn fater pwysig iawn sydd wedi'i grybwyll heddiw, yn enwedig yn dilyn y gwaith ymchwil y mae Prifysgol Abertawe wedi'i wneud, yr wyf yn siŵr o'i ddarllen.

look at that as well. This should be addressed as part of the 'Right to be Safe' strategy, which the Welsh Government is taking forward in its commitment to tackling all forms of violence against women and domestic abuse across Wales. We put this six-year strategy in place in March 2010, with a three-year implementation plan. It covers a whole spectrum of issues, including some of the most hidden and damaging forms of violence in our communities. It has delivered on many of its targets, with the remainder to be completed by March 2013. It is important to focus on how we have set priorities to protect various funding streams. Maintaining our commitment to protecting domestic abuse services funding for 2011-12 was a political decision, based on an equality impact assessment and in recognition of the difficult financial climate. We have also managed our finances using underspend from elsewhere to increase the capital budget by £1.3 million, bringing it to a total of £2 million, to ensure that we can deliver on that six-year strategy and protect those services.

Rwy'n siŵr y byddai Carl Sargeant am edrych arno hefyd. Dylid rhoi sylw i hyn fel rhan o strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu fel rhan o'i hymrwymiad i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref ledled Cymru. Rhoesom y strategaeth chwe blynedd hon ar waith ym mis Mawrth 2010, ynghyd â chynllun gweithredu tair blynedd. Mae'n cwmpasu sbectrwm eang o faterion, gan gynnwys rhai o'r ffurfiau mwyaf cudd a niweidiol o drais yn ein cymunedau. Mae wedi cyflawni nifer o'i thargedau, a disgwylir i'r gweddill gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2013. Mae'n bwysig canolbwyntio ar sut yr ydym wedi pennu blaenoriaethau i ddiogelu ffrydiau ariannu amrywiol. Roedd cynnal ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin yn y cartref ar gyfer 2011-12 yn benderfyniad gwleidyddol, a oedd wedi'i seilio ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac a oedd yn cydnabod yr hinsawdd ariannol anodd. Rydym hefyd wedi trefnu ein harian drwy ddefnyddio tanwariant o fannau eraill i gynyddu'r gyllideb gyfalaf o £1.3 miliwn, gan ddod â hi i gyfanswm o £2 filiwn, i sicrhau y gallwn gyflawni'r strategaeth chwe blynedd ac amddiffyn y gwasanaethau hynny.

The 10,000 Safer Lives project, set up to apply learning from the three projects led by the Kafka Brigade UK, is also important in terms of the influence that it has in engaging partners from local government, the health service, the police, the criminal justice system and the third sector. I also want to comment on the work that we are doing to track and address issues as a result of cuts in spending, changes in taxes and changes in child benefit—we are waiting to see whether there will be any changes in the forthcoming budget. The Minister for Education and Skills is working very closely on the negative implications of welfare reforms. We should remember that the poorest households with children are estimated to lose the largest proportion of their income as a result of the tax and benefit changes. Non-working lone parents, the majority of whom are women, and workless couples with children are expected to suffer a disproportionate financial hit.

Mae prosiect Diogelu 10,000 o Fywydau, a sefydlwyd i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r tri phrosiect a arweiniwyd gan Kafka Brigade UK, hefyd yn bwysig o ran y dylanwad sydd ganddo wrth gynnwys partneriaid o lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, yr heddlu, y system cyfiawnder troseddol a'r trydydd sector. Rwyf hefyd am wneud sylwadau am y gwaith yr ydym yn ei wneud i ddilyn hynt materion a mynd i'r afael â hwy o ganlyniad i doriadau mewn gwariant, newidiadau i drethi ac i fudd-dal plant—rydym yn aros i weld a fydd unrhyw newidiadau yn y gyllideb sydd ar ddod. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gweithio'n agos iawn ar y goblygiadau negyddol i'r diwygiadau lles. Dylem gofio yr amcangyfrifir mai'r cartrefi tlotaf â phlant fydd yn colli'r gyfran fwyaf o'u hincwm o ganlyniad i'r newidiadau treth a budd-daliadau. Disgwylir y bydd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ferched, a pharau heb waith sydd â phlant yn dioddef ergyd ariannol

anghymesur.

**Julie Morgan:** It is great that we have had this statement today, and I thank the Minister for bringing it forward. It is a really good opportunity to bring forward all of these important issues. It is great to celebrate the fact that so many meetings and events are taking place. However, I particularly welcome the theme of women and men being united against domestic abuse. I do not think that it is possible to let this debate pass without drawing attention to the fact that, as we speak, the UK Government in Westminster is pressing ahead with the removal of legal aid from many women suffering domestic violence. In fact, it has been estimated that half of all domestic violence victims will not qualify for legal aid if the Bill is passed in Westminster. It is really important that we draw attention to that, because it is the theme of the day, and that is what is happening at the present time.

**Julie Morgan:** Mae'n wych ein bod wedi cael y datganiad hwn heddiw, a hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei gyflwyno. Mae'n gyfle da iawn i gyflwyno pob un o'r materion pwysig hyn. Mae'n wych dathlu'r ffaith bod cynifer o gyfarfodydd a digwyddiadau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'n arbennig y thema o ferched a dynion yn sefyll ynghyd yn erbyn cam-drin yn y cartref. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl gadael i'r ddadl hon fynd heibio heb dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn San Steffan, y funud hon, yn bwrw ymlaen â chael gwared ar gymorth cyfreithiol i lawer o fenywod sy'n dioddef trais yn y cartref. Yn wir, amcangyfrifwyd na fydd hanner yr holl ddioddefwyr trais yn y cartref yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol os bydd y Bil yn cael ei gymeradwyo yn San Steffan. Mae'n bwysig iawn ein bod yn tynnu sylw at hynny, gan mai dyna yw thema'r dydd, a dyna beth sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**Jane Hutt:** It is important that the Member for Cardiff North, Julie Morgan, reminds us of this issue. We can make our representations, both on a cross-party basis and as a Government, on the impact of legislation and policy changes in Westminster, as we have done in the past. It is also important to reflect that with regard to the evidence, which is very clear on the impact that the loss of legal aid will have on the victims of domestic abuse.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig bod yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, Julie Morgan, yn ein hatgoffa o'r mater hwn. Gallwn wneud ein sylwadau, ar sail drawsbleidiol ac fel Llywodraeth, am effaith y newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi yn San Steffan, fel yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol. Mae hefyd yn bwysig adlewyrchu hynny o ran y dystiolaeth, sy'n glir iawn am yr effaith y bydd colli cymorth cyfreithiol yn ei chael ar ddioddefwyr cam-drin domestig.

4.00 p.m.

It is also important to recognise that the battle to ensure that women could get legal aid was a hard-fought and hard-won campaign—women, and men, campaigned for years to ensure that we have robust domestic violence legislation, which, in terms of delivery and implementation, should be backed by recourse to legal aid and support.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y frwydr i sicrhau y gallai menywod gael cymorth cyfreithiol yn ymgyrch a gafodd ei hymladd a'i hennill yn galed—bu menywod, a dynion, yn ymgyrchu am flynyddoedd i sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth trais domestig gadarn, a ddylai, o ran ei chyflwyno a'i gweithredu, gael ei chefnogi gan hawl i gael cymorth cyfreithiol a chefnogaeth.

## Datganiad: Glastir—Gweithredu'r Cynllun
## Statement: Glastir—Taking the Scheme Forward

**The Deputy Minister for Agriculture,**

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth,**

**Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I have given the National Assembly an assurance that I would keep Members informed of the progress of the Glastir scheme and would inform Members of any proposed changes to the scheme or the administration of the scheme. To that end, I made a written statement on 1 February 2012, informing Members that the total number of Glastir all-Wales element contracts entered into in 2012 was around 1,700, covering an area of about 154,000 ha in total. There are also 107 Glastir common land element contracts in place, covering just under 68,000 ha. That represents approximately one third of common land in Wales and compares to the only 2% of this important resource previously managed under agri-environment provisions.

**Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Rwyf wedi rhoi sicrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol y byddwn yn hysbysu Aelodau ynghylch cynnydd cynllun Glastir ac y byddwn yn rhoi gwybod i Aelodau am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun neu weinyddiaeth y cynllun. Felly, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 1 Chwefror 2012, yn hysbysu Aelodau mai cyfanswm contractau elfen Cymru gyfan Glastir a wnaed yn 2012 oedd tua 1,700, sy'n cwmpasu ardal o tua 154,000 ha i gyd. Mae hefyd 107 o gontractau elfen tir comin Glastir ar waith, sy'n cwmpasu ychydig llai na 68,000 ha. Mae hynny'n cynrychioli tua thraean o dir comin Cymru ac yn cymharu â dim ond 2% o'r adnodd pwysig hwn a reolwyd yn flaenorol o dan ddarpariaethau amaeth-amgylchedd.

The current number of Glastir woodland creation contracts approved stands at 269, with a further 262 applications awaiting approval. To date, some 225 ha of woodland have been planted, with a further 672 ha approved for planting. As a consequence, I am pleased to inform Members that there is more agricultural land in Wales under a sustainable land management scheme today than at any point before.

Y nifer o gontractau creu coetir Glastir a gymeradwywyd ar hyn o bryd yw 269, gyda 262 o geisiadau ychwanegol yn aros i gael eu cymeradwyo. Hyd yn hyn, mae tua 225 ha o goetir wedi'u plannu, gyda 672 ha arall wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu plannu. O ganlyniad, rwy'n falch o roi gwybod i Aelodau bod mwy o dir amaethyddol yng Nghymru o dan gynllun rheoli tir cynaliadwy ar hyn o bryd nag erioed o'r blaen.

Following the ending of the existing agri-environment scheme extension arrangements, I expect that many more farmers will actively consider entry to the Glastir scheme, particularly from 2014 onwards. The roll-out of the scheme continues this year, with the first grant payments being made for the agricultural carbon reduction and efficiency scheme and the first targeted element contracts being drawn up. To complete the picture, an additional 9,000 farmers have requested application packs for this current application window for entry into the all-Wales element.

Yn dilyn diwedd trefniadau ymestyn y cynllun amaeth-amgylchedd presennol, rwy'n disgwyl y bydd llawer mwy o ffermwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried ymuno â'r cynllun Glastir, yn enwedig o 2014 ymlaen. Bydd y broses o gyflwyno'r cynllun yn parhau eleni, gyda'r taliadau grant cyntaf yn cael eu gwneud ar gyfer y cynllun lleihau carbon amaethyddol a'r contractau elfennau wedi'i thargedu cyntaf yn cael eu llunio. I gwblhau'r darlun, mae 9,000 o ffermwyr ychwanegol wedi gofyn am becynnau cais ar gyfer y cyfnod ymgeisio presennol ar gyfer mynediad at yr elfen Cymru gyfan.

I made clear on my appointment that I felt that Glastir had been subject to too much change and needed some time to settle. To that end, I have tried to avoid creating uncertainty and to make further changes only where absolutely necessary. However, it is clear that there continues to be some considerable concern in the industry about different elements of the scheme.

Pan gefais fy mhenodi, dywedais yn glir fy mod yn teimlo bod Glastir wedi newid gormod o weithiau a bod angen amser arno i sefydlogi. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi ceisio osgoi creu ansicrwydd a dim ond gwneud newidiadau pellach pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod peth pryder sylweddol o hyd yn y diwydiant ynghylch gwahanol elfennau o'r

cynllun.

**Rhodri Glyn Thomas:** Will you take an intervention?

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Alun Davies:** No. This is a statement. I would have expected you to know that. [*Laughter.*]

**Alun Davies:** Na wnaf. Datganiad yw hwn. Byddwn wedi disgwyl i chi wybod hynny. [*Chwerthin.*]

I therefore wish to inform Members that I will be undertaking what I will describe as a stock-taking exercise over the coming months. I believe that it is important to learn the lessons of the last two years, so that the scheme continues to evolve and improve. This is a process that I will lead, and I will take all the decisions at the end of this process.

Felly, rwyf am hysbysu Aelodau y byddaf yn cynnal yr hyn a ddisgrifiaf fel ymarfer pwyso a mesur dros y misoedd nesaf. Credaf ei bod yn bwysig dysgu gwersi o'r ddwy flynedd ddiwethaf, er mwyn i'r cynllun barhau i esblygu a gwella. Byddaf i'n arwain y broses, a byddaf yn gwneud pob penderfyniad ar ddiwedd y broses hon.

The terms of reference for this exercise are clear, simple and straightforward: tell me what you think. Those are five words that I hope will encourage anyone and everyone with views on the scheme and its administration to come forward with those views—I know that some need no encouragement.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymarfer hwn yn glir, syml ac uniongyrchol: rhannwch eich barn gyda mi. Dyna pum gair yr wyf yn gobeithio a fydd yn annog unrhyw un a phawb sydd â barn ar y cynllun a'i weinyddiaeth i gyflwyno'r farn honno—gwn nad oes angen unrhyw anogaeth ar rai.

I have asked my officials to facilitate a number of meetings and conversations with farmers, both those who have entered Glastir and those who have not yet decided to do so. I am anxious to hear at first hand the views of farmers on what is happening, what has gone well, what has not gone well and what additional things we might do to improve matters. I am keen to hear views from as many people as possible. With that in mind, I will proactively seek out people's views. I have made available a Glastir stock-take mailbox and postal address. I would welcome any constructive ideas—[*Interruption.*] That is no accident. I would welcome constructive ideas on how the scheme's implementation could be improved. I would be grateful for comments by no later than the end of April 2012.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion hwyluso nifer o gyfarfodydd a sgyrsiau gyda ffermwyr, y rheini sydd wedi ymuno â Glastir a'r rheini nad ydynt wedi penderfynu eto. Rwy'n awyddus i glywed o lygad y ffynnon beth yw barn ffermwyr ar yr hyn sy'n digwydd, beth sydd wedi mynd yn dda, beth nad yw wedi mynd mor dda a beth y gallwn ei wneud yn ychwanegol i wella pethau. Rwy'n awyddus i glywed barn cynifer o bobl â phosibl. Gyda hynny mewn golwg, byddaf yn mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am farn pobl. Rwyf wedi trefnu cael blwch negeseuon e-bost a chyfeiriad postio pwyso a mesur Glastir. Byddwn yn croesawu unrhyw syniadau adeiladol—*[Torri ar draws.]* Nid damwain yw hynny. Byddwn yn croesawu syniadau adeiladol ar sut y gellid gwella'r ffordd y caiff y cynllun ei weithredu. Byddwn yn ddiolchgar am sylwadau erbyn diwedd Ebrill 2012 fan bellaf.

Through this approach, I expect to hear from and to listen to all those people who want to see Glastir succeed, and hear how we in Government might improve the process. My aim is to deliver a set of positive actions for

Drwy'r dull hwn, rwy'n disgwyl clywed gan a gwrando ar bawb sydd am weld Glastir yn llwyddo, a chlywed sut y gallem, yn y Llywodraeth, wella'r broses. Fy nod yw cyflawni cyfres o weithredoedd cadarnhaol ar

the future and I will announce the outcome of this exercise in June 2012.

gyfer y dyfodol a byddaf yn cyhoeddi canlyniad yr ymarfer hwn ym mis Mehefin 2012.

Thanks to the work already undertaken to revise the scheme, it is significantly more attractive and accessible to farmers. The reimbursement rates for individual scheme options are higher, the overall payment rate per hectare is higher and the paperwork has been reduced. I also expect the application process to be more straightforward for farmers this year.

Diolch i'r gwaith a wnaed eisoes i ddiwygio'r cynllun, mae'n llawer mwy deniadol a hygyrch i ffermwyr. Mae'r cyfraddau ad-dalu ar gyfer opsiynau cynllun unigol yn uwch, mae'r gyfradd talu gyffredinol fesul hectar yn uwch ac mae maint y gwaith papur yn llai. Rwyf hefyd yn disgwyl i'r broses ymgeisio fod yn fwy syml i ffermwyr eleni.

Furthermore, I welcome the comments recently made by European Commissioner for Agriculture and Rural Development, Dacian Cioloş, about the proposed greening elements of the new common agricultural policy. Mr Cioloş stated that appropriate ways will be found to recognise efforts made under our agri-environmental schemes where they genuinely contribute to greening, while not removing the incentives to do more or better in the second pillar. That is very good news for farmers in Wales and something for which I have been making a case in my discussions on CAP reform both within the UK and in European institutions.

Ar ben hynny, croesawaf y sylwadau a wnaed yn ddiweddar gan y Comisiynydd Ewropeaidd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Dacian Cioloş, ynglŷn ag elfennau gwyrdd arfaethedig y polisi amaethyddol cyffredin newydd. Dywedodd Mr Cioloş y byddai ffyrdd priodol yn cael eu canfod i gydnabod ymdrechion a wnaed o dan ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol pan fyddant wir yn cyfrannu at fod yn wyrdd, gan beidio â chael gwared ar y cymhellion i wneud mwy neu'n well yn yr ail golofn. Mae hynny'n newyddion da iawn i ffermwyr yng Nghymru ac yn rhywbeth yr wyf wedi gwneud achos drosto yn fy nhrafodaethau ar ddiwygio PAC mewn sefydliadau yn y DU ac yn Ewrop.

It is crucial that farmers understand that Glastir is a vital element in the Welsh Government's delivery of its environmental objectives and obligations. If we do not meet these obligations via existing avenues such as Glastir, it may ultimately prove necessary to introduce a greater regulatory burden to avoid potential financial penalties that would come with any European Commission infraction proceedings. If the sustainable land management actions that we are aiming to achieve through Glastir become a regulatory requirement instead, then our opportunity to use European money to compensate farmers is also lost. Such an eventuality would be to the detriment of the Welsh environment, farmers and the rural economy. It is important to everyone in Wales that Glastir succeeds and I hope that this Glastir stock-take exercise will help us to achieve that.

Mae'n hollbwysig bod ffermwyr yn deall bod Glastir yn elfen hanfodol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hamcanion a'i rhwymedigaethau amgylcheddol. Os nad ydym yn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy lwybrau sydd eisoes yn bodoli megis Glastir, mae'n bosibl, yn y pen draw, y bydd angen cyflwyno mwy o faich rheoleiddio er mwyn osgoi cosbau ariannol posibl a gyflwynir yn sgîl torri rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd. Os bydd y camau rheoli tir cynaliadwy yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy Glastir yn dod yn ofyniad rheoliadol yn lle hynny, yna bydd ein cyfle i ddefnyddio arian Ewropeaidd i ddigolledu ffermwyr hefyd yn cael ei golli. Byddai sefyllfa o'r fath yn andwyol i amgylchedd, ffermwyr ac economi wledig Cymru. Mae'n bwysig i bawb yng Nghymru bod Glastir yn llwyddo, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymarfer pwyso a mesur Glastir yn ein helpu i gyflawni hynny.

**Antoinette Sandbach:** I thank the Deputy

**Antoinette Sandbach:** Diolch i'r Dirprwy

Minister for his statement. The work carried out through agri-environment schemes at present in Wales is enormously important both for Wales and the Welsh farmers who have proved themselves to be enthusiastic participants in the previous scheme. The previous Minister frequently stated that the success of Glastir would be measured by the scale of farmers' participation. Evidently, by this standard, this Welsh Government has failed; the flagship agri-environment scheme for Wales has had a disappointing uptake for yet another year. Only one farmer in every eight who indicated an interest in the scheme has joined the scheme. The Welsh Conservatives, therefore, welcome the fact that the Deputy Minister has announced this second review. I fear that—certainly in response to 'tell me what you think'—the answer from many people whom I have spoken to may be fewer words, and those are a proverbial pile of cow droppings.

Weinidog am ei ddatganiad. Mae'r gwaith a wneir drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd yng Nghymru yn hynod o bwysig i Gymru ac i ffermwyr Cymru sydd wedi cymryd rhan frwd yn y cynllun blaenorol. Roedd y Gweinidog blaenorol yn dweud yn aml y byddai llwyddiant Glastir yn cael ei fesur yn ôl faint o ffermwyr fydd yn cymryd rhan. Yn amlwg, yn ôl y safon hon, mae Llywodraeth Cymru wedi methu; mae nifer y ffermwyr sydd wedi ymuno â'r cynllun amaeth-amgylchedd blaenllaw wedi bod yn siomedig am flwyddyn arall. Dim ond un ffermwr o bob wyth a ddangosodd ddiddordeb yn y cynllun sydd wedi ymuno â'r cynllun. Felly, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi'r ail adolygiad hwn. Rwy'n ofni—yn sicr mewn ymateb i 'rhannwch eich barn gyda mi'—y byddai'r ateb gan lawer o bobl yr wyf wedi siarad â nhw yn cynnwys llai o eiriau, sef pentwr diharebol o faw gwartheg.

Many farmers in markets up and down Wales have been telling you, Deputy Minister, and the previous Minister, where the faults of the scheme lie. The issue is not that they have not spoken out; what has happened is that successive Welsh Governments have failed to listen and to act. Deputy Minister, your written statement of 1 February contained a blunt threat to spend the £89 million budget allocated for Glastir elsewhere and to legislate without any compensation to farmers. Can you clarify how much preparation has been done in pursuing these policies and is this in conjunction with the proposals for a single environment body? Can you explain how your Government can justify the use of these threats to punish farmers when responsibility for low uptake lies squarely with this Government and the previous coalition Government for failing to make Glastir fit for purpose?

Mae llawer o ffermwyr mewn marchnadoedd ar hyd a lled Cymru wedi dweud wrthych chi, Ddirprwy Weinidog, a'r Gweinidog blaenorol, lle mae diffygion y cynllun. Nid mater nad yw ffermwyr wedi dweud eu dweud yw hyn; yr hyn sydd wedi digwydd yw bod un Llywodraeth Cymru ar ôl y llall wedi methu â gwrando a gweithredu. Ddirprwy Weinidog, roedd eich datganiad ysgrifenedig ar 1 Chwefror yn cynnwys bygythiad clir i wario'r gyllideb o £89 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer Glastir rywle arall ac i ddeddfu heb unrhyw iawndal i ffermwyr. A allwch gadarnhau faint o waith paratoi sydd wedi'i wneud i ddilyn y polisïau hyn ac a yw hyn yn cyd-fynd â'r cynigion ar gyfer un corff amgylcheddol? A allwch egluro sut y gall eich Llywodraeth gyfiawnhau defnyddio'r bygythiadau hyn i gosbi ffermwyr pan mai'r Llywodraeth hon a'r cyn-Lywodraeth glymblaid sy'n gyfrifol am y nifer isel sy'n ymuno â'r cynllun ac am fethu â gwneud Glastir yn addas i'r diben?

On the issue of the points threshold for an all-Wales element, do you, Deputy Minister, recognise that the reason why so many farmers drop out after expressing an interest and do not apply in the first place is because they cannot get the points to access the scheme? That is a particular problem for

O ran y trothwy pwyntiau ar gyfer elfen Cymru gyfan, a ydych, Ddirprwy Weinidog, yn cydnabod mai'r rheswm pam fo cymaint o ffermwyr yn gadael ar ôl datgan diddordeb a phan nad ydynt yn gwneud cais yn y lle cyntaf yw oherwydd na allant gael y pwyntiau i gael mynediad at y cynllun? Mae

farmers who have had Tir Gofal agreements, who are quite enthusiastic about agri-environment schemes. Can you confirm that you will be willing to review the impractical arrangements whereby the points threshold for the entry-level scheme in Wales is equivalent to the higher level targeted scheme elsewhere?

hon yn broblem benodol i ffermwyr sydd wedi cael cytundebau Tir Gofal, sydd yn eithaf brwd dros gynlluniau amaeth-amgylchedd. A allwch gadarnhau y byddwch yn barod i adolygu'r trefniadau anymarferol, sy'n golygu bod y trothwy pwyntiau ar gyfer y cynllun lefel mynediad yng Nghymru yn cyfateb i'r trothwy ar gyfer y cynllun wedi'i dargedu ar lefel uwch mewn mannau eraill?

Thirdly, the European Commission has confirmed to me in writing that there is no reason why Wales could not continue with less favoured area support if the Welsh Labour Government chose to do so, and has specified and identified the regulation under which it could do so. Are you prepared to give any consideration to reintroducing a separate support scheme for the less favoured area? The failure of your Government to justify differential payment rates to the Commission, and the failure to stand up for Wales and submit revised figures to the EC, leaves Welsh farmers at a unique disadvantage to the other UK regions and their European competitors. Finally, does the Deputy Minister accept that, as well as listening during this exercise, he and his officials need to be prepared to act on what they hear? Is this Government prepared to move away from what many farmers have seen as a high-handed and adversarial approach over Glastir to one where your department works in partnership with the industry?

Yn drydydd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau i mi yn ysgrifenedig nad oes unrhyw reswm pam na allai Cymru barhau â'r cymorth i ardaloedd llai ffafriol os yw Llywodraeth Llafur Cymru wedi dewis gwneud hynny, ac mae wedi nodi'r rheoliad er mwyn gallu gwneud hynny. A ydych yn barod i ystyried ailgyflwyno cynllun cymorth ar wahân ar gyfer yr ardal llai ffafriol? Mae methiant eich Llywodraeth i gyfiawnhau cyfraddau talu gwahaniaethol i'r Comisiwn, a'r methiant i sefyll dros Gymru a chyflwyno ffigurau diwygiedig i'r Comisiwn Ewropeaidd, yn gadael ffermwyr Cymru o dan anfantais unigryw o gymharu â rhanbarthau eraill y DU a'u cystadleuwyr yn Ewrop. Yn olaf, a yw'r Dirprwy Weinidog yn derbyn, yn ogystal â gwrando yn ystod yr ymarfer hwn, bod angen iddo ef a'i swyddogion fod yn barod i weithredu ar yr hyn maent yn ei glywed? A yw'r Llywodraeth hon yn barod i symud i ffwrdd o'r hyn y mae llawer o ffermwyr yn ei ystyried yn agwedd lawdrwm ac andwyol o ymdrin â Glastir i un lle mae eich adran yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant?

**Alun Davies:** The Conservative spokesperson, in her rush to criticise, never lets facts stand in her way. I have to say that the Conservative party has failed to understand different parts of Wales throughout its history, and it is now demonstrating that is does not understand rural Wales or the farming community either. Let me tell you now that I listen to people and I speak to people, and I have initiated a number of conversations formally and informally, both structurally and with individual farmers and farming communities, and what I hear from those people is very different from what I hear from the Conservative spokesperson. In announcing this exercise this afternoon, I am not going to start giving you its conclusions, so you must

**Alun Davies:** Nid yw llefarydd y Ceidwadwyr, yn ei brys i feirniadu, byth yn gadael i ffeithiau ei rhwystro. Mae'n rhaid imi ddweud bod y blaid Geidwadol wedi methu â deall gwahanol rannau o Gymru erioed, ac yn awr mae'n dangos nad yw'n deall Cymru wledig na'r gymuned ffermio ychwaith. Gadewch i mi ddweud wrthych yn awr fy mod yn gwrando ar bobl ac fy mod yn siarad â phobl, ac yr wyf wedi cychwyn nifer o sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol, yn strwythurol a chyda ffermwyr unigol a chymunedau ffermio, ac mae'r hyn a glywaf gan y bobl hynny yn wahanol iawn i'r hyn a glywaf gan lefarydd y Ceidwadwyr. Wrth gyhoeddi'r ymarfer hwn y prynhawn yma, nid wyf am ddechrau dweud wrthych beth fydd ei gasgliadau, felly mae'n rhaid i chi

forgive me if I do not answer all your questions. I do not see the purpose of starting a process of listening, and then outlining our findings about 10 minutes later.

faddau i mi os nad wyf yn ateb eich cwestiynau i gyd. Nid wyf yn gweld diben dechrau'r broses o wrando, ac yna amlinellu ein canfyddiadau tua 10 munud yn ddiweddarach.

Let me be absolutely clear: this Government is about working alongside and in partnership with the industry, the agricultural community, and rural Wales. If you were to listen to and hear what people are saying about the whole working smarter process then you would understand that. Unfortunately, it does not appear that you do listen to very many people. Let me also say this: you talk about issues with regard to the less favoured area and letters that you have received from the Commission; I meet the Commission regularly, and I meet the Commissioner, and we have conversations about these matters. Let me say this to you absolutely clearly: there will be further discussions and negotiations about the new common agricultural policy, and it will include provision for additional or differential payments for areas of natural constraint. We are a participant in those negotiations, and I look forward to where those take us. However, do not for one moment try to mislead people about what is on offer today. The process that we have been through with Glastir, and the process that was initiated by my predecessor, is one that has been thorough and which has enabled us in Wales to have an agri-environment scheme that is an exemplar in Europe. That is something that I believe deserves to succeed, and I will do my best to make it succeed.

Gadewch imi fod yn gwbl glir: mae'r Llywodraeth hon am weithio ochr yn ochr ac mewn partneriaeth â'r diwydiant, y gymuned amaethyddol, a Chymru wledig. Pe baech yn clywed ac yn gwrando ar yr hyn y mae mae pobl yn ei ddweud am yr holl broses o weithio'n gallach byddech yn deall hynny. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos eich bod yn gwrando ar lawer o bobl. Gadewch imi ddweud hyn hefyd: rydych yn siarad am y materion yn ymwneud ag ardal llai ffafriol a llythyrau rydych wedi eu cael gan y Comisiwn; rwy'n cyfarfod â'r Comisiwn yn rheolaidd, ac rwy'n cyfarfod â'r Comisiynydd, ac rydym yn trafod y materion hyn. Gadewch i mi ddweud hyn wrthych yn gwbl glir: bydd trafodaethau pellach ynglŷn â'r polisi amaethyddol cyffredin newydd, a bydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer taliadau ychwanegol neu wahaniaethol ar gyfer ardaloedd â chyfyngiadau naturiol. Rydym yn cymryd rhan yn y trafodaethau hynny, ac edrychaf ymlaen at weld lle y byddant yn ein harwain. Fodd bynnag, peidiwch am eiliad â cheisio camarwain pobl am yr hyn sy'n cael ei gynnig heddiw. Mae'r broses yr ydym wedi bod drwyddi gyda Glastir, a'r broses a ddechreuwyd gan fy rhagflaenydd, wedi bod yn drylwyr ac mae wedi ein galluogi yng Nghymru i gael cynllun amaeth-amgylchedd sy'n batrwm i'w dilyn yn Ewrop. Mae hynny'n rhywbeth sy'n haeddu llwyddo yn fy marn i, a byddaf yn gwneud fy ngorau i sicrhau y bydd yn llwyddo.

**Llyr Huws Gruffydd:** Cychwynnaf drwy groesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod angen dysgu gwersi. Rwyf hefyd yn falch iawn ei fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am arwain y broses hon; rwy'n meddwl bod hynny'n neges bwysig yn ei hunan hefyd.

**Llyr Huws Gruffydd:** I start by welcoming very much the statement this afternoon. I welcome the fact that the Deputy Minister has recognised that we need to learn lessons. I am also very pleased that he is taking personal responsibility for leading this process; that is also an important message in itself.

Gwyddom i gyd am sylwadau Alun Davies cyn iddo ddod yn Ddirprwy Weinidog. Felly, mae'n bosibl iawn mai dyma yw ei gyfle—amser a ddengys. Nid oes neb yn amau'r

We all know of the comments made by Alun Davies before he was appointed Deputy Minister, so it is possible that this is his opportunity—time will tell. No-one doubts

egwyddorion sylfaenol y tu ôl i'r cynllun Glastir, ond mae problemau ymarferol wedi bod o safbwynt gweithredu, yn enwedig o ran cymhlethdod y broses ymgeisio, y dryswch a'r anghysondebau'n aml iawn o safbwynt sgorio ceisiadau, biwrocratiaeth, ac yn y blaen. Mae adolygiad Rees Roberts wedi arwain at welliannau, ac mae hynny i'w groesawu, ond mae'n amserol nawr i edrych yn ehangach ar ddyfodol y cynllun.

the fundamental principles underlying the Glastir scheme, but there have been practical problems with implementation, particularly in relation to the complexity of the application process, inconsistencies and confusion in terms of scoring, bureaucracy and so on. The Rees Roberts review has led to improvements, and those are to be welcomed, but it is now timely to look more broadly at the future of the scheme.

4.15 p.m.

Rydych wedi dweud yn y gorffennol bod Glastir yn '*CAP proof*'—dywedasoch hynny wrth y grŵp gorchwyl a gorffen ar y polisi amaethyddol cyffredin. Fodd bynnag, mae perygl inni wneud newidiadau i Glastir heb ystyried cyd-destun y diwygiadau i'r CAP. Rydym yn croesawu, fel y gwnaethoch yn eich datganiad, sylwadau'r Comisiynydd Cioloş. A ydych yn cytuno mai'r peth olaf sydd ei angen nawr yw newid i Glastir—eleni, efallai—ac yna newid pellach i'r drefn yn sgîl diwygiadau i'r CAP? Wrth gwrs, rydych chi'n credu ei fod yn '*CAP proof*', ond ni fyddwn yn gwybod hynny, mewn gwirionedd, hyd nes y cytunwyd ar y diwygiadau.

You have said in the past that Glastir is CAP proof—you made that statement to the task and finish group on the common agricultural policy. However, there is a danger that we will look to make changes to Glastir without seeing those in the context of CAP reform. As you did in your statement, we welcome the comments of Commissioner Cioloş. Do you agree that the last thing that we need now is a change to Glastir—possibly this year—and then a further change to the scheme in the light of CAP reform? Of course, you believe that it is CAP proof, but, in all honesty, we will not know until the reforms have been agreed.

Sylwaf o'r datganiad nad oes manylion o safbwynt y gyllideb. Mae hynny'n bwysig oherwydd os ydym eisiau i bobl ymateb i ymgynghoriad, rhaid iddynt ddeall hyd a lled y cyd-destun ariannol hefyd. Hoffwn wybod, er enghraifft—ac mae'n bosibl y gallech ysgrifennu ataf gyda'r wybodaeth—faint o arian sy'n dod o'r cynllun datblygu gwledig ar yr gyfer elfen Cymru gyfan, yr elfen tir comin, y cynllun lleihau carbon amaethyddol ac yn y blaen, a hefyd faint dybiwch fydd yn cael ei wario o'r cyllidebau hynny yn y flwyddyn hon. Rwy'n tybio eich bod yn gofidio y bydd tanwariant—yn sicr mae nifer y rheini sydd wedi cymryd mantais o'r rhaglen yn is na'r disgwyl—oherwydd mae'r awgrym yn eich datganiadau blaenorol y bydd y pres yn cael ei ddefnyddio at rywbeth arall, os na chaiff ei ddefnyddio at hyn, yn awgrymu i mi fod hynny yng nghefn eich meddwl.

I note from the statement that there are no details in terms of the budget. That is important because if we want to people to respond to a consultation, they need to understand the extent of the financial context too. I would like to know, for example—and perhaps you could write to me with that information—how much money is to be provided from the rural development plan for the all-Wales element, the common land element, the agricultural carbon reduction and efficiency scheme and so on, and also how much you believe will be spent from those budgets during this year. I presume that you are concerned that there will be an underspend—the number of people who have participated in the scheme is certainly lower than expected—because the suggestion in your previous statements that the money will be spent on something else if it is not used for this, suggests to me that that is at the back of your mind.

Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, a fyddech yn barod i ystyried symud y

In the context of this consultation, would you be willing to consider moving money

gwariant o gwmpas? Rydym wedi gweld nifer y bobl a ymgeisiodd am ACRES a chyn lleied o'r rhai a oedd wedi ymgeisio sydd wedi llwyddo i'w gael. Felly, a oes modd symud mwy o adnoddau tuag at elfennau poblogaidd, lle mae diddordeb, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu gwireddu rhai elfennau o'r rhaglen? A fyddech hefyd, fel rhan o'r ymarferiad hwn, yn derbyn syniadau neu awgrymiadau am linellau gwariant newydd? Fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu pa mor bell rydych yn barod i fynd o safbwynt newid y cynllun. Byddwn yn falch clywed eich sylwadau ar hynny.

around? We have seen how many people applied for ACRES and how few of those who applied succeeded in getting it. Therefore, would it be possible to move more resources to the popular elements, where there is an interest, in order to ensure that people can deliver some elements of the scheme? Will you also, as part of this exercise, be taking on board ideas or suggestions for new expenditure lines? However, that depends on how far you are willing to go in terms of changing the scheme. I would like to hear your comments on that possibility.

Rydym yn ymwybodol—a chyfeiriwyd ato yn barod—o'r feirniadaeth am y penderfyniad i beidio â chaniatau'r *differential* LFA o fewn elfen Cymru gyfan Glastir. Mae'r Comisiwn wedi cadarnhau, fel rydym eisoes wedi clywed, bod hawl gwneud taliadau digolledi i ffermydd sydd wedi'u heffeithio gan anawsterau naturiol, fel rydych wedi cydnabod. Felly, er mwyn cadarnhau, a ydych yn gweld bod potensial i gyflwyno rhywbeth yng nghyd-destun CAP a'r trafodaethau ehangach? Hoffwn ichi fod yn gwbl ddi-flewyn ar dafod am hynny.

We are aware—and reference has already been made to it—of the criticism of the decision not to allow the LFA differential within the all-Wales element of Glastir. The Commission has confirmed, as we have already heard, that there is a right to compensate farmers who are affected by natural difficulties, as you have recognised. Therefore, to confirm, do you think that there is potential to introduce something in the context of CAP and the wider discussions on that? I would like you to be completely frank about that.

Mae ffermwyr wedi dweud wrthyf, nid oes ots faint o newidiadau a wnewch, mae brand y CAP wedi'i niweidio y tu hwnt i adferiad—[*Torri ar draws*.]—brand Glastir, wrth gwrs; ymddiheuriadau am hynny. Fe fyddai hynny'n dipyn o ddweud, er, os bu ichi weld *Panorama*, efallai bod cwestiwn arall i'w ofyn am hynny hefyd. Felly, er ichi wneud sylwadau yn eich datganiad blaenorol ynglŷn â'r modd y mae'r rhaglen wedi cael ei chyfathrebu, hoffwn glywed eich barn am y posibilrwydd o edrych ar yr elfen honno, oherwydd, hyd yn oed petai newidiadau sylweddol yn digwydd, y gofid sydd wedi'i fynegi i mi yw na fydd brand Glastir yn ei hanfod yn llwyddo beth bynnag a wnewch.

Farmers have told me that it does not matter how many changes you make, the CAP brand has been damaged beyond repair—[*Interruption*.]—the Glastir brand, of course; my apologies for that. That would be quite something to say, although, if you saw *Panorama*, there might be another question about that. However, although you commented in your previous statement on the way in which the programme has been communicated, I would like to hear your opinion about the possibility of looking at that element, because, even if significant changes were made, the concern that has been expressed to me is that the Glastir brand in essence will not succeed whatever you do.

Teimlaf fod tro yng nghynffon y datganiad tua'r diwedd, gyda nodyn lled fygythiol yn codi ei ben unwaith eto am gyflwyno'r rheoliadau i gyflawni rhai o'r nodau, a hefyd o safbwynt symud peth o'r cyllid i rywle arall. Nid dyna yw'r ffordd i adeiladu consensws ac ennyn perthynas adeiladol o gwmpas yr holl bwnc anodd hwn. Mae'n bwysig cofio bod gan Gymru record

I feel that there is a twist in the tail towards the end of the statement, with a threatening note being struck once again about the introduction of regulations to achieve some of the aims and redirecting some of the funding elsewhere. That is not the way to build consensus or to build a constructive relationship around this difficult subject. It is important that we remember that Wales has a

anrhydeddus iawn yn y cyd-destun agri-amgylcheddol. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi, Ddirprwy Weinidog, bod y record honno'n dangos bod ewyllys i wneud i'r rhaglen weithio, cyhyd â'i bod yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n gwneud synnwyr ymarferol i'r diwydiant. Fodd bynnag, rwy'n poeni nad yw bygythiadau, efallai, fel hyn yn helpu.

very honourable record in the agri-environment context. I am sure that you would agree, Deputy Minister, that that record demonstrates that the will is there to make the programme work, as long as it is implemented in a way that makes practical sense to the industry. However, I am concerned that possible threats like those do not help.

**Alun Davies:** Diolch, rwy'n credu, am dy sylwadau croesawgar—o leiaf ar ddechrau dy gyfraniad. Rydych yn iawn fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am hyn. Rydym wedi bod trwy gyfnod o adolygiad annibynnol ac rwy'n falch o gael cyfle i gofnodi fy niolch i Rees Roberts am ei waith yn adolygu Glastir o dan y Llywodraeth ddiwethaf. Rwy'n credu bod ei waith wedi gosod sail ar gyfer gwella'r cynllun ar gyfer y dyfodol.

**Alun Davies:** Thank you, I think, for your words of welcome—at least at the beginning of your contribution. You are right that I am taking personal responsibility for this. We have been through an independent review and I am pleased to have an opportunity to put on record my thanks to Rees Roberts for his work reviewing Glastir under the last Government. I think that his work has laid the foundations for improving the scheme for the future.

Rydych wedi sôn nad ydych eisiau newidiadau pellach. Nid wyf am sefyll yn y Siambr yn lansio proses adolygu a dweud beth rwyf eisiau gweld ar ddiwedd y peth. Rwyf wedi dweud beth yw fy amcanion fel Dirprwy Weinidog, ond nid wyf eisiau dechrau trafod yn union sut rwy'n gweld hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Gobeithiaf y bydd Aelodau'n deall hynny. Cytunaf fod ein holl drafodaethau ar hyn o bryd yn digwydd yng nghysgod ac yng nghyd-destun diwygio CAP. Beth bynnag fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf, bydd rhaid cadw llygad ar sut bydd hynny'n ffitio mewn gyda'r CAP nesaf. Rydym yn cydnabod ac yn deall hynny.

You have mentioned that you do not want to see further change. I do not want to stand in the Chamber launching a review process and say what I want to see at the end. I have said what my aims are as Deputy Minister, but I do not want to start to discuss exactly how I see that panning out at the moment. I hope that Members will understand that. I agree that all our discussions on this are being held in the shadow and context of CAP reform. Whatever happens over the next few months, we will have to keep an eye on how that will fit in with the next CAP. We recognise and understand that.

Rydych wedi gofyn sawl cwestiwn manwl am y gyllideb a, gyda'ch caniatâd, hoffwn ysgrifennu atoch gyda'r atebion i'r cwestiynau hynny. Mae'n bosibl i symud arian o fewn y gyllideb. Rydym yn hapus i ystyried hynny. Rwyf am fod mor hyblyg â phosibl wrth drafod hyn, a rwyf am weld y cynllun yn llwyddo. Nid wyf am fod mewn sefyllfa gyda thanwariant yn unrhyw gyllideb; rwy'n credu byddai pawb yn cytuno ar hynny ac rwyf am sicrhau na fydd hynny'n digwydd.

You have asked several detailed questions about the budget and, with your permission, I would like to write to you with the answers to those questions. It is possible to move funding within the budget. We are happy to consider that. I want to be as flexible as possible in discussing this, and I want to see the scheme succeed. I do not want to see an underspend in any budget; I think that everyone would agree on that and I want to ensure that that will not happen.

Nid wyf yn cytuno â chi ar frand Glastir, ond rydych wedi gofyn a yw'r Llywodraeth yn fodlon ystyried taliadau gwahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru. Rydym yn

I do not agree with you about the Glastir brand, but you have asked whether the Government is willing to consider different payments in different parts of Wales. We are

hapus i drafod hynny. Nid oes barn gennym ar hynny ar hyn o bryd. Rydym yn ymgynghori ar CAP o hyd, y broses adolygu, a lle rydym yn sefyll ar CAP. Bydd gennym ein *negotiating postition* erbyn diwedd y mis. Rwyf wedi gofyn i'r gymuned amaethyddol beth yw ei barn ar hynny ac rwy'n aros i glywed yn ôl. Mae'r Llywodraeth yn hapus i drafod hynny a gobeithio cawn gyfle i wneud hynny yn ystod y misoedd nesaf.

happy to discuss that. We do not have an opinion on that at the moment. We are still consulting on CAP, the review process and where we stand on CAP. We will have our negotiating position by the end of the month. I have asked the agriculture community for its opinion on that and I await its reply. The Government is happy to discuss that and I hope that we will have an opportunity to do so during the next few months.

**William Powell:** I am pleased to have the opportunity to respond to the Deputy Minister's statement. Like Llyr Huws Gruffydd, I commend him for the honesty with which he has approached these matters. Those of us who joined the fourth Assembly were not present for the drama that took place in the third Assembly. I think that it is fair to say that 'Tell me what you think' is a useful and direct offer from somebody who, when previously unshackled by the bonds of office, certainly did so with some robustness. That is useful.

**William Powell:** Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ddatganiad y Dirprwy Weinidog. Rwyf i, fel Llyr Huws Gruffydd, yn ei gymeradwyo am y gonestrwydd y mae wedi ei arddel wrth ymdrin â'r materion hyn. Nid oedd y rheini ohonom a ddaeth yn Aelodau'r pedwerydd Cynulliad yn dystion i'r cynnwrf a gafwyd yn y trydydd Cynulliad. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod 'Rhannwch eich barn gyda mi' yn gynnig defnyddiol ac uniongyrchol gan rywun a wnaeth hynny gyda chadernid pan oedd wedi'i ryddhau ef o rwymau swydd yn y gorffennol. Mae hynny'n ddefnyddiol.

In his statement, the Deputy Minister identified a certain number of areas of good news. For example, the extension in the level of coverage of common land under the agri-environment scheme is good news, although it is remarkable that there has been an extension in the coverage of common land, given the extraordinary bureaucratic hurdles that face commoners who often have limited resources to deal with the bureaucracy. That is good news and I welcome it.

Yn ei ddatganiad, nododd y Dirprwy Weinidog rai meysydd penodol lle y mae newyddion da. Er enghraifft, mae'r estyniad i'r tir comin sy'n cael ei gynnwys o dan y cynllun amaeth-amgylcheddol yn newyddion da, er ei bod yn rhyfeddol y bu estyniad i'r tir comin sy'n cael ei gynnwys, o ystyried y rhwystrau biwrocrataidd rhyfeddol sy'n wynebu cominwyr sydd yn aml ag adnoddau prin i ymdrin â'r fiwrocratiaeth. Mae hynny'n newyddion da ac fe'i croesawaf.

I also welcome the response to Llyr Huws Gruffydd's question regarding flexibility. There has been substantial over-application for the agricultural carbon reduction and efficiency scheme. This is an opportunity to look at rebalancing that, and that must be good news. I am also pleased to note the Commissioner's comments last week that recognised our previous achievements in Wales with regard to agri-environment schemes. It is important that we get this right as we go forward into the next phase of CAP reform. Clearly, there are a number of areas where that is not the case at the moment. I will ask the Deputy Minister a series of questions and then make a request.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymateb i gwestiwn Llyr Huws Gruffydd ynghylch hyblygrwydd. Cafwyd llawer gormod o geisiadau i'r cynllun lleihau carbon amaethyddol o ystyried yr hyn a oedd ar gael. Mae hwn yn gyfle i edrych ar ailgydbwyso hynny, a rhaid i hynny fod yn newyddion da. Rwyf yn falch o nodi hefyd sylwadau'r Comisiynydd yr wythnos diwethaf, a oedd yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd gennym o'r blaen yng Nghymru o ran cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae'n bwysig ein bod yn cael hyn yn iawn wrth inni fynd ymlaen i'r cam nesaf o'r broses o ddiwygio'r PAC. Yn amlwg, mae nifer o feysydd lle nad yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Byddaf yn gofyn cyfres o gwestiynau i'r Dirprwy Weinidog ac

yna’n cyflwyno cais iddo.

First, Deputy Minister, in the context of this important listening exercise, do you stand by the comments that were made in the ‘Working Smarter’ report on Glastir, which acknowledged that it was introduced too soon and in a rushed fashion before policy detail was properly developed in a true partnership with stakeholders?

Yn gyntaf, Ddirprwy Weinidog, yng nghyd-destun yr ymarfer gwrando pwysig hwn, a ydych yn dal at y sylwadau a wnaed yn adroddiad ‘Hwyluso’r Drefn’ ar Glastir, a oedd yn cydnabod ei bod wedi cael ei gyflwyno’n rhy fuan ac ar frys, cyn i’r manylion polisi gael eu datblygu’n iawn mewn gwir bartneriaeth â rhanddeiliaid?

Secondly, do you agree that for Glastir to be taken forward successfully, changes have to be made that are based on consensus, cross-stakeholder support and mutual benefit? Crucially, the threats that many people in the industry and commentators thought were implied in your recent announcement must be removed from the table. That poisoned the atmosphere, rather, in discussions on this matter, and it is very important that that is understood and recognised.

Yn ail, a ydych yn cytuno bod yn rhaid i newidiadau gael eu gwneud sy’n seiliedig ar gonsensws a chefnogaeth gan yr holl randdeiliaid, ac sydd er lles pawb, os ydym am fwrw ymlaen â Glastir yn llwyddiannus? Yr hyn sy’n hanfodol yw cael gwared ar y bygythiadau yr oedd llawer o bobl yn y diwydiant a sylwebyddion yn meddwl eu bod ymhlyg yn eich cyhoeddiad diweddar. Gwenwynodd hynny’r awyrgylch braidd mewn trafodaethau ar y mater hwn, ac mae’n bwysig iawn bod hynny’n cael ei ddeall a’i gydnabod.

Do you also recognise the dismay of farming unions and, indeed, farmers across Wales at the withdrawal from Glastir of the specific less favoured area support, which is allowable under EU law, which leaves Wales exposed as the only area in the United Kingdom that does not have a specific support scheme?

A ydych hefyd yn cydnabod siom undebau ffermio ac, yn wir, ffermwyr ledled Cymru ynghylch y ffaith bod y cymorth i ardaloedd llai ffafriol wedi cael ei dynnu o gynllun Glastir, fel y caniateir o dan gyfraith yr UE, sy’n gadael Cymru’n agored fel unig ardal y Deyrnas Unedig nad oes ganddi gynllun cymorth penodol?

Finally, Deputy Minister, when this period of reflection, or rather this listening exercise, is over and you have taken stock of the outcomes, would you be prepared to invite Commissioner Cioloş to come to Wales at the earliest opportunity, along with members of his cabinet? The Royal Welsh Show might offer that opportunity, although I realise that that might be optimistic. However, would you be prepared to issue that invitation so that he can meet directly on Welsh soil farmers and their representatives to understand how this can best work within the context of CAP reform?

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, pan fydd y cyfnod hwn o fyfyrio, neu yn hytrach yr ymarfer gwrando hwn, wedi dod i ben a phan fyddwch wedi ystyried y canlyniadau, a fyddech yn barod i wahodd Comisiynydd Cioloş i ddod i Gymru cyn gynted â phosibl, ynghyd ag aelodau o’i gabinet? Efallai y bydd Sioe Frenhinol Cymru yn cynnig y cyfle hwnnw, er fy mod yn sylweddoli fy mod yn bod yn optimistaidd yn hynny o beth. Fodd bynnag, a fyddech yn barod i roi’r gwahoddiad hwnnw fel y gall gwrdd yn uniongyrchol â ffermwyr a’u cynrychiolwyr ar dir Cymru i ddeall sut y gall hyn weithio orau o fewn cyd-destun diwygio’r PAC?

**Alun Davies:** I am not sure whether to thank you, Bill, or not for that. However, I certainly thank you for the general welcome and the spirit of that response. I am sorry that you missed the drama of the third Assembly, but I

**Alun Davies:** Nid wyf yn siŵr a ddylwn i ddiolch ichi am hynny, Bill, neu beidio. Fodd bynnag, yn sicr rwy’n diolch ichi am y croeso cyffredinol ac am ysbryd yr ymateb hwnnw. Mae’n ddrwg gennyf eich bod wedi colli

can assure you that you will have plenty of opportunity to reread my speeches, which were made at various points during that Assembly, and to read them back to me here and elsewhere. If you have any problems finding those speeches, I am sure that your party leader will provide you with all the help that you need.

cynnwrf y trydydd Cynulliad, ond gallaf eich sicrhau y byddwch yn cael digon o gyfle i ailddarllen fy areithiau, a wnaed ar wahanol adegau yn ystod y Cynulliad hwnnw, ac i'w dyfynnu imi yma ac mewn mannau eraill. Os oes gennych unrhyw broblemau wrth ddod o hyd i'r areithiau hynny, rwy'n siŵr y bydd arweinydd eich plaid yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch.

You are right to join us in celebrating the success of the common land element. There are a number of issues that we need to look at in terms of how we manage common land, and it is something that, in your part of the world, in Powys, has been a considerable issue over a number of years. It is something that we recognise and we hope that we can address it during this Assembly.

Rydych yn gywir i ymuno â ni i ddathlu llwyddiant yr elfen tir comin. Mae nifer o faterion y mae angen inni eu hystyried o ran sut yr ydym yn rheoli tir comin, ac yn eich rhan chi o'r byd, ym Mhowys, mae wedi bod yn fater sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn cydnabod hynny ac rydym yn gobeithio y gallwn fynd i'r afael ag ef yn ystod y Cynulliad hwn.

I also thank you for recognising the flexibility with which we are trying to approach this subject. It is important that farmers have both the certainty of understanding where the scheme is going and how it will affect their businesses, but also the flexibility to enable us to meet the needs of individual farms and farmers.

Diolch ichi hefyd am gydnabod yr hyblygrwydd yr ydym yn ceisio ei arddel wrth ymdrin â'r pwnc hwn. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn cael y sicrwydd o ddeall i ble y mae'r cynllun yn mynd a sut y bydd yn effeithio ar eu busnesau, ond hefyd yr hyblygrwydd i'n galluogi ni i ddiwallu anghenion ffermydd a ffermwyr unigol.

You asked me whether I accept the criticism made in the 'Working Smarter' document; yes, I do. I accepted all the recommendations in that document and I accept the analysis contained within it as well. I deliberately sought out an independent voice and an independent lead for that piece of work, because I believe that we need to understand how the process of the management of these matters works. I accept the criticisms that were made in that document, which we have previously debated.

Gwnaethoch ofyn imi a oeddwn yn derbyn y feirniadaeth a wnaed yn nogfen 'Hwyluso'r Drefn'; ydw, rwy'n ei derbyn. Derbyniais yr holl argymhellion yn y ddogfen honno, ac rwy'n derbyn y dadansoddiad ynddi hefyd. Chwiliais yn fwriadol am lais annibynnol ac arweinydd annibynnol ar gyfer y gwaith hwnnw, gan fy mod yn credu bod angen inni ddeall sut y mae'r broses o reoli'r materion hyn yn gweithio. Rwy'n derbyn y feirniadaeth a wnaed yn y ddogfen honno, yr ydym wedi eu trafod eisoes.

4.30 p.m.

In terms of Glastir itself, you asked me to assure you that changes would be made only on the basis of consensus. I have to say to you that that has not always been the nature of the debate on Glastir. We could quite often have consensus on the nature of the problem, but not on the nature of the answer. At the end of the day, one of the reasons why I am anxious to take personal responsibility for this is that we have been through a number of reviews, there have been a number of

O ran Glastir ei hun, gwnaethoch ofyn imi eich sicrhau y byddai newidiadau'n cael eu gwneud ar sail consensws yn unig. Rhaid imi ddweud wrthych nad hynny sydd wedi nodweddu'r ddadl ar Glastir bob amser. Yn aml, byddai gennym gonsensws ar natur y broblem, ond nid ar natur yr ateb. Yn y pen draw, un o'r rhesymau pam yr wyf yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb personol dros hyn yw am ein bod wedi bod drwy nifer o adolygiadau, a bu nifer o newidiadau, ac

changes, and it is time for me as Deputy Minister to take responsibility for the delivery of this programme in the future. I considered inviting another independent lay person to lead this piece of work, but I ultimately felt that that would not be the best way to approach this. I think that this is an area where we need personal ministerial responsibility, so that members of the agriculture industry and community can hold me accountable for the decisions that I take over the coming weeks and months. However, I cannot give you an assurance that all of those decisions will be based on consensus; they will be based on good faith as to what I believe is best for the industry and for the scheme. We all understand that there are many different views on that.

mae'n bryd i mi fel Dirprwy Weinidog gymryd cyfrifoldeb dros ddarparu'r rhaglen hon yn y dyfodol. Fe ystyriais wahodd rhywun lleyg annibynnol arall i arwain y darn hwn o waith, ond yn y pen draw, roeddwn yn teimlo nad dyna fyddai'r ffordd orau o ymdrin â hyn. Credaf fod hwn yn faes lle mae angen cyfrifoldeb gweinidogol personol, fel y gall aelodau o'r diwydiant amaeth a'r cyhoedd fy nal i'n atebol am y penderfyniadau y byddaf yn eu gwneud dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Fodd bynnag, ni allaf eich sicrhau y bydd pob un o'r penderfyniadau hynny yn seiliedig ar gonsensws; byddant yn seiliedig ar ewyllys da o ran yr hyn yr wyf yn credu fyddai orau i'r diwydiant ac i'r cynllun. Rydym i gyd yn deall bod llawer o wahanol safbwyntiau ar hynny.

I have already met and discussed with Commissioner Cioloş, and I invited him to the Royal Welsh some time ago. He has accepted that invitation, and I look forward to welcoming him to Wales in the summer. We have had a number of opportunities to discuss the nature of support for the LFA, and I well remember the conversations that we had in the autumn on the changes that we were compelled to make to the LFA segment of Glastir.

Rwyf eisoes wedi cwrdd a thrafod â'r Comisiynydd Cioloş, ac estynais wahoddiad iddo i'r Sioe Frenhinol beth amser yn ôl. Mae wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw, ac edrychaf ymlaen at ei groesawu i Gymru yn yr haf. Rydym wedi cael nifer o gyfleoedd i drafod natur y gefnogaeth i'r ardaloedd llai ffafriol, a chofiaf yn dda y sgyrsiau a gawsom yn yr hydref ar y newidiadau yr oedd yn rhaid eu gwneud i adran ardaloedd llai ffafriol Glastir.

Let me say this to you and to other Members this afternoon: we increased the amount payable per hectare to everyone in Wales in the autumn. Not a single farmer anywhere in Wales lost out as a consequence of that decision. In fact, every single farmer, without exception, gained as a consequence of it. I regard it as disappointing at best and, frankly, disingenuous of Members here or elsewhere to suggest that people have been penalised in some way because of that. The facts and the information that we had at our fingertips were not simply Welsh Government facts and research—it was independently commissioned and reviewed. We provided that information to the Commission and to others. It has been examined and it has not been challenged. The information that we had available to us clearly indicated the money available and the way in which we could pay it. As I said before, it is disingenuous for anyone to suggest that any farmer anywhere in Wales lost out as a consequence of that

Gadewch i mi ddweud hyn wrthych chi, ac Aelodau eraill, y prynhawn yma: gwnaethom ni gynyddu'r swm sy'n daladwy am bob hectar i bawb yng Nghymru yn yr hydref. Nid oedd yr un ffermwr yng Nghymru ar ei golled o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw. Yn wir, mae pob un ffermwr, yn ddieithriad, ar ei ennill o ganlyniad iddo. Rwy'n ei gweld hi'n siomedig, ar y gorau, ac yn gamarweiniol bod Aelodau yma, neu yn rhywle arall, yn awgrymu bod pobl wedi cael eu cosbi mewn rhyw ffordd oherwydd hynny. Nid ffeithiau a gwybodaeth yn seiliedig ar waith ymchwil a ffeithiau gan Lywodraeth Cymru oedd gennym ar y pryd—cafodd y gwaith ei gomisiynu a'i adolygu yn annibynnol. Gwnaethom ni ddarparu'r wybodaeth honno i'r Comisiwn ac i eraill. Mae wedi cael ei harchwilio ac nid yw wedi cael ei herio. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn dangos yn glir yr arian a oedd ar gael a'r ffordd y gallem ei dalu. Fel y dywedais o'r blaen, mae'n gamarweiniol i unrhyw un

decision. The truth is that every famer who joined Glastir has gained as a consequence, and I hope that Members will not allow that false information to continue to circulate anywhere in this country.

awgrymu bod yr un ffermwr, unrhyw le yng Nghymru ar ei golled o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw. Y gwir yw bod pob ffermwr, a ymunodd â Glastir, ar ei ennill o ganlyniad iddo, ac rwy'n gobeithio na fydd yr Aelodau'n caniatáu i'r wybodaeth ffug honno barhau i gael ei chylchredeg unrhyw le yng Nghymru.

**Rebecca Evans:** Deputy Minister, I very much welcome your statement today. Glastir has the potential to be the Welsh Government's most powerful tool to address biodiversity decline, to enhance landscape quality and to deliver the ecosystems approach in the wider countryside. Therefore, it is vital that the voice of the environmental sector is also heard in this stocktaking exercise.

**Rebecca Evans:** Ddirprwy Weinidog, rwy'n croesawu eich datganiad heddiw'n fawr. Mae gan gynllun Glastir y potensial i fod yr arf mwyaf pwerus sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, er mwyn gwella ansawdd y tirwedd ac i gyflwyno'r dull ecosystemau yng nghefn gwlad yn ehangach. Felly, mae'n hanfodol bod llais y sector amgylcheddol yn cael ei glywed hefyd yn yr ymarfer cymryd stoc hwn.

In the last review, the environmental sector raised concerns that some of the review group's recommendations would reduce the scheme's ability to deliver against its key objectives on biodiversity and sound landscape stewardship practices. However, due to the under-representation of environmental sector expertise in the review group, the sector felt that many of these concerns were not given sufficient consideration. So, Deputy Minister, I have two questions for you. First, will you commit to fully engaging with the environmental sector in a proactive way during this exercise? Secondly, how will you ensure that the review does not erode the stated objectives that it needs to deliver, including delivering against biodiversity targets?

Yn yr adolygiad diwethaf, mynegodd y sector amgylcheddol bryderon y byddai rhai o argymhellion y grŵp adolygu yn lleihau gallu'r cynllun i gyflawni ei amcanion allweddol ar fioamrywiaeth ac ar arferion cadarn o ran stiwardiaeth tirwedd. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cynrychiolaeth arbenigol o'r sector amgylcheddol yn y grŵp adolygu, roedd y sector yn teimlo na chafodd llawer o'r pryderon hyn eu hystyried yn ddigonol. Felly, Ddirprwy Weinidog, mae gennyf ddau gwestiwn i chi. Yn gyntaf, a wnewch chi ymrwymo i ymgysylltu'n llawn â'r sector amgylcheddol mewn ffordd ragweithiol yn ystod yr ymarfer hwn? Yn ail, sut y byddwch yn sicrhau nad yw'r adolygiad yn erydu'r amcanion a nodwyd y mae'n rhaid iddo eu cyflawni, gan gynnwys cyflawni yn erbyn targedau bioamrywiaeth?

**Alun Davies:** You are absolutely right, Rebecca, that Glastir has the potential to be a powerful tool to deliver on these issues. There seems to be a debate here in the Chamber and elsewhere about the nature of some of the challenges facing us. I sat on the Sustainability Committee of the last Assembly, and we published a report just after Christmas of the year before last that clearly stated that the then Welsh Government had failed to meet its biodiversity targets, and that agri-environment schemes had the potential to play a significant role in doing so. In many

**Alun Davies:** Rydych yn llygad eich lle, Rebecca, fod gan Glastir y potensial i fod yn arf pwerus i gyflawni'r materion hyn. Mae'n ymddangos bod dadl yma yn y Siambr ac mewn mannau eraill am natur rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu. Eisteddais ar Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad diwethaf, a gyhoeddodd adroddiad yn fuan wedi Nadolig y flwyddyn cyn y llynedd a oedd yn datgan yn glir bod Llywodraeth Cymru ar y pryd wedi methu â chyflawni ei thargedau bioamrywiaeth, a bod potensial gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol i chwarae rhan sylweddol yn hynny o beth. Mewn sawl

ways, it was a commentary on the pre-existing agri-environment schemes and provided a very powerful argument for my predecessor's decision, which I fully endorse, to end them and introduce Glastir.

ffordd, roedd yn sylwebaeth ar y cynlluniau amaeth-amgylcheddol a oedd yn bodoli eisioes ac yn darparu dadl gref dros benderfyniad fy rhagflaenydd—yr wyf yn ei llwyr gefnogi—i roi diwedd arnynt, a chyflwyno cynllun Glastir.

With regard to where we are going now, we have very clear directives, responsibilities and obligations to meet. The birds directive, the water directive and the habitats directive give us a very clear legislative and statutory framework within which we must work. Those are not options; they are obligations, and it is wrong to mislead Members in the Chamber or people elsewhere that we can somehow adopt a pick-and-mix attitude to law and the statutory obligations that we have. This Government will not do that. This Government will meet its obligations and ensure that those directives are implemented fully in Wales. You would expect nothing else from this Government, and we will deliver that. We are committed to ensuring that we engage with everyone.

O ran ble yr ydym yn mynd nawr, mae gennym gyfarwyddebau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau clir iawn i'w cyflawni. Mae'r gyfarwyddeb adar, y gyfarwyddeb dŵr a'r gyfarwyddeb cynefinoedd yn rhoi fframwaith deddfwriaethol a statudol clir iawn i ni y mae'n rhaid inni weithio oddi mewn iddi. Nid dewisiadau ydynt; maent yn rwymedigaethau, ac mae'n anghywir i gamarwain Aelodau yn y Siambr, neu bobl mewn mannau eraill, y gallwn rywsut ddewis a dethol pa gyfreithiau a rhwymedigaethau statudol i'w mabwysiadu. Ni fydd y Llywodraeth hon yn gwneud hynny. Bydd y Llywodraeth hon yn bodloni ei rhwymedigaethau ac yn sicrhau bod y cyfarwyddebau hynny'n cael eu gweithredu'n llawn yng Nghymru. Ni fyddech yn disgwyl dim byd gwahanol gan y Llywodraeth hon, a byddwn yn cyflawni hynny. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phawb.

Rebecca, it is true to say that the environmental sector did not feel fully engaged before this. However, then again, frankly, a lot of people said that and a lot of people made similar sorts of criticisms. I will ensure that everyone, without favour, will have the opportunity to speak to us about this. Anyone who wishes to contribute to this stocktaking exercise should do so. There will be no favours for anyone. There will be a very clear and fair process, which will take place over the coming months, and I will report to the Assembly in June on my conclusions from the exercise. In answering your question, Rebecca, I repeat that the purpose of Glastir is to deliver on our responsibilities and environmental obligations. A critical and central part of that is biodiversity. The current agri-environment schemes have not delivered on that. I hope that Glastir will.

Rebecca, mae'n wir i ddweud nad oedd y sector amgylcheddol yn teimlo ei fod wedi'i gynnwys yn llawn cyn hyn. Fodd bynnag, i ddweud y gwir, dywedodd llawer o bobl hynny, a chafwyd beirniadaeth o'r fath gan lawer. Byddaf yn sicrhau bod pawb, heb ffafriaeth, yn cael y cyfle i siarad â ni am hyn. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu at yr ymarfer cymrd stoc hwn wneud hynny. Ni fydd unrhyw ffafrau i unrhyw un. Bydd yn broses glir a theg iawn, a fydd yn digwydd dros y misoedd i ddod, a byddaf yn adrodd i'r Cynulliad ym mis Mehefin ar fy nghasgliadau. Wrth ateb eich cwestiwn, Rebecca, ailadroddaf mai diben Glastir yw cyflawni ein cyfrifoldebau a'n rhwymedigaethau amgylcheddol. Rhan hanfodol a chanolog o hynny yw bioamrywiaeth. Nid yw'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol wedi cyflawni hynny. Y gobaith yw y bydd Glastir yn cyflawni.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, the figures released by the Welsh Government on 1

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae'r ffigurau a ryddhawyd gan Lywodraeth

February show that, of the 14,000 expressions of interest, 3,000 applications were received. Some 1,658—40% of the initial applicants—have subsequently decided not to or have been unable to join the scheme from January 2012. Therefore, I think that it is a worthy topic of debate today. Although I welcome your statement, I do so with caution because, although, overall, it reads as though you really do want to work with farmers in a positive way, it is fair to say that the last paragraph on page 2 says it all, where you say that it is critical that farmers understand that Glastir is a vital element in the Welsh Government's delivery of its environmental objectives and obligations. However, you then go on to say that it may ultimately prove necessary to introduce greater regulatory burden. To me, that is a fundamental contradiction of the 'Working Smarter' principles.

Cymru ar 1 Chwefror yn dangos, o'r 14,000 o ddatganiadau o ddiddordeb, mai 3,000 o geisiadau a ddaeth i law. Mae 1,658—sef 40% o'r ymgeiswyr cychwynnol—wedi penderfynu peidio ag ymuno â'r cynllun, neu wedi methu â gwneud hynny, o fis Ionawr 2012. Felly, credaf fod y pwnc yn teilyngu dadl heddiw. Er fy mod yn croesawu eich datganiad, rwyf yn gwneud hynny gyda gofal oherwydd er ei fod, ar y cyfan, yn darllen fel pe baech wir am weithio gyda ffermwyr mewn ffordd gadarnhaol, mae'n deg dweud bod y paragraff olaf ar dudalen 2 yn dweud y cyfan, lle rydych yn dweud ei bod yn hanfodol bod ffermwyr yn deall bod Glastir yn elfen hanfodol wrth ddarparu amcanion a rhwymedigaethau amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ewch ymlaen i ddweud y gallai fod yn angenrheidiol yn y diwedd i gyflwyno mwy o faich rheoleiddio. I mi, mae hynny'n gwbl groes i egwyddorion 'Hwyluso'r Drefn'.

Farming industry partners, such as NFU Cymru, have expressed concern that only 120 farmers have been offered the ACRES carbon-reduction element. It goes on. If the Welsh Government is truly committed to sustainability, there needs to be a concerted effort to increase take-up of the scheme. How are you going to achieve greater take-up of this scheme? How are you going to free up the funds so that key industry stakeholders can subscribe to the scheme? As someone who has regularly participated in hustings meetings with farmers, I can tell you that, when you actually say to them, 'Tell me what you think,' you may be quite surprised, given your earlier comments today, because I think that the farmers will tell you what they think. I would like the answer to that question, please. I know of many farmers across Wales, particularly in my constituency, who are very demoralised. Other Members have very eloquently spoken of the problems. To downgrade that in any way is a big smack to our farmers across Wales.

Mae partneriaid yn y diwydiant ffermio, fel NFU Cymru, wedi mynegi pryder mai dim ond 120 o ffermwyr sydd wedi cael cynnig yr elfen lleihau carbon amaethyddol, sef ACRES. Mae'n mynd ymlaen. Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n wirioneddol i gynaliadwyedd, mae angen ymdrech gydunol i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod mwy yn cymryd rhan yn y cynllun hwn? Sut ydych chi'n mynd i ryddhau arian fel y gall rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant danysgrifio i'r cynllun? Fel rhywun sydd wedi cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfarfodydd hysting â ffermwyr, gallaf ddweud, pan fyddwch yn dweud wrthynt, 'Rhannwch eich barn gyda mi', y byddwch yn cael eich synnu braidd, o ystyried eich sylwadau yn gynharach heddiw, gan fy mod yn credu y bydd ffermwyr yn dweud wrthych beth yw eu barn. Hoffwn gael yr ateb i'r cwestiwn hwnnw, os gwelwch yn dda. Gwn am lawer o ffermwyr ar draws Cymru, yn enwedig yn fy etholaeth i, sydd wedi'u digalonni. Mae Aelodau eraill wedi siarad yn huawdl iawn am y problemau. Byddai israddio hynny mewn unrhyw ffordd yn ergyd fawr i'n ffermwyr yng Nghymru.

**Alun Davies:** I have not known many farmers who have not told me exactly what they think, whether I have asked them to or

**Alun Davies:** Nid wyf yn gwybod am lawer o ffermwyr nad ydynt wedi dweud wrthyf yn union beth yw eu barn, pa un a ydwyf wedi

not. Janet, I have to say to you that one of the problems with your reading out questions is that you need to pay attention to earlier answers. Had you done so, you would have heard me being very clear about our legal obligations in terms of delivering Glastir and sustainability.

gofyn iddynt ai peidio. Janet, mae'n rhaid i mi ddweud mai un o'r problemau wrth i chi ddarllen eich cwestiynau yw fod angen i chi dalu sylw i atebion cynharach. Pe baech wedi gwneud hynny, byddech wedi fy nghlywed yn bod yn glir iawn am ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran darparu Glastir a chynaliadwyedd.

I am undertaking this exercise not because I have been forced to do so, but because I want to do so, because I want to learn about how people feel about this. I want to understand in a structured fashion how we will deliver this programme and I want to understand how people expect this scheme to work in practice. I have heard many different views on Glastir; I have listened to some people who simply want Glastir abolished and go back to previous agri-environment schemes. That is not going to happen. It never was going to happen. The previous agri-environment schemes were abolished in May 2009 and people need to understand and appreciate that.

Nid wyf yn ymgymryd â'r ymarfer hwn am fy mod wedi cael fy ngorfodi i wneud hynny, ond yn hytrach am fy mod am wneud hynny, oherwydd rwyf am ddysgu beth yw teimladau pobl ynglŷn â hyn. Rwyf am ddeall mewn modd strwythuredig sut y byddwn yn cyflwyno'r rhaglen hon ac rwyf am ddeall sut mae pobl yn disgwyl i'r cynllun hwn weithio'n ymarferol. Rwyf wedi clywed llawer o safbwyntiau gwahanol am Glastir; rwyf wedi gwrando ar rai pobl sydd eisiau diddymu Glastir a mynd yn ôl i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Nid yw hynny'n mynd i ddigwydd. Nid oedd byth yn mynd i ddigwydd. Cafodd y cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol eu diddymu yn mis Mai 2009 ac mae angen i bobl ddeall a gwerthfawrogi hynny.

I have been very clear this afternoon, and I hope that I have been clear elsewhere at other times, that this is a period for listening and conversing with people throughout Wales and listening to what people have to say. I did not choose those words by accident; 'Tell me what you think' was something that I designed in order to enable people to have a conversation about any element of Glastir as it affects them. I did not seek to delineate or define the conversation and I do not seek to delineate or define contributions to this conversation. I want to hear exactly what people feel and think. I well understand that that might be somewhat uncomfortable and I well understand that that might well mean that people tell me things that I may not want to hear. I understand and I appreciate that. That is why we are starting this process. The undertaking I give to Members this afternoon is that I will conduct this process in an entirely fair way with no favour to anyone. I will listen equally, I will listen actively and I will proactively seek out people's opinions and views. When we have had this conversation I will take decisions on this and I will take responsibility for those decisions.

Rwyf wedi bod yn glir iawn y prynhawn yma, ac rwy'n gobeithio fy mod wedi bod yn glir mewn mannau eraill ar adegau eraill, mai cyfnod i wrando a siarad â phobl ledled Cymru yw hwn, a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Nid ar ddamwain y dewisais y geiriau hynny; roedd 'Rhannwch eich barn gyda mi' yn rhywbeth y cynlluniais er mwyn galluogi pobl i gael sgwrs am unrhyw elfen o Glastir fel y mae'n effeithio arnyn nhw. Nid oeddwn yn ceisio darlunio neu ddiffinio'r sgwrs ac nid wyf yn bwriadu ceisio darlunio neu ddiffinio'r cyfraniadau at y sgwrs. Rwyf am glywed beth yn union y mae pobl yn ei deimlo ac yn ei feddwl. Rwy'n deall yn iawn y gallai hynny fod ychydig yn anghyfforddus ac rwy'n deall y gallai hynny hefyd olygu bod pobl yn dweud pethau nad wyf, o bosibl, am eu clywed. Rwy'n deall ac yn gwerthfawrogi hynny. Dyna pam yr ydym yn dechrau'r broses hon. Rwy'n dweud wrth Aelodau y prynhawn yma y byddaf yn ymgymryd â'r broses hon mewn ffordd gwbl deg heb unrhyw ffafr i neb. Byddaf yn gwrando'n gyfartal, yn gwrando'n barhaus a byddaf yn mynd ati i geisio barn a safbwyntiau pobl yn barhaus. Pan fyddwn

wedi cael y sgwrs hon byddaf yn gwneud penderfyniadau ar hyn, a byddaf yn cymryd cyfrifoldeb dros y penderfyniadau hynny.

## Y Gyllideb Atodol
## The Supplementary Budget

*Cynnig NDM4914 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 7 Chwefror 2012.*

*Motion NDM4914 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Supplementary Budget for the financial year 2011-12 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 7 February 2012.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

This supplementary budget reflects all changes that have been made since the first supplementary budget was approved by the Assembly last July. In this supplementary budget, we are allocating an additional £320.6 million to support our strategic priorities and this includes over £170 million in support of capital investment. We have been able to provide this important injection of capital funding as a result of a range of measures that we have taken this year, including our decision to transfer £97 million from resource to capital. As Members know, I had already signalled my intention in February 2011 to switch £57 million from resource to capital this year to boost our capital investment. This was possible because, in 2010-11, the One Wales Government was able to find the full £113.5 million resource reductions that we were required to make by the UK Government in the June 2010 budget. By finding the full resource reductions in 2010-11, we had an additional £57 million available to us in 2011-12 and I said then that we would use this additional flexibility to mitigate partially the cut in our capital budget by the UK Government.

Mae'r gyllideb atodol hon yn adlewyrchu'r holl newidiadau a wnaed ers i'r gyllideb atodol gyntaf gael ei chymeradwyo gan y Cynulliad fis Gorffennaf diwethaf. Yn y gyllideb atodol hon, rydym yn dyrannu £320.6 miliwn yn ychwanegol i gefnogi ein blaenoriaethau strategol ac mae hyn yn cynnwys dros £170 miliwn o gymorth mewn buddsoddiad cyfalaf. Rydym wedi gallu darparu'r chwistrelliad pwysig hwn o arian cyfalaf o ganlyniad i amrywiaeth o fesurau yr ydym wedi eu cymryd eleni, gan gynnwys ein penderfyniad i drosglwyddo £97 miliwn o adnoddau i gyfalaf. Fel y gŵyr Aelodau, fe nodais ym mis Chwefror 2011 fy mwriad i drosglwyddo £57 miliwn o adnoddau i gyfalaf eleni er mwyn rhoi hwb i'n buddsoddiad cyfalaf. Roedd hyn yn bosibl oherwydd, yn 2010-11, llwyddodd Llywodraeth Cymru'n Un i ddod o hyd i'r gostyngiadau adnoddau o £113.5 miliwn yn llawn, yn unol a'r hyn oedd yn ofynnol i ni ei wneud gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng nghyllideb Mehefin 2010. Drwy ddod o hyd i'r gostyngiadau adnoddau llawn yn 2010-11, roedd £57 miliwn ychwanegol ar gael i ni yn 2011-12, a dywedais bryd hynny y byddem yn defnyddio'r hyblygrwydd ychwanegol hwn i liniaru'n rhannol y toriad yn ein cyllideb cyfalaf gan Lywodraeth y DU.

In November, I also announced an economic stimulus package of £38.9 million over a

Ym mis Tachwedd, cyhoeddais hefyd becyn gwerth £38.9 miliwn dros gyfnod o ddwy

two-year period. Of this, £30.7 million is being allocated this year, with £30 million transferred from resource to capital in this supplementary budget. In addition, we have also been able to transfer a further £10 million resource to capital as a result of our careful financial management. This extra capital funding provides an important economic boost and provides additional investment in our public infrastructure, including schools, hospitals and social housing. Importantly, the allocations that we have made this year have allowed us to reduce the impact of the reductions made in the final budget of 2011-12. For example, the additional £22.5 million that we are allocating for social housing this year means that this budget increases by over 30% compared to previously published plans for 2011-12. This means that we have reduced the cut this budget faced this year, compared to last year's plans, from 31% to 8% to enable us to build up to 250 additional homes in the social housing sector to help meet the housing need in Wales. Other significant allocations in this supplementary budget include the £93 million to the NHS to support service improvements and efficiencies. In total, we have allocated an additional £164 million from central reserves to health this year. This means that the health resource budget has increased by over 2% compared with the spending plans set out in the final budget of 2011-12, and the capital budget has increased by 20%. This is without the additional funding provided to the NHS from the Minister for health's budget.

flynedd i ysgogi'r economi. O'r swm hwn, bydd £30.7 miliwn yn cael ei ddyrannu eleni, gyda £30 miliwn yn cael ei drosglwyddo o adnoddau i gyfalaf yn y gyllideb atodol hon. Yn ogystal, rydym wedi gallu trosglwyddo £10 miliwn pellach o adnoddau i gyfalaf o ganlyniad i'n rheolaeth ariannol ofalus. Mae'r cyllid cyfalaf ychwanegol hwn yn rhoi hwb economaidd pwysig ac yn darparu buddsoddiad ychwanegol yn ein seilwaith cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, ysbytai a thai cymdeithasol. Yn bwysig, mae'r dyraniadau yr ydym wedi'u gwneud eleni wedi ein galluogi i leihau effaith y gostyngiadau yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2011-12. Er enghraifft, mae'r £22.5 miliwn ychwanegol yr ydym yn ei ddyrannu ar gyfer tai cymdeithasol eleni yn golygu bod y gyllideb hon yn cynyddu dros 30% o'i chymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2011-12. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gostwng y toriadau yr oedd y gyllideb hon yn ei hwynebu eleni, o'u cymharu â chynlluniau y llynedd, o 31% i 8% er mwyn ein galluogi i adeiladu hyd at 250 o gartrefi ychwanegol yn y sector tai cymdeithasol i helpu i ddiwallu'r angen am dai yng Nghymru. Mae dyraniadau sylweddol eraill yn y gyllideb atodol hon yn cynnwys y £93 miliwn i'r GIG er mwyn helpu i wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd. At ei gilydd, rydym wedi dyrannu £164 miliwn yn ychwanegol i iechyd eleni o'r cronfeydd wrth gefn canolog. Mae hynny'n golygu bod y gyllideb adnoddau iechyd wedi cynyddu 2% o'i chymharu â'r cynlluniau gwariant a nodir yng nghyllideb derfynol 2011-12, ac mae'r gyllideb gyfalaf wedi cynyddu 20%. Gwneir hyn heb y cyllid ychwanegol a ddarperir i'r GIG o gyllideb y Gweinidog iechyd.

4.45 p.m.

I am also confirming my intention in this supplementary budget to maximise the limited flexibility available to us under the budget exchange system. At present, we are planning to carry forward nearly £33.2 million fiscal resource departmental expenditure limit to next year, including £20 million for the pupil deprivation grant, which I announced in the final budget debate in December, and £4 million for the local authority borrowing initiative, an initiative which should result in up to £170 million of

Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mwriad yn y gyllideb atodol hon i wneud y gorau o'r hyblygrwydd cyfyngedig sydd gennym o dan y system cyfnewid cyllideb. Ar hyn o bryd, ein bwriad yw dwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf bron i £33.2 miliwn o adnoddau ariannol yn y terfynau gwariant adrannol, gan gynnwys £20 miliwn ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, a gyhoeddais yn y ddadl derfynol ar y gyllideb ym mis Rhagfyr, a £4 miliwn ar gyfer menter benthyca awdurdodau lleol, sy'n fenter a ddylai olygu

additional capital funding invested in highway enhancements over the coming three financial years.

bod hyd at £170 miliwn mewn cyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn gwelliannau i briffyrdd dros y tair blynedd ariannol nesaf.

I thank the Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget and its subsequent report, which was published last week. I welcome the positive comments that the committee has made regarding the open and transparent approach with which this Government has sought to facilitate the scrutiny of the supplementary budget. I accept the recommendations of the Finance Committee and I have already responded to the Chair on the report, with a commitment to provide further detail in due course. I trust that Members will welcome this supplementary budget, which demonstrates our continuing commitment to supporting growth and jobs in Wales.

Diolchaf i’r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y gyllideb atodol ac am ei adroddiad dilynol, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Rwy’n croesawu’r sylwadau cadarnhaol y mae’r pwyllgor wedi’u gwneud am y dull agored a thryloyw y mae’r Llywodraeth hon wedi’i fabwysiadu i geisio hwyluso’r gwaith o graffu ar y gyllideb atodol. Rwy’n derbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid ac rwyf eisoes wedi ymateb i’r Cadeirydd ynghylch yr adroddiad, gan roi ymrwymiad i ddarparu rhagor o fanylion maes o law. Hyderaf y bydd yr Aelodau’n croesawu’r gyllideb atodol hon, sy’n dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi twf a swyddi yng Nghymru.

**Christine Chapman:** The financial climate continues to present stark challenges to the Welsh Government in managing its budget. It also maintains the urgent requirement for the Finance Committee, on behalf of which I am speaking today, to ensure that Wales gets the best from every penny, let alone every pound, of public money spent. We considered that there was much to welcome in the Welsh Government’s second supplementary budget of the 2011-12 financial year.

**Christine Chapman:** Mae’r hinsawdd ariannol yn parhau i gyflwyno heriau anodd i Lywodraeth Cymru wrth iddi reoli ei chyllideb. Mae hefyd yn tanlinellu’r angen brys i’r Pwyllgor Cyllid, yr wyf yn siarad ar ei ran heddiw, sicrhau bod Cymru’n cael y gorau o bob ceiniog o arian cyhoeddus sy’n cael ei wario, heb sôn am bob punt. Roeddem o’r farn bod llawer i’w groesawu yn ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12.

This supplementary budget allocates an additional £303.1 million in departmental expenditure limits across all Welsh Government departments. It has switched £97 million from revenue to capital, with the Welsh Government clearly attempting to address the reduction in capital funding for Wales, which has previously been highlighted as a serious concern to the Finance Committee.

Mae’r gyllideb atodol hon yn dyrannu £303.1 miliwn yn ychwanegol yn y terfynau gwariant adrannol ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Mae wedi newid £97 miliwn a oedd ar ffurf refeniw yn gyfalaf, wrth i Lywodraeth Cymru wneud ymdrech glir i fynd i’r afael â’r gostyngiad yn y cyllid cyfalaf i Gymru, y tynnwyd sylw ato o’r blaen fel testun pryder difrifol i’r Pwyllgor Cyllid.

The supplementary budget also allocates £93 million from revenue reserves to NHS delivery. Of this, we were told that £63 million would be used to place the NHS on a sustainable financial footing for the future, with £30 million being allocated to Hywel Dda Local Health Board as part of a four-year package to support the transformation of services. In our report, we asked the Minister for clarification on the evidence base for the

Mae’r gyllideb atodol hefyd yn dyrannu £93 miliwn o’r cronfeydd refeniw wrth gefn i’r gwaith o gyflawni yn y GIG. Dywedwyd wrthym y byddai £63 miliwn o’r swm hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau sylfaen ariannol gynaliadwy i’r GIG at y dyfodol, a dyrannwyd £30 miliwn i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o becyn pedair blynedd i gefnogi’r gwaith o drawsnewid gwasanaethau. Yn ein hadroddiad,

decision to provide a total of £80 million in funding over four years to Hywel Dda Local Health Board. We also expressed concern that, despite the supplementary budget allocating an additional £63 million towards putting the NHS on a sustainable financial footing, many LHBs still appear to be at risk of overspending on their budgets. Following this supplementary budget, the Welsh Government will have only £23.6 million in unallocated reserves to deal with any pressures until the end of the financial year. We believe that it is, therefore, crucial that the Welsh Government works with local health boards to ensure that they meet their statutory financial obligations, without compromising on the delivery of services to patients. If individual local health boards do not meet such obligations, we urge that senior managers are held to account for such by the Minister.

gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro ar sail pa dystiolaeth y penderfynwyd darparu cyfanswm o £80 miliwn o gyllid dros bedair blynedd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Gwnaethom hefyd fynegi pryder ei bod yn ymddangos bod risg o hyd y bydd llawer o fyrddau iechyd lleol yn gorwario ar eu cyllidebau, er gwaethaf y ffaith bod y gyllideb atodol yn dyrannu £63 miliwn ychwanegol at sicrhau bod gan y GIG sylfaen ariannol gynaliadwy. Yn dilyn y gyllideb atodol hon, dim ond £23.6 miliwn a fydd gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cronfeydd wrth gefn nas dyrannwyd er mwyn ymdrin ag unrhyw bwysau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Felly, rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau ariannol statudol, heb gyfaddawdu ar ddarparu gwasanaethau i gleifion. Os nad yw byrddau iechyd lleol unigol yn bodloni rhwymedigaethau o'r fath, rydym yn mynnu bod y Gweinidog yn dwyn uwch reolwyr i gyfrif am hynny.

I should also note that this is the first supplementary budget presented to the Assembly since the Welsh Government's budget motion moved to a single expenditure limit rather than individual control totals for each main expenditure group. As such, I would like to close by welcoming the open and transparent approach with which the Welsh Government has sought to facilitate our scrutiny of its supplementary budget.

Dylwn nodi hefyd mai hon yw'r gyllideb atodol gyntaf a gyflwynwyd i'r Cynulliad ers i gynnig Llywodraeth Cymru ar y gyllideb fabwysiadu terfyn gwariant unigol yn hytrach na chyfansymiau rheoli unigol i bob prif grŵp gwariant. Felly, hoffwn gloi drwy groesawu'r dull agored a thryloyw y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu i geisio hwyluso ein gwaith o graffu ar ei chyllideb atodol.

**Paul Davies:** I am pleased to take part in this debate this afternoon. I welcome the fact that an additional £303 million is being allocated in departmental expenditure limits to Welsh Government departments, and I hope that the Government uses the additional money wisely to obtain the best value for the Welsh taxpayer. Given the tight financial settlements, it is even more important that the Government is prudent in how it spends public money. It is also essential that the Welsh Government demonstrates its effectiveness in managing financial risks, so it is crucial that the Government works with its stakeholders to ensure that it delivers for the people of Wales.

**Paul Davies:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Croesawaf y ffaith bod £303 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn y terfynau gwariant adrannol i adrannau Llywodraeth Cymru, a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r arian ychwanegol yn ddoeth i gael y gwerth gorau i drethdalwyr Cymru. O ystyried y setliadau ariannol tyn, mae'n bwysicach fyth bod y Llywodraeth yn ddoeth yn y ffordd y mae'n gwario arian cyhoeddus. Mae hefyd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn dangos y gall reoli risgiau ariannol yn effeithiol. Felly, mae'n hollbwysig bod y Llywodraeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

First of all, I would like to touch on one point

Yn gyntaf oll, hoffwn grybwyll un pwynt a

made by the Member speaking on behalf of the Finance Committee in relation to the revised arrangements of the Welsh Government's budget motion, which now allow the Welsh Government to move to a single expenditure limit rather than having individual control totals for each main expenditure group. This was, of course, agreed by the Finance Committee, subject to the agreement of a budget protocol. I am pleased that the Minister has worked with the committee on this, and I very much welcome it.

I will make a few comments on the Finance Committee's recommendations in its report on the supplementary budget. Recommendation 1 of the report suggests that the Welsh Government publicly sets out a clear evidence base for the decision to provide funding totalling £80 million over four years to the Hywel Dda Local Health Board. I believe that, in order to be able to fully scrutinise the proposals, it is essential that Members have all of the appropriate information available to them to be able to understand the Welsh Government's decision. One point that was telling during our evidence session related to the lack of clarity on how funding provided by the Welsh Government for the transformation of services in Hywel Dda would be affected by the ongoing consultation on Hywel Dda Local Health Board's service plan. Even though this additional funding has been allocated to support the transformation of services, it is clear that no specific decisions have yet been made on future services. Hywel Dda Local Health Board has told us time and again that no decisions have been reached and that the listening and engagement exercise is meant to allow the local communities a say in how the health board shapes its services for the future. The question that has been raised by many, therefore, is how additional funding can be allocated on the basis of supporting transformation of services, when we currently do not know what those specific future services are. Of course, as someone who represents a constituency in the Hywel Dda health board area, far be it from me to oppose any additional funding. However, we need to know why that funding is being allocated. If the Government was being transparent by

wnaed gan yr Aelod a siaradodd ar ran y Pwyllgor Cyllid ynghylch y trefniadau diwygiedig yng nghynnig Llywodraeth Cymru ar y gyllideb, sydd bellach yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fabwysiadu terfyn gwariant unigol yn hytrach na chael cyfansymiau rheoli unigol ar gyfer pob prif grŵp gwariant. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid â hynny, wrth gwrs, yn amodol ar ddod i gytundeb ar brotocol ynglŷn â'r gyllideb. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi gweithio gyda'r pwyllgor ar hyn, ac rwy'n ei groesawu.

Byddaf yn gwneud ychydig o sylwadau am argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar y gyllideb atodol. Mae argymhelliad 1 o'r adroddiad yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno yn gyhoeddus sail dystiolaeth glir i'r penderfyniad i ddarparu cyllid gwerth £80 miliwn dros bedair blynedd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Er mwyn inni allu craffu'n llawn ar y cynigion, credaf ei bod yn hanfodol bod yr holl wybodaeth briodol ar gael i'r Aelodau, fel y gallant ddeall penderfyniad Llywodraeth Cymru. Roedd un pwynt a wnaed yn ystod ein sesiwn dystiolaeth yn dweud llawer; roedd yn ymwneud â'r diffyg eglurder o ran sut y byddai'r ymgynghoriad presennol ar gynllun gwasanaeth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn effeithio ar y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau yn y bwrdd iechyd hwnnw. Er bod yr arian ychwanegol hwn wedi'i glustnodi i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau, mae'n amlwg nad oes unrhyw benderfyniadau penodol wedi'u gwneud eto ar wasanaethau yn y dyfodol. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi dweud wrthym dro ar ôl tro nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud a bod yr ymarfer gwrando ac ymgysylltu i fod i roi llais i'r cymunedau lleol o ran y ffordd y mae'r bwrdd iechyd yn llunio'i wasanaethau at y dyfodol. Y cwestiwn a ofynnwyd gan lawer, felly, yw sut y gellir dyrannu arian ychwanegol i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau pan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd y gwasanaethau penodol hynny yn y dyfodol? Wrth gwrs, fel rhywun sy'n cynrychioli etholaeth yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda, ni fyddwn byth yn gwrthwynebu unrhyw gyllid ychwanegol. Fodd bynnag,

saying that it is being allocated because of its geographical challenges and rurality—something that I have long argued for—it would be clear. However, it seems that the Government is not saying that; it is just saying that additional funding is being allocated for the transformation of services, even though those specific services have not yet been decided. I hope that the Minister and her colleague the Minister for health will set out a clear evidence base as soon as possible for the decision to provide funding of £80 million over four years to Hywel Dda Local Health Board.

mae angen inni wybod pam mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu. Pe bai'r Llywodraeth yn bod yn dryloyw drwy ddweud ei bod yn cael ei ddyrannu oherwydd heriau daearyddol a natur wledig yr ardal—sef rhywbeth yr wyf wedi dadlau'n hir o'i blaid—byddai'n glir. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r Llywodraeth yn dweud hynny; yr unig beth y mae'n ei ddweud yw bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, er na phenderfynwyd eto ar y gwasanaethau penodol hynny. Gobeithio y bydd y Gweinidog a'i chyd-Weinidog, y Gweinidog iechyd, yn cyflwyno sail dystiolaeth glir cyn gynted â phosibl i'r penderfyniad i ddarparu cyllid gwerth £80 miliwn dros bedair blynedd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

I will now turn to the financial management of health boards in general, and the need for clear accountability. The Minister for health has said that the NHS has to learn to live within its budget and that senior management figures will be held to account. Concerns over financial pressures within the health service were raised during discussions on the final budget last year. During scrutiny of this supplementary budget, the Minister failed to tell the Finance Committee whether the Government will provide additional funding to the health service should health boards not break even. I hope that, in responding to this debate, the Minister will take the opportunity to clarify this very important point and answer this essential question.

Trof yn awr at reolaeth ariannol cyffredinol yn y byrddau iechyd, a'r angen am atebolrwydd clir. Mae'r Gweinidog iechyd wedi dweud bod rhaid i'r GIG ddysgu byw o fewn ei gyllideb, ac y bydd uwch reolwyr yn cael eu dwyn i gyfrif. Mynegwyd pryderon ynghylch pwysau ariannol yn y gwasanaeth iechyd yn ystod trafodaethau ar y gyllideb derfynol y llynedd. Yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb atodol hon, ni ddywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid a fyddai'r Llywodraeth yn darparu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd pe bai byrddau iechyd yn gorwario. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn manteisio ar y cyfle i egluro'r pwynt pwysig hwn ac i ateb y cwestiwn hanfodol hwn.

With an additional £303 million being allocated in this supplementary budget, we on this side of the Chamber will not be opposing this motion. However, given the concerns raised around financial pressures within the health service, and given that insufficient information has been forthcoming with regard to setting a clear evidence base for the funding of LHBs, we will be abstaining, unless the Minister addresses these points in her response.

Gan fod £303 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn y gyllideb atodol hon, ni fyddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn gwrthwynebu'r cynnig. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch pwysau ariannol yn y gwasanaeth iechyd, ac o ystyried nad oes digon o wybodaeth wedi dod i law ynghylch pennu sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer cyllido byrddau iechyd lleol, byddwn yn ymatal, oni bai bod y Gweinidog yn rhoi sylw i'r pwyntiau hyn yn ei hymateb.

**Ieuan Wyn Jones:** Hoffwn innau ddweud hefyd fy mod yn falch bod cyfle wedi codi i gael trafodaeth ar y gyllideb atodol hon. Fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog wrth agor y drafodaeth, mae swm ychwanegol o £303

**Ieuan Wyn Jones:** I would also like to say that I am pleased that an opportunity has arisen to discuss this supplementary budget. As the Minister outlined when opening the debate, an additional sum of £303 million is

miliwn yn cael ei drosglwyddo i adrannau'r Llywodraeth. Mae'r Gweinidog wedi rhestru rhai o'r penderfyniadau pwysicaf a wnaed ganddi. Croesawn y ffaith bod arian wedi'i neilltuo ar gyfer sicrhau ysgogiad economaidd, ac mae'r Gweinidog wedi ei gwneud yn glir yn yr adroddiad hwn bod rhan sylweddol o'r arian hwnnw yn deillio o'r arian ychwanegol sydd wedi dod o'r Trysorlys yn San Steffan. Croesawn hynny, er y byddem wedi dymuno mynd ymhellach o ran rhoi help ychwanegol yng nghyd-destun rhyddhad ardrethi busnes. Credaf ei bod yn hynod bwysig bod y cynllun hwnnw'n parhau. Byddwn wedi gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn ychwanegu at yr arian, ond wrth gwrs, nid oedd modd dod i ddealltwriaeth â'r Llywodraeth adeg y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

to be transferred to Government departments. The Minister has listed some of the more important decisions that she made. We welcome the fact that funding has been allocated to ensure an economic stimulus, and the Minister has made it clear in this report that a significant part of that funding comes from the additional funds that have been received from the Treasury in Westminster. We welcome that, although we would have liked to have gone further to provide greater assistance in terms of business rate relief. I think that it is extremely important that that scheme continues. I would have hoped that the Government would have added to the funding, but, of course, it was not possible to reach agreement with the Government during negotiations for next year's budget.

Mae nifer o faterion eraill y gallwn eu croesawu yn y datganiad ac yn y ddogfen a gyhoeddwyd, ond mae gennym gwestiynau eithaf sylfaenol ynglŷn â sefyllfa'r byrddau'r iechyd. Cyfeiriodd Paul Davies a Christine Chapman at yr hyn roedd y Pwyllgor Cyllid yn ei deimlo. Rydym yn anhapus ag agweddau ar atebion y Llywodraeth yn yr ystyr hon: rydym yn ymwybodol bod £93 miliwn ychwanegol yn cael ei roi o'r arian wrth gefn eleni i'r byrddau iechyd lleol, gyda £30 miliwn i Hywel Dda yn benodol a £63 miliwn rhwng y gweddill, ac rydym yn gwybod hefyd fod y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd lleol yn teimlo, er eu bod yn cael yr arian ychwanegol hwnnw, y bydd problem o ran sicrhau y gallant aros o fewn y gyllideb. Rydym yn ymwybodol hefyd y gallent orwario rhwng £25 miliwn a £47 miliwn, a hynny ar ben y £93 miliwn sydd eisoes wedi cael ei roi.

There are several other points that we can welcome in the statement and in the document that was published to accompany it, but we also have some fundamental questions on the situation of the health boards. Paul Davies and Christine Chapman referred to what the Finance Committee felt. We are unhappy with some aspects of the Government's responses in this respect: we are aware that an additional £93 million is being given to the local health boards this year from reserves, with £30 million to Hywel Dda specifically and £63 million between the rest, and we also know that most of local health boards feel that, although they are receiving those additional funds, there will be problems in ensuring that they will be able to work within their budgets. We are also aware that they could overspend by between £25 million and £47 million, on top of the £93 million that has already been given.

Y broblem fawr i'r Gweinidog, wrth gwrs, yw'r ffaith bod y byrddau iechyd lleol, a'r ymddiriedolaethau cyn hynny, yn methu â byw o fewn eu cyllideb hyd yn oed pan oedd y gyllideb iechyd yn codi. Rydym i gyd yn cofio blynyddoedd blaenorol yn y Cynulliad, a'r gyllideb yn codi bob blwyddyn, ac eto, roedd yr ymddiriedolaethau'n dangos nad oeddent yn gallu byw o fewn y cyllidebau a neilltuwyd iddynt. Felly, pryder i bawb fydd sut y bydd y Llywodraeth yn gallu sicrhau bod digon o arian ar gael i'r gwasanaeth

The major problem for the Minister, of course, is the fact that the local health boards, and the trusts before them, could not live within their budgets, even when the health budget was increasing. We all remember previous years in the Assembly when the budget was increasing annually, and yet the trusts still demonstrated that they could not work within the budgets that were allocated to them. Therefore, it will be of concern to everyone how the Government can ensure that adequate funds are available to the health

iechyd o weld y cyllidebau hyn yn gostwng yn eithaf sylweddol dros y blynyddoedd nesaf mewn termau real, a hynny heb fod arian wrth gefn yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn gwybod bod y Gweinidog wedi cadw £23 miliwn wrth gefn tan ddiwedd y flwyddyn—sydd yn fater o wythnosau erbyn hyn. Credaf y byddai o gymorth i'r Cynulliad pe bai'r Gweinidog yn gallu amlinellu pa mor ffyddiog y mae hi y bydd y byrddau iechyd lleol yn aros o fewn eu cyllidebau, fel na fydd angen rhoi mwy o arian iddynt ar gyfer y flwyddyn nesaf.

boards now that the budget will decrease quite substantially in real terms over the next few years, and without having money in reserve in next year's budget. We know that the Minister has retained £23 million in reserve until the end of the year—which is now a matter of weeks away. I think that it would assist the Assembly if the Minister were to outline how confident she is that the local health boards will come in on budget, so that they will not need to be given additional funds for next year.

Byddwn hefyd yn tanlinellu argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, sef ein bod am gael mwy o fanylion, os liciwch chi, am yr £80 miliwn a neilltuwyd ar gyfer y pedair blynedd nesaf i Hywel Dda, nid yn gymaint am ein bod yn gwrthwynebu'r ffaith bod y swm wedi cael ei roi—gwnaeth Paul Davies y pwynt yn ddigon clir—ond oherwydd ein bod am gael gwybod am beth y mae wedi cael ei roi. Mae'r Llywodraeth yn dweud ei fod ar gyfer trawsffurfio'r gwasanaeth. Byddai'n dda cael gwybod a oes cytundeb wedi bod rhwng y Llywodraeth, y Gweinidog a bwrdd Hywel Dda. Os nad oes, sut y gallwch ddweud bod £80 miliwn wedi cael ei roi heb wybod am beth? Mae'n bwysig bod y Gweinidog yn gallu ymateb i hynny; dyna un o'r casgliadau yr edrychodd y pwyllgor arno mewn mwy o fanylder. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa i ymateb i hynny ar ddiwedd y ddadl.

I also wish to underline the Finance Committee's recommendation that we would like to see greater detail, if you like, about the £80 million allocated to Hywel Dda for the next four years, not because we oppose the fact that the sum has been given—Paul Davies made the point quite clearly—but because we want to know the reason why it has been provided. The Government says that it is for the transformation of services. It would be good to know whether agreement has been reached between the Government, the Minister and Hywel Dda health board. If it has not, how can you say that £80 million has been allocated without knowing why? It is important that the Minister should respond to that; that is one of the conclusions that the committee looked at in greater detail. I hope that the Minister will be in a position to respond to that at the end of the debate.

**Peter Black:** I also welcome the extra money being allocated in this supplementary budget and, in particular, the fact that this supplementary budget puts into effect the agreement that was made on the budget in terms of the extra money for the pupil deprivation grant, as well as the extra money for the economic stimulus package, which we believe is valuable, as it will have huge benefits for the rest of Wales.

**Peter Black:** Rwyf innau'n croesawu'r ffaith bod yr arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn y gyllideb atodol hon. Rwy'n croesawu'n benodol y ffaith bod y gyllideb atodol hon yn rhoi ar waith y cytundeb a wnaed ar y gyllideb o ran yr arian ychwanegol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, yn ogystal â'r arian ychwanegol ar gyfer y pecyn i ysgogi'r economi, yr ydym yn credu ei fod yn werthfawr, gan y bydd yn dod â manteision enfawr i weddill Cymru.

In terms of the scrutiny of this supplementary budget, like a number of other Members, I have concerns about the health budget and the extra money that has been allocated to it. It is not that we do not believe that money should be there for health; we are concerned about the sustainability of the money being

O ran craffu ar y gyllideb atodol hon, mae gennyf i, fel nifer o Aelodau eraill, bryderon am y gyllideb iechyd a'r arian ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu iddi. Nid yw hynny'n golygu nad ydym yn credu y dylid sicrhau bod arian ar gael ar gyfer iechyd; rydym yn pryderu am gynaliadwyedd yr arian sydd ar

made available and about these health boards being able to live within the resources made available to them. I understand that the Minister for health is seeking to do a lot of work on that, and I hope that the outcome of that work is that that will be the case.

gael ac am allu'r byrddau iechyd hyn i fyw o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Deallaf fod y Gweinidog iechyd yn bwriadu gwneud llawer o waith ar hynny, ac rwy'n gobeithio mai canlyniad y gwaith hwnnw yw y bydd hynny'n digwydd.

5.00 p.m.

However, the extra money for Hywel Dda LHB, in particular—£80 million over four years—although it is welcome and will certainly help to put that health board on a more sustainable footing, raises questions about accountability and transparency in relation to what exactly that money will be used for. Hywel Dda LHB is already consulting on its service plan, which has not been agreed and which has been the subject of debate in this Chamber in relation to other motions and at other times. It is clear that the money cannot be for the service plan, because the plan has not been agreed. The question then arises as to how that money will be spent. If the money is just to clear deficits and to put the board on a sound financial footing, then please say so, because most of us would accept that if that is the case. However, what we are being told is that the money is for some sort of strategy, of which we do not seem to have any knowledge and which seems to be separate from the service plan.

Fodd bynnag, mae'r arian ychwanegol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, yn benodol—£80 miliwn dros bedair blynedd—er ei fod i'w groesawu, a bydd yn sicr yn helpu i roi'r bwrdd iechyd hwnnw ar sylfaen fwy cynaliadwy, yn codi cwestiynau ynghylch atebolrwydd a thryloywder o ran i ba ddiben fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn union. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda eisoes yn ymgynghori ar ei gynllun gwasanaeth, sydd heb ei gytuno, ac mae wedi bod yn destun dadl yn y Siambr hon mewn perthynas â chynigion eraill ac ar adegau eraill. Mae'n amlwg na ellir defnyddio'r arian ar gyfer y cynllun gwasanaeth, gan nad yw'r cynllun wedi cael ei gytuno. Yna, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch sut y caiff yr arian ei wario. Os mai clirio diffygion a rhoi'r bwrdd ar sylfaen ariannol gadarn yw unig bwrpas yr arian, yna dywedwch hynny, oherwydd byddai'r rhan fwyaf ohonom yn derbyn hynny os mai dyna yw'r bwriad. Fodd bynnag, yr hyn rydym yn cael gwybod yw fod yr arian i'w ddefnyddio i dalu am ryw fath o strategaeth, ond nid oes gennym unrhyw wybodaeth yn ei gylch ac mae'n ymddangos fel ei fod ar wahân i'r cynllun gwasanaeth.

In this particular instance, we would welcome a great deal more transparency so that we can hold the Minister to account on this additional funding and understand why the money has been allocated in this way. I do not think that that is an unreasonable request. It does not mean that we would oppose the allocation of that money. However, there are times when Ministers can be less than transparent and open as to how money is being spent, and this is a case in point. Therefore, Minister, I would be grateful if you could provide some more clarity in your response to this debate as to how this money will be spent and what improvements it will be used for. If it is there just to clear existing debts and to put the

Yn yr achos penodol hwn, byddem yn croesawu llawer mwy o dryloywder fel y gallwn ddwyn y Gweinidog i gyfrif am y cyllid ychwanegol hwn a deall pam fod yr arian wedi ei glustnodi yn y modd hwn. Nid wyf yn credu fod hynny'n gais afresymol. Nid yw'n golygu y byddem yn gwrthwynebu dyraniad yr arian hwnnw. Fodd bynnag, mae yna adegau pryd y gall Gweinidogion fod yn llai na thryloyw ac agored o ran sut mae arian yn cael ei wario, ac mae hyn yn enghraifft o hynny. Felly, Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallech, yn eich ymateb i'r ddadl hon, roi rhagor o eglurder ynghylch sut y bydd yr arian hwn yn cael ei wario ac ar gyfer pa welliannau y bydd yn cael ei ddefnyddio. Os mai clirio dyledion presennol

board back on a sound financial footing, then just say so and I am sure that many of us here would accept that.

a rhoi'r bwrdd yn ôl ar sylfaen ariannol gadarn yw unig bwrpas yr arian, yna dywedwch hynny ac rwy'n siwr y byddai llawer ohonom yma yn derbyn hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** I call Mike Hedges.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Mike Hedges.

**Mike Hedges:** Thank you, Deputy Presiding Officer; you caught me by surprise. I welcome this supplementary budget. This supplementary budget for 2011-12 builds upon Welsh Labour's budget for growth and jobs, which was passed by the Assembly in December. It reflects the key priorities of this Welsh Government and the people of Wales, which are jobs and protecting our public services. It is set against a background of substantial central Government cuts in public expenditure. I make no apology for again reiterating that the UK Government is cutting too fast and too much. That is why I support the Welsh Government's taking urgent action in its supplementary budget to help cushion the Welsh economy insofar as is possible from the current economic storm.

**Mike Hedges:** Diolch, Ddirprwy Lywydd; nid oeddwn yn disgwyl hynny. Rwy'n croesawu'r gyllideb atodol hon. Mae'r gyllideb atodol ar gyfer 2011-12 yn adeiladu ar gyllideb Llafur Cymru ar gyfer twf a swyddi, a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru a phobl Cymru, sef swyddi a diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cael ei osod yn erbyn cefndir o doriadau sylweddol mewn mewn gwariant cyhoeddus gan y Llywodraeth ganolog. Nid wyf yn ymddiheuro am ailadrodd fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud toriadau yn rhy gyflym a thoriadau sy'n rhy fawr. Dyna pam yr wyf yn cefnogi'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau brys yn ei chyllideb atodol, i ddiogelu economi Cymru gymaint ag sy'n bosibl rhag y trafferthion economaidd presennol.

Despite the savage cuts imposed by the Tory-led Lib-Dem supported UK Government on the Welsh Government's capital budget—a 42.6% real-terms cut in the Welsh capital programme over four years—the supplementary budget sets out further investment in capital projects. These capital projects will not only provide much needed infrastructure, but also employment. While, in the Great Depression of the 1930s, Roosevelt used the New Deal to build capital projects and take the economy out of recession, in twenty-first century Britain, the Tories and their Lib Dem allies are cutting back on capital expenditure, with a devastating effect on the British economy and employment.

Er gwaethaf y toriadau llym ar gyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru, a orfodwyd arni gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, o dan arweiniad y Torïaid gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol—toriad o 42.6% yn rhaglen gyfalaf Cymru dros bedair blynedd mewn termau real—mae'r gyllideb atodol yn nodi mwy o fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf. Bydd y prosiectau cyfalaf hyn, nid yn unig yn darparu seilwaith sydd mawr ei hangen, ond hefyd cyflogaeth. Er i Roosevelt, yn ystod Dirwasgiad Mawr yr 1930au, ddefnyddio'r Fargen Newydd i adeiladu prosiectau cyfalaf a chodi'r economi allan o'r dirwasgiad, yn yr unfed ganrif ar hugain ym Mhrydain, mae'r Torïaid, a'u cynghreiriaid y Democratiaid Rhyddfrydol, yn cwtogi ar wariant cyfalaf, sy'n cael effaith ddinistriol ar yr economi a chyflogaeth ym Mhrydain.

While we cannot undo all the damage being done by the Tories and Lib Dems at Westminster, what we can do is take action, such as, in this supplementary budget,

Er na allwn ddadwneud yr holl ddifrod y mae'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud yn San Steffan, yr hyn y gallwn ei wneud yw gweithredu, yn y gyllideb atodol

confirming the one-off £38.9 million economic stimulus package announced by the Welsh Government in November, allocating £30.7 million as an immediate stimulus, with £0.7 million to extend the number of apprenticeships provided under the young recruits programme, which will fund an additional 800 apprenticeships. There is £9.3 million for capital expenditure in schools, £5 million for preparatory work for the Ely Mill housing project, which will create up to 200 jobs per annum, £3.5 million to support road infrastructure associated with enterprise zones, £3 million to expand the Arbed energy efficiency scheme, and £9.3 million for an additional 130 affordable homes in Wales—[*Interruption*.]

hon er enghraifft, gan gadarnhau'r pecyn unigryw o £38.9 miliwn i ysgogi'r economi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd, sy'n dyrannu £30.7 miliwn fel ysgogiad ar unwaith, gyda £0.7 miliwn yn cael ei ddefnyddio i ymestyn nifer y prentisiaethau a ddarperir o dan y rhaglen recriwtiaid ifanc, a fydd yn ariannu 800 o brentisiaethau ychwanegol. Mae £9.3 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf mewn ysgolion, £5 miliwn ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer y prosiect tai Melin Trelái, a fydd yn creu hyd at 200 o swyddi y flwyddyn, £3.5 miliwn i gefnogi isadeiledd y ffyrdd sy'n gysylltiedig ag ardaloedd menter, £3 miliwn i ymestyn y cynllun effeithlonrwydd ynni, Arbed, a £9.3 miliwn i godi 130 o dai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru—[*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I would remind the opposition parties that they were heard in near silence, or certainly courteously, and we should extend the same courtesy to the present speaker.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Hoffwn atgoffa'r gwrthbleidiau iddynt gael gwrandawiad teg, neu o leiaf cwrtais, a dylem ddangos yr un cwrteisi i'r siaradwr presennol.

**Mike Hedges:** All these measures will aid the Welsh economy. On health, £93 million is being transferred into the budget line for health, social services and children for the NHS to support service improvement and efficiencies, of which £63 million is recurring funding, so it will be provided year after year, as part of the Welsh Government's proposals for placing the NHS on a sustainable financial footing. Thirty million pounds will go to Hywel Dda Local Health Board as part of a four-year package to support the transformation of services in this area. I wonder how many people who were, effectively, calling for more expenditure in the Hywel Dda LHB area last week will oppose that extra money this week. The remaining £8.2 million of the £38.9 million consequential will be carried forward to 2012-13. Will the health boards break even this year given the revised budget? That is the question that people have been asking. Everybody who has come to give evidence in committee has said that the answer is 'yes'. Dr Goodall, chief executive of Aneurin Bevan Local Health Board, assured us that he anticipated that, as a whole, the NHS in Wales would break even this year.

**Mike Hedges:** Bydd yr holl fesurau hyn yn helpu economi Cymru. O ran iechyd, mae £93 miliwn yn cael ei drosglwyddo i mewn i'r gyllideb ar gyfer iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant, er mwyn i'r GIG wella gwasanaethau ac effeithlonrwydd, gyda £63 miliwn yn arian rheolaidd, felly bydd yn cael ei ddarparu flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru i osod y GIG ar sylfaen ariannol gynaliadwy. Bydd £30 miliwn yn mynd i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o becyn pedair blynedd i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn yr ardal hon. Tybed faint o bobl a oedd, i bob pwrpas, yn galw am fwy o wariant yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yr wythnos diwethaf, fydd yn gwrthwynebu'r arian ychwanegol yr wythnos hon. Bydd yr £8.2 miliwn sy'n weddill o'r £38.9 miliwn canlyniadol yn cael ei gario ymlaen i 2012-13. A fydd y byrddau iechyd yn adennill eu costau eleni o ystyried y gyllideb ddiwygiedig? Dyna'r cwestiwn y mae pobl wedi bod yn ei ofyn. Mae pawb sydd wedi dod i roi tystiolaeth yn y pwyllgor wedi dweud mai'r ateb yw 'byddant'. Fe'n sicrhawyd gan Dr Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, ei fod yn rhagweld y bydd y GIG yng Nghymru, yn

gyffredinol, yn adennill ei chostau eleni.

I support the recommendations of the Finance Committee, even if the first two would fit more neatly into a medium-term financial planning report than a report on a supplementary budget. Given that no-one on the Finance Committee opposed the supplementary budget, I still cannot understand why the committee could not endorse it. I hope that the Assembly will endorse it today.

Rwy'n cefnogi argymhellion y Pwyllgor Cyllid, er y byddai'r ddau gyntaf yn fwy addas ar gyfer adroddiad cynllunio ariannol tymor canolig nag adroddiad ar gyllideb atodol. O ystyried nad oes neb ar y Pwyllgor Cyllid wedi gwrthwynebu'r gyllideb atodol, rwy'n dal yn methu deall pam na allai'r pwyllgor ei gymeradwyo. Gobeithio y bydd y Cynulliad yn ei gymeradwyo heddiw.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I start by thanking Christine Chapman for her contribution on behalf of the Finance Committee. As Members have acknowledged, constructive work has been done with that committee to ensure that we publish this supplementary budget based on the revised budget motion model. It moves us towards a single Welsh Government control figure, increases our flexibility, moves resources between main expenditure groups, and maximises our spend in line with our priorities, especially towards the end of this financial year. That is in line with my commitment to improving the presentation and, more importantly, the transparency of our spending plans. There is more to be done in that regard, and I will be providing a year-end report on final outturn to the Finance Committee, including a comparison with the spending plans set out in this supplementary budget and an explanation of any significant variations.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Christine Chapman am ei chyfraniad ar ran y Pwyllgor Cyllid. Fel y mae Aelodau wedi cydnabod, cafodd gwaith adeiladol ei wneud gyda'r pwyllgor i sicrhau ein bod yn cyhoeddi'r gyllideb atodol yn seiliedig ar fodel y cynnig cyllidebol diwygiedig. Mae'n ein symud tuag at ffigur rheoli Llywodraeth Cymru sengl, yn cynyddu ein hyblygrwydd, yn symud adnoddau rhwng prif grwpiau gwariant, ac yn cynyddu ein gwariant yn unol â'n blaenoriaethau, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae hynny yn unol â fy ymrwymiad i wella'r modd y caiff ein cynlluniau gwariant eu cyflwyno ac, yn bwysicach oll, eu tryloywder. Mae mwy i'w wneud yn hynny o beth, a byddaf yn darparu adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ar alldro terfynol i'r Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwariant a nodir yn y gyllideb atodol ac esboniad o unrhyw amrywiadau sylweddol.

I would like to respond to some of the important points raised today, turning first to the funding of the NHS and, in particular, the tapered funding package for Hywel Dda Local Health Board. As I said in my opening remarks, I have already written to the Chair of the Finance Committee accepting the committee's recommendations on these issues, which address some of the points that have been raised this afternoon. We have always been upfront about the challenges that we face as a result of the UK Government budget cuts, and we have been working closely with all local health boards to plan for a series of difficult budgets and to understand the financial pressures that they face. As a result, the Minister for Health and Social

Hoffwn ymateb i rai o'r pwyntiau pwysig a godwyd heddiw, gan droi'n gyntaf at gyllid y GIG ac, yn benodol, y pecyn ariannu sy'n lleihau'n raddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn derbyn argymhellion y pwyllgor ar y materion hyn, sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd y prynhawn yma. Rydym bob amser wedi bod yn agored ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r holl fyrddau iechyd lleol i gynllunio ar gyfer cyfres o gyllidebau anodd ac i ddeall y pwysau ariannol sy'n eu hwynebu. Ym mis

Services announced in October an additional £103 million this year as part of our proposal for placing local health boards on a sustainable financial footing in future. Forty million pounds is being provided by the Minister for health from within her own budget, with the remaining £63 million being allocated from central reserves forming part of the current settlement for the NHS in Wales, which we announced as part of the budget in the autumn. We are confident that this settlement will deliver financial sustainability, but on top of this we are allocating an additional £30 million to Hywel Dda LHB this year as part of a four-year tapered funding package.

Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol£103 miliwn ychwanegol eleni fel rhan o'n cynnig ar gyfer gosod byrddau iechyd lleol ar sylfaen ariannol gynaliadwy yn y dyfodol. Mae £40 miliwn yn cael ei ddarparu gan y Gweinidog iechyd o fewn ei chyllideb ei hun, gyda'r £63 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddyrannu o gronfeydd canolog, sy'n ffurfio rhan o'r setliad cyfredol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'r gyllideb yn yr hydref. Rydym yn hyderus y bydd y setliad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, ond ar ben hyn, rydym yn dyrannu £30 miliwn ychwanegol i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda eleni fel rhan o becyn ariannu sy'n lleihau'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd.

In response to Ieuan Wyn Jones, Peter Black and Paul Davies on this point, this allocation of a four-year tapered funding package is in recognition of the fact that Hywel Dda LHB faces a unique set of challenges. The four-year package of £80 million gives the local board financial stability over that period to sustain current services while service improvements are developed. In response to the Finance Committee's recommendation I have asked the Minister for Health and Social Services to write to the committee with details of the basis for this decision; that is in direct response to the recommendation on the evidence base for this important allocation. I am glad that all three of those Members have welcomed the allocation, which demonstrates our commitment to sustaining those all-important health services in the Hywel Dda LHB region.

Mewn ymateb i Ieuan Wyn Jones, Peter Black a Paul Davies ar y pwynt hwn, mae'r dyraniad o becyn ariannu sy'n lleihau'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd yn gydnabyddiaeth am y gyfres o heriau unigryw sy'n wynebu Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae'r pecyn pedair blynedd o £80 miliwn yn rhoi sefydlogrwydd ariannol i'r bwrdd lleol dros y cyfnod hwnnw i gynnal y gwasanaethau presennol tra bod gwelliannau i'r gwasanaethau yn cael eu datblygu. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyllid rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at y pwyllgor gyda manylion am y sail dros y penderfyniad hwn; mae hynny'n ymateb uniongyrchol i'r argymhelliad ar sail y dystiolaeth ar gyfer y dyraniad pwysig hwn. Rwy'n falch fod pob un o'r tri Aelod hynny wedi croesawu'r dyraniad, sy'n dangos ein hymrwymiad i gynnal y gwasanaethau iechyd pwysig hynny yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

It is important to recognise that the recommendations from the Finance Committee are very helpful. It recommended that the Welsh Government hold senior management within local health boards to account for their financial management following the end of this financial year. The health boards have a statutory duty to break even, and the Minister for health has consistently made it clear that she holds senior NHS management responsible for the

Mae'n bwysig cydnabod bod yr argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid yn ddefnyddiol iawn. Argymhellwyd ganddo y dylai Llywodraeth Cymru ddal uwch-reolwyr mewn byrddau iechyd lleol i gyfrif am eu rheolaeth ariannol yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae dyletswydd statudol ar fyrddau iechyd i adennill eu costau, ac mae'r Gweinidog iechyd wedi ei gwneud yn glir, ar sawl achlysur, ei bod yn dal uwch-reolwyr y GIG yn gyfrifol am berfformiad ariannol eu

financial performance of their organisations. When she announced the additional funding in October, the Minister said then that NHS managers will be held to account for the financial management of their organisations. Welsh Government officials are keeping the situation under close review as part of the in-year monitoring. I have also agreed, in relation to your recommendation 4, that I will provide to the committee a full breakdown of all financial support provided to local health boards during the financial year. We anticipate that this information will include the amounts of funding provided to each local health board and the timing of such provision. Therefore, I am sure that that provides reassurance to Members across the Chamber on these important matters.

sefydliadau. Pan gyhoeddodd y cyllid ychwanegol ym mis Hydref, dywedodd y Gweinidog bryd hynny y bydd rheolwyr y GIG yn atebol am berfformiad ariannol eu sefydliadau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa fel rhan o'r gwaith monitro yn ystod y flwyddyn. Rwyf hefyd wedi cytuno, mewn perthynas â'ch argymhelliad 4, y byddaf yn darparu dadansoddiad llawn i'r pwyllgor o'r holl gymorth ariannol a ddarperir i fyrddau iechyd lleol yn ystod y flwyddyn ariannol. Rydym yn rhagweld y bydd y wybodaeth hon yn cynnwys y symiau cyllid a ddarperir i bob bwrdd iechyd lleol ac amseriad darpariaeth o'r fath. Felly, rwyf yn siŵr bod hynny'n rhoi sicrwydd i'r Aelodau ar draws y Siambr ar y materion pwysig hyn.

The funding for health is just one element of the supplementary budget that we are debating today. The plans also show how we are continuing to invest in capital projects, which will not only result in new schools being built and more affordable housing, but will also support the construction industry, local supply chains and create local apprenticeship and training opportunities. I am grateful to the leader of Plaid Cymru for welcoming the way in which we have managed this budget and the fact that we have levered in an additional £320.6 million, including £170 million in support of capital investment, as well as the fact that we are utilising the consequential. Mike Hedges has listed all of the projects that have benefited from that utilisation of the consequential to fund an economic stimulus package, providing a total of £38.9 million over the next two years, which was supported by Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats in support of the Labour Welsh Government. It is important to recognise that we have an opportunity now in terms of the forthcoming budget for next year, and I have written to the Chief Secretary to the Treasury today. I also made my point to him yesterday. Let us ensure that the UK Government and the Chancellor seize the opportunity for a stimulus in the forthcoming UK Government budget on 21 March.

Mae'r cyllid ar gyfer iechyd yn un elfen o'r gyllideb atodol yr ydym yn ei thrafod heddiw. Mae'r cynlluniau hefyd yn dangos sut yr ydym yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, a fydd nid yn unig yn arwain at adeiladu ysgolion newydd a mwy o dai fforddiadwy, ond bydd hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu, cadwyni cyflenwi lleol a chreu prentisiaeth lleol a chyfleoedd hyfforddi. Rwy'n ddiolchgar i arweinydd Plaid Cymru am groesawu'r ffordd yr ydym wedi llwyddo i reoli'r gyllideb hon a'r ffaith ein bod wedi ysgogi £320.6 miliwn yn ychwanegol, gan gynnwys £170 miliwn i gefnogi buddsoddiad cyfalaf, yn ogystal â'r ffaith ein bod yn defnyddio'r arian canlyniadol. Mae Mike Hedges wedi rhestru pob un o'r prosiectau sydd wedi elwa ar y defnydd o'r arian canlyniadol i ariannu pecyn ysgogi'r economi, sy'n gyfanswm o £38.9 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf, a gefnogwyd gan Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fel cefnogaeth i Lywodraeth Llafur Cymru. Mae'n bwysig cydnabod bod gennym gyfle yn awr o ran y gyllideb sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac rwyf wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys heddiw. Atgyfnerthais y pwynt iddo ddoe. Gadewch i ni sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Canghellor yn manteisio ar y cyfle am ysgogiad yng nghyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd i ddod ar 21 Mawrth.

Finally, the supplementary budget

Yn olaf, mae'r gyllideb atodol yn dangos sut

demonstrates how we remain committed to protecting the most vulnerable in these difficult times, providing an economic stimulus and supporting our all-important national health service and our construction industry in Wales.

rydym yn parhau i ymrwymo i warchod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn y cyfnod anodd hwn, gan ddarparu ysgogiad economaidd a chefnogi ein gwasanaeth iechyd gwladol hollbwysig a'r diwydiant adeiladu yng Nghymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Is there any objection? I see that there is, therefore, I will defer the vote on this item until voting time.

Voting time will now follow. Before we vote on the one item before us, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i ni bleidleisio ar yr unig eitem sydd ger ein bron, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4914: O blaid 33, Ymatal 21, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4914: For 33, Abstain 21, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda

Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.13 p.m.*
*The meeting ended at 5.13 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)

Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)